

Polisi, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru 2023

Hoffem ddiolch i grwpiau cynghori Sgrinio Cyn Geni Cymru (SCG) ac i Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol SCG am eu cymorth a'u cyngor wrth baratoi'r ddogfen hon.

Gwnaethpwyd asesiad o'r effaith o ran cydraddoldeb ar gyfer y ddogfen hon ac mae'r asesiad ar gael gan SCG.

© Hawlfraint 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl. Ni roddir hawl i atgynhyrchu'r ddogfen gyfan nac unrhyw ran ohoni, heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

Crynodeb o'r newid			
Dyddiad	Adran	Tudalen	Sylwadau
Mai 2024	Yn dilyn cyflwyno DNA ffetws heb gelloedd, mae'r adran ar grŵp gwaed, statws D a gwrthgyrff wedi'i diweddarau.	34-47	I gynnwys cffDNA
Mawrth 2025	7.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau	64	Clip ffilm Sgrinio Cyn Geni Cymru (ASW) wedi'i dynnu o wefan ASW - protocol wedi'i ddileu
Mawrth 2025	7.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau	65	I gynnwys cynnig Profi Cynenedigol Heb Lawdriniaeth (NIPT) gan wasanaethau bydwreigiaeth mewn achosion lle mae hanes o T13, T18, T21
Mawrth 2025	8.0 Sgrinio Cyn Geni - Uwchsain	81	Clip ffilm Sgrinio Cyn Geni Cymru (ASW) wedi'i dynnu o wefan ASW - protocol wedi'i ddileu
Mawrth 2025	Ôl-nodiadau	95	Argymhellion ar gyfer sonograffwyr heb gymhwyster sydd wedi'i achredu gan CASE

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad	4
2.0 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen	7
3.0 Trefniadau Rheoli	10
4.0 Sgrinio Cyn geni ar gyfer HIV, Hepatitis B a Siffilis	15
5.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer Grŵp Gwaed, Grŵp Rhesws (Rh) D a Gwrthgyrff.....	35
6.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia	49
7.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau	63
8.0 Sgrinio Cyn Geni - Uwchsain	81
Cyfeiriadau	93
Ôl-nodiadau	95

1.0 Cyflwyniad

Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru (SCG) sefydlu polisiâu, safonau a fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad sgrinio cyn geni a ddarperir gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae SCG yn rhan o Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd â phrofiad helaeth o reoli a darparu rhaglenni sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth. Y Grŵp Ansawdd a Rheoli Clinigol a'r grwpiau cynghori penodol i raglen sy'n darparu'r llywodraethu ar gyfer y gwaith. Nid yw SCG yn darparu unrhyw wasanaethau sgrinio cyn geni, nac yn eu rheoli'n uniongyrchol.

Mae gwasanaethau mamolaeth y byrddau iechyd yng Nghymru yn cynnig profion sgrinio cyn geni i fenywod beichiog fel rhan o'u gofal cyn geni. Mae amryw o wahanol resymau dros gynnig profion sgrinio cyn geni ac mae'r rhain yn gwneud y rhaglen sgrinio cyn geni'n un gymhleth sydd â nifer o wahanol ddibenion, ac ystyriaethau a goblygiadau moesegol unigryw. Mae cefnogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus personol am eu dewisiadau sgrinio cyn geni yn bwysig yn ystod beichiogrwydd. Rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol sicrhau bod gan unigolion y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau a rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Y diben y cytunwyd arno ar gyfer y rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru yw:

- *canfod cyflyrau penodol sy'n bresennol naill ai yn y fam neu yn y babi sy'n debygol o effeithio ar iechyd y naill neu'r llall, lle mae dull effeithiol o ymyrryd neu driniaeth ar gael ar eu cyfer*

Yn achos rhai cyflyrau, mae triniaeth ar gael yn ystod y cyfnod cyn geni neu ar ôl y geni i wella iechyd y fam neu'r babi.

Yn achos cyflyrau eraill, gellir nodi'r cyflwr yn ystod y cyfnod cyn geni ond nid oes triniaeth ar gael. Drwy gynnig cwnsela o ansawdd uchel, bydd menywod yn gallu gwneud dewis personol gwybodus ynghylch a ydynt am barhau â'r beichiogrwydd neu gynllunio eu gofal ar gyfer y beichiogrwydd gan gynnwys atgyfeirio i arbenigeddau perthnasol. Bydd cymorth priodol yn cael ei gynnig pa bynnag ddewis a wneir.

Cyhoeddodd SCG y polisi, safonau a phrotocolau cychwynnol yn 2005. Mae'r polisi, safonau a phrotocolau yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu'r polisi, safonau a phrotocolau ar gyfer sgrinio cyn geni. Mae hyn yn galluogi unigolion ledled Cymru i gael mynediad cyfartal at wasanaethau sgrinio â sicrwydd ansawdd yn ystod beichiogrwydd. Mae'r cydlynwyr sgrinio cyn geni, arweinwyr llywodraethu sgrinio mamau a phlant, sonograffwyr arweiniol obstetreg, arweinwyr uwchsain tryloywder y gwegil (NT) ac arweinwyr uwchsain calon y ffetws yn gweithio'n agos gyda SCG i weithredu a chynnal safonau SCG yn eu byrddau iechyd.

Ar y cyd â'r byrddau iechyd, mae SCG yn mynd ati ddwywaith y flwyddyn i gynnal asesiad monitro perfformiad a elwir yn ddangosyddion perfformiad. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i fyrdau iechyd am eu perfformiad a sut y maent yn cydymffurfio â pholisi, safonau a phrotocolau SCG. Lle nad yw polisi, safonau a phrotocolau SCG yn cael eu bodloni, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol yn y byrddau iechyd ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae argymhellion: Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ([UK NSC](#)), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ([NICE](#)), Cymdeithas Haematoleg Prydain ([BSH](#)), Cymdeithas HIV Prydain ([BHIVA](#)), Cymdeithas Prydain ar gyfer Iechyd Rhywiol a HIV ([BASHH](#)), [Llawlyfr ar gyfer labordai sgrinio cyn geni Rhaglen Sgrinio ar gyfer Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia](#) GIG Lloegr, Gwasanaeth Cymorth Sicrhau Ansawdd Sgrinio ar gyfer Syndrom Down ([DQASS](#)), Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ([RCOG](#)) a Chymdeithas Sganiau Uwchsain Meddygol Prydain ([BMUS](#)) a modelau arfer da e.e. [Cynorthwyo menywod a'u partneriaid drwy sgrinio cyn geni ar](#)

[gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau | RCOG](#) wedi'u hystyried yn y diwygiad hwn.

Dylid rhoi sylw i'r polisi, safonau a'r protocolau hyn ar gyfer y rhaglen gan roi sylw teg hefyd i'r argymhellion sydd yn y cyhoeddiadau ategol, e.e., canllawiau'r cyrff proffesiynol a'r Colegau Brenhinol.

Mae SCG hefyd wedi datblygu [adnoddau addysgol](#) i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n darparu sgrinio cyn geni a darparu canllawiau pellach ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yn y cyhoeddiadau canlynol: [Heintiau a Brechau yn ystod Beichiogrwydd: Canllaw i Weithwyr Iechyd Proffesiynol](#), [Llawlyfr Bydwragedd](#) a [Llawlyfr Obstetreg Uwchsaïn i Sonagraffwyr](#).

Caiff y ddogfen hon ei diweddarau ar-lein rhwng cyhoeddiadau. Bydd yr holl ddiweddiadau'n cael eu hamlinellu ar ddechrau'r ddogfen. Er mwyn sicrhau y defnyddir y fersiwn fwyaf cyfoes argymhellir bod defnyddwyr yn edrych ar y ddogfen ar-lein yn hytrach na'i hargraffu.

1.1 Terminoleg



Mae SCG yn cydnabod yr heriau y gall hunaniaeth rhywedd ei chael ar feichiogrwydd ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn darparu gofal personol, cynhwysol a pharchus yn ystod beichiogrwydd a geni plant. At ddiben y ddogfen broffesiynol hon, mae polisi, safonau a phrotocolau'r rhaglen yn defnyddio'r termau 'menyw', 'menywod' neu 'mam' drwyddi draw. Dylid cymryd bod y rhain yn cynnwys pobl feichiog nad ydynt yn uniaethu fel menywod ond sy'n cyflwyno ar gyfer gofal cyn geni.

Mae'r polisi, safonau a phrotocolau rhaglen hyn yn defnyddio'r termau 'rhaid' a 'dylai' drwyddi draw. Mae'r defnydd o 'rhaid' yn nodi gofyniad ac mae'r defnyddio o 'dylai' yn nodi argymhelliad.

Mae'r polisi, safonau a phrotocolau rhaglen hyn yn defnyddio'r termau 'diwrnodau calendr' a 'diwrnodau gwaith' drwyddi draw. Mae diwrnodau calendr yn golygu dyddiau olynol, gan gynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau cyhoeddus/banc yng Nghymru. Mae diwrnodau gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus/banc yng Nghymru

1.2 Dyluniad y Ddogfen

Yn y ddogfen, mae'r safonau ar gyfer sgrinio cyn geni yng Nghymru wedi'u lliwio'n wyrdd. Yn dilyn y safonau mae'r protocolau ategol sy'n cael eu hargymell, fel sydd yn yr enghraifft a ddangosir isod.

Safon C 28	Datganiad y Safon Wedi'i Rifo
<p>Rhaid i'r labordy hysbysu'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) am ganlyniadau HIV adweithiol i'r prawf o fewn un diwrnod gwaith. Targed 100%</p>	
<p>(1) Bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.</p> <p>(2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol SCG.</p> <p>(3) Rhaid i wybodaeth ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.^a</p>	<p>Rhestr o brotocolau i gefnogi gweithredu'r safon yn llawn drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • roi gwybodaeth ychwanegol i'r proffesiwn iechyd am sut i gyrraedd y safon • cynnwys gofyniad am gamau ychwanegol • pethau i'w heithrio • pethau i'w cynnwys • gofynion o ran dogfennaeth • gofynion rheoli a rheoli risg • gofynion atgyfeirio. 

Mae'r llythyren mewn uwchysgrif ar ddiwedd brawddeg (^a) yn cyfeirio at droednodyn sydd i'w weld ar waelod y dudalen. Mae'r rhif mewn uwchysgrif ar ddiwedd brawddeg (¹) yn cyfeirio at ôl-nodyn, ac mae'r rhain i'w gweld ar dudalen 90 o'r ddogfen. Drwy ddal y cyrchwr dros y llythrennau a'r rhifau hyn, bydd y nodiadau eu hunain yn ymddangos mewn blwch ar y sgrin wrth ymyl y llythyren neu'r rhif bach fel yn yr enghraifft ar y dudalen hon.

Gallwch glicio ar y rhifau mewn uwchysgrif sy'n cyfeirio at ôl-nodiadau i symud i dudalen yr ôl-nodiadau. Os byddwch wedyn yn clicio ar y rhif ar ddechrau'r ôl-nodyn, byddwch yn symud yn ôl at y dudalen berthnasol yn y ddogfen.

Bydd hyperddolenni at ddogfennau allweddol drwy'r polisi, safonau a phrotocolau hyn. Er mwyn cael mynediad at y rhain, cliciwch ar yr hyperddolen (sydd wedi'i uwcholeuo ym Mhrotocol 3 yn y tabl isod) a bydd y ddogfen yn agor mewn tudalen we ar wahân.

^a Dyma enghraifft o sut mae troednodiadau'n gweithio

2.0 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen

2.1 Llywodraethu'r Gwasanaeth

Y bwrdd iechyd sy'n darparu gofal sy'n gyfrifol am ddarparu profion sgrinio cyn geni. Yn yr un modd, y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu'r llwybr sgrinio cyn geni, sy'n cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio cyn geni, argymhellir y canlynol:

- dylid rhoi gwybod am bob digwyddiad sgrinio cyn geni drwy system adrodd am ddigwyddiadau clinigol y bwrdd iechyd
- os, yn dilyn nodi ac ymchwiliad cychwynnol gan y bwrdd iechyd, bydd digwyddiad clinigol sy'n cael ei achosi gan fethiant yn y system ac y gallai'r un methiant amharu o bosib ar wasanaeth y darparwyr eraill yng Nghymru, dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni, yr arweinydd llywodraethu mamau a phlant neu reolwr risg y bwrdd iechyd roi gwybod i SCG cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn galluogi SCG i ystyried a oes angen gweithredu neu gynnig canllawiau ychwanegol er mwyn lleihau'r posibilrwydd o weld yr un risg yn amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau arall.

2.2 Arweinydd Llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Sgrinio Mamau a Phlant

Safon G 1

Rhaid i fyrddau iechyd nodi arweinydd llywodraethu wedi'i enwi ar gyfer sgrinio mamau a phlant sy'n rheoli rôl llywodraethu strategol y rhaglenni hyn.

Targed 100%

Fel rhan o'r cytundeb hirdymor rhwng byrddau iechyd ac adran sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae gofyniad y bydd arweinydd llywodraethu'n cael ei nodi ym mhob bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio mamau a phlant. Rhaid i'r person fod yn uwch aelod o staff a chael digon o amser i fod yn effeithiol yn y rôl hon. Rhaid i hunaniaeth yr unigolyn/unigolion sy'n ymgymryd â'r rôl fod yn hysbys i SCG er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol a dylid rhoi gwybod i SCG am unrhyw newidiadau/symud o ran personél.

O fewn y rhaglen sgrinio cyn geni, bydd yr arweinydd llywodraethu a enwir yn sicrhau bod sgrinio cyn geni o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu o fewn ei ardal bwrdd iechyd ei hun.

- Rhoi diweddariadau rheolaidd am berfformiad ac ansawdd gwasanaeth i fforymau bwrdd iechyd priodol a grwpiau staff, i gynorthwyo'r gwaith o fonitro a rhoi cyfleoedd i nodi meysydd ar gyfer gwella gwasanaethau.
- Bwydo materion, pryderon a'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau i'r fforymau perthnasol yn y bwrdd iechyd (e.e. grwpiau ansawdd cyfarwyddiaeth), gan gynnal goruchwyliaeth o unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o hynny i sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn llawn neu uwchgyfeirio pellach priodol.
- Cysylltu ag arweinydd llywodraethu clinigol y gyfarwyddiaeth berthnasol (e.e. mamolaeth, obstetrig newyddenedigol, ac ati) i gynnal ansawdd gwasanaeth a mynd i'r afael â materion lleol sy'n effeithio ar ddarpariaeth.

- Sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu a'u cyflawni gyda'r bobl a'r grwpiau perthnasol ar gyfer:
 - Adroddiadau uwchsain Gwasanaeth Cymorth Sicrhau Ansawdd Sgrinio ar gyfer Syndrom Down (DQASS)
 - dangosyddion perfformiad
 - dadansoddiad o anghenion hyfforddi
 - archwiliadau a materion monitro.
- Cynnal adolygiadau o ddigwyddiadau mewn cysylltiad ag arweinydd llywodraethu'r gyfarwyddiaeth, gan rannu gwersi a themâu i ymgorffori gwelliannau.
- Hwyluso'r gwaith o ddarparu gwybodaeth ar gyfer archwilio i gynorthwyo sicrhau ansawdd a meincodi yn erbyn perfformiad cenedlaethol.
- Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gynorthwyo darpariaeth gwasanaeth SCG drwy ddatblygu a rheoli prosesau perthnasol ar gyfer darparu adnoddau (e.e. nwyddau traul ar gyfer profion, adnoddau gwybodaeth), a datrys problemau gyda'r cydlynedd sgrinio cyn geni lle mae materion cyflenwi yn digwydd.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau a gweithio ochr yn ochr ag unigolion perthnasol mewn cyfarwyddiaethau eraill (e.e. arweinwyr uwchsain, arweinwyr unedau newyddenedigol ac ymwelwyr iechyd) i reoli ansawdd gwasanaeth a gwelliannau i wasanaethau.
- Sicrhau bod polisïau, safonau a phrotocolau sgrinio cyn geni yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson o fewn ardal ei fwrdd iechyd ei hun.
- Cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu ac adolygu polisi, safonau a phrotocolau i gynorthwyo darpariaeth sgrinio o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Datblygu cynlluniau addysg a llwybrau cyfathrebu i ledaenu newidiadau i safonau neu brotocolau.
- Datblygu cynlluniau gweithredu i ymdrin â materion diffyg cydymffurfio a'u cyflawni er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- Sicrhau bod rhwydweithiau a dulliau cyfathrebu priodol ar waith i ledaenu newidiadau i'r safonau a'r protocol yn gyflym ac yn ddiogel i gydweithwyr yn y byrddau iechyd os bydd achos o darfu ar barhad busnes.
- Mynychu a chymryd rhan yn y canlynol:
 - cyfarfodydd Arweinwyr Llywodraethu Cymru Gyfan (cyfarfod diwrnod llawn bob chwe mis) i rannu arferion, cyfrannu at ddatblygu'r rhaglen a sicrhau ymwybyddiaeth o faterion lleol sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau
 - cyfarfodydd rhaglen SCG enwebedig (e.e. Ansawdd a Llywodraethu Clinigol, grŵp cynghori'r rhaglen) fel cynrychiolydd arweinydd llywodraethu.^b
- Mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhaglen genedlaethol/timau SCG i drafod materion ansawdd a pherfformiad.
- Cysylltu rhwng y rhaglen genedlaethol/tîm neu dimau SCG a'r bwrdd iechyd i roi gwybod am ddigwyddiadau, a allai nodi methiant yn y system.
 - Cysylltu rhwng y rhaglen genedlaethol/tîm neu dimau SCG a'r bwrdd iechyd ynghylch dangosyddion perfformiad a chynlluniau gweithredu archwilio.
 - Cysylltu rhwng y rhaglen genedlaethol/tîm neu dimau SCG a'r bwrdd iechyd ynghylch canlyniadau dadansoddiad o anghenion hyfforddi.
 - Cysylltu rhwng y rhaglen genedlaethol/tîm neu dimau SCG a'r bwrdd iechyd ynghylch cynlluniau addysg a hyfforddiant.
- Ymgymryd â chymryd gweithredu y cytunwyd arnynt yn achos tarfu ar barhad busnes, yn enwedig i ledaenu gwybodaeth am newidiadau gofynnol i broses arferol i staff y bwrdd iechyd yr effeithir arnynt a rhoi gwybod am faterion/bryderon i'r tîm neu dimau rhaglen/SCG cenedlaethol.

^b Mae aelodaeth o'r grwpiau hyn cael ei rhannu ar draws arweinwyr llywodraethu mamau a phlant.

2.3 Llwybrau Sgrinio

Dylai llwybrau gofal wedi'u creu'n lleol ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth sgrinio cyn geni, a dylai'r llwybrau ddisgrifio trefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer:

- rhoi gwybodaeth i'r fenyw cyn y prawf, a'r cynnig o brawf
- cofnodi penderfyniad yr unigolyn ynghylch derbyn neu wrthod y prawf sgrinio.
- gwneud cais am brawf a'i ddarparu
- y broses o drin canlyniadau pob prawf
- darparu gwasanaethau cymorth i fenywod â chanlyniadau sy'n ysgogi rheolaeth bellach
- bodloni amserlenni a threfniadau monitro y cytunwyd arnynt
- rheoli'r achos yn ôl yr angen cyn y geni ac yn syth ar ôl y geni
- atgyfeirio'r fenyw i asiantaethau eraill os oes angen.

3.0 Trefniadau Rheoli

Mae'n hanfodol rheoli'r rhaglen sgrinio cyn geni yn effeithiol. Dylai rhaglen sgrinio cyn geni'r bwrdd iechyd gael ei hategu gan y trefniadau rheoli canlynol.

3.1 Cydlynu'r Rhaglen

Safon M 1

Dylai byrddau iechyd sefydlu fforwm ym maes sgrinio cyn geni neu dylent fod wedi trefnu bod sgrinio cyn geni'n ymddangos fel eitem ar agenda pob un o gyfarfodydd fforwm sefydledig amlbroffesiwn.

Targed 100%

Safon M 2

Dylai byrddau iechyd nodi Cydlynwyr sgrinio cyn geni a enwir sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r rhaglen gyfan.

Targed 100%

Bydd y cydlynnydd sgrinio cyn geni sydd wedi'i enwi'n gyfrifol am:

- (1) cydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sgrinio cyn geni er mwyn galluogi gwasanaeth effeithiol, amserol a phriodol
- (2) gweithredu polisi, safonau, protocolau a llwybrau SCG
- (3) arwain y gwaith o archwilio gwasanaethau sgrinio cyn geni a chyflwyno adroddiadau ar y gwaith o reoli perfformiad i SCG
- (4) rheoli'r broses o greu adroddiadau ar ganlyniadau gan gynnwys cyflwyno prosesau lleihau risg
- (5) datblygu ac archwilio gwasanaeth perthnasol yn yr adrannau mamolaeth i drafod canlyniadau gyda menywod sy'n ysgogi rheolaeth bellach a ganfuwyd gan brofion sgrinio cyn geni
- (6) cynllunio a darparu rhaglen addysg mewn swydd amlbroffesiynol i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â sgrinio cyn geni
- (7) datblygu cynllun yn y bwrdd iechyd i sicrhau bod pob bydwraig sy'n cyflwyno'r rhaglenni sgrinio cyn geni wedi cwblhau adnoddau [e-ddysgu](#) SCG yn llwyddiannus o fewn yr [amlder](#) gofynnol.
- (8) cydlynu'r gwaith o drosglwyddo adnoddau gwybodaeth i'r cyhoedd i'r gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gofal
- (9) datblygu ac archwilio llwybr er mwyn cynnig ail brawf sgrinio cyn geni am sifflis, HIV a hepatitis B i fenywod sy'n gwrthod y prawf cyntaf
- (10) creu a chynnal rhestr o enwau a rhifau ffôn cyswllt ar gyfer y labordai er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo canlyniadau brys yn effeithiol ac yn brydlon o'r labordy i'r gwasanaeth mamolaeth
- (11) codi ymwybyddiaeth o safonau, protocolau neu ganllawiau newydd

- (12) cynnig cymorth, gwybodaeth ac adnoddau perthnasol ym maes sgrinio cyn geni i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- (13) cydlynu fforwm y bwrdd iechyd ar sgrinio cyn geni.

Safon M 3

Rhaid i fyrddau iechyd nodi arweinydd obstetreg uwchsain wedi'i enwi ar gyfer profion sgrinio cyn geni sy'n rheoli'r rhaglen profion uwchsain cyn geni.
Targed 100%

Bydd yr arweinydd obstetreg uwchsain wedi'i enwi yn:

- (1) sonograffydd profiadol sydd wedi cymryd rhan yn agwedd uwchsain sgrinio cyn geni
- (2) gweithredu fel cyswllt rhwng y bwrdd iechyd a SCG
- (3) gweithredu polisi, safonau, protocolau a llwybrau SCG mewn perthynas â'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, y sgan uwchsain anomaledd y ffetws a rhai agweddau ar raglen sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau
- (4) mynychu'r cyfarfod ar y cyd ddwywaith y flwyddyn arweinwyr uwchsain SCG
- (5) rheoli perfformiad rhaglenni sgrinio uwchsain cyn geni ac ymdrin â materion risg uchel sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- (6) gweithio ochr yn ochr â'r arweinydd tryloywder y gwegil (NT) a'r arweinydd calon y ffetws i roi strategaethau ar waith ar gyfer unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar y gwasanaeth
- (7) arwain y bwrdd iechyd, gan weithio ochr yn ochr â'r arweinydd tryloywder y gwegil ac arweinydd calon y ffetws i sicrhau bod pob archwiliad o Sgrinio Cyn Geni Cymru, fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad, yn cael eu cwblhau a'u hanfon at SCG yn amserol
- (8) arwain ar gydlynu'r broses o gyflenwi adnoddau gwybodaeth i'r cyhoedd i sonograffwyr sy'n darparu gofal
- (9) arwain ar ddatblygu gweithgareddau addysg ac adnoddau addysgol i weithwyr iechyd proffesiynol
- (10) datblygu cynllun yn y bwrdd iechyd i sicrhau bod pob sonograffydd sy'n cyflwyno'r rhaglenni sgrinio cyn geni wedi cwblhau adnoddau [e-ddysgu](#) perthnasol SCG yn llwyddiannus o fewn yr [amlder gofynnol](#)
- (11) sicrhau gweithio mewn partneriaeth gyda'r arweinydd llywodraethu mamau a phlant i sicrhau bod cynlluniau gweithredu ar gyfer y dangosyddion perfformiad, canlyniadau archwiliadau a chanlyniadau uwchsain DQASS yn cael eu datblygu lle y bo angen a gweithredu arnynt mewn modd amserol.

Safon M 4

Dylai byrddau iechyd nodi arweinydd tryloywder y gwegil (NT) a enwir ar gyfer profion sgrinio cyn geni sy'n arwain yr agweddau sgrinio cyfunol ar y rhaglen profion sgrinio uwchsain cyn geni.

Targed 100%

Bydd yr arweinydd NT wedi'i enwi yn:

- (1) sonograffydd profiadol sydd wedi cymryd rhan yn agwedd uwchsain sgrinio cyn geni
- (2) gweithredu fel cyswllt rhwng y bwrdd iechyd a SCG
- (3) arwain sicrwydd ansawdd elfen uwchsain y rhaglen sgrinio gyfunol ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau o fewn y bwrdd iechyd yn unol â safonau a phrotocol SCG
- (4) mynychu'r cyfarfod ar y cyd ddwywaith y flwyddyn arweinwyr uwchsain SCG.

Bydd disgwyl i'r arweinydd NT:

- (1) asesu tri phâr o ddelweddau a ddewiswyd ar hap fesul sonograffydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol a rhoi adborth i'r sonograffydd
- (2) cydymffurfio â safonau gofynnol SCG drwy gynnal plot diagnostig NT personol a chyflwyno tri o'u delweddau pâr a ddewiswyd ar hap i'w harchwilio ddwywaith y flwyddyn
- (3) sicrhau bod sonograffwyr yn cynnal plot diagnostig NT personol ar gyfer sicrhau rheoli ansawdd mewnol
- (4) monitro plotiau diagnostig NT yn rheolaidd ar gyfer pob sonograffydd i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion DQASS
- (5) cysylltu â SCG ynghylch yr adroddiadau uwchsain DQASS ddwywaith y flwyddyn a geir
- (6) cyfathrebu â sonograffwyr, cydlynwyr sgrinio cyn geni, arweinwyr llywodraethu sgrinio mamau a phlant, rheolwyr gwasanaeth radioleg a chydlynwyr rhaglen SCG mewn perthynas â'r safonau a gyrhaeddir a monitro'r rhaglen
- (7) sicrhau bod pob sonograffydd sy'n cyflwyno'r rhaglenni sgrinio cyn geni wedi cwblhau adnoddau [e-ddysgu](#) SCG yn llwyddiannus o fewn yr [amlder](#) gofynnol.
- (8) goruchwyllo a sicrhau bod sonograffwyr yn cynnal cofnod o hyfforddiant cychwynnol ac e-ddysgu parhaus
- (9) paratoi cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith yn dilyn adroddiad DQASS yn ôl yr angen
- (10) darparu hyfforddiant a chymorth ymarferol mewn perthynas â chynhyrchu delweddau
- (11) cysylltu â'r arbenigwr cymwysiadau uwchsain i sicrhau'r gosodiadau/paramedrau delweddau gorau posibl.

Safon M 5

Dylai byrddau iechyd nodi arweinydd uwchsain calon y ffetws ar gyfer sgrinio cyn geni sy'n arwain ar agwedd calon y ffetws y rhaglen sgrinio cyn geni.

Targed 100%

Bydd yr arweinydd uwchsain calon y ffetws yn:

- (1) gweithredu fel cyswllt rhwng y bwrdd iechyd, SCG a chanolfannau meddygaeth y ffetws rhanbarthol/trydyddol a chanolfannau cardioleg y ffetws
- (2) mynychu'r cyfarfod ar y cyd ddwywaith y flwyddyn arweinwyr uwchsain SCG
- (3) cynnal archwiliadau ar gyfer SCG a rhoi adborth ar y canlyniadau i'r bwrdd iechyd
- (4) darparu addysg, hyfforddiant a chymorth mewn cardioleg y ffetws i'w cydweithwyr
- (5) sicrhau bod pob sonograffydd sy'n cyflwyno'r rhaglenni sgrinio cyn geni wedi cwblhau adnoddau [e-ddysgu](#) SCG yn llwyddiannus o fewn yr [amlder gofynnol](#)
- (6) hyfforddi sonograffwyr dan hyfforddiant i edrych ar ddelweddau o'r galon ac unrhyw sonograffwyr sy'n newydd i'r bwrdd iechyd nes eu bod yn cyrraedd lefel y cymhwysedd sydd ei hangen
- (7) mynychu clinigau cardiaidd ar gyfer meddygaeth y ffetws unwaith/dwywaith y flwyddyn i gynyddu eu gwybodaeth.

Safon M 6

Rhaid i fyrddau iechyd gael arweinydd labordy dynodedig sy'n gyfrifol am y gwahanol agweddau ar y rhaglen sgrinio cyn geni.

Targed 100%

Safon M 7

Rhaid bod gan fyrddau iechyd broses ar waith i sicrhau bod pob menyw feichiog yn cael cynnig llenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn Gymraeg neu Saesneg ac yn gallu cael gafael ar y llenyddiaeth hon a gwneud cofnod o'r cynnig a wnaed.

Targed 100%

- (1) Ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (3) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (4) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat priodol, h.y. ar ffurf copi caled, print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall gwasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol.

Safon M 8

Rhaid bod proses ar waith i ddelio â gwallau hysbys yn y cardiau gwneud cais.
Targed 100%

- (1) Ni ddylai'r gwallau ar y cardiau gwneud cais ym maes syndrom Down, syndrom Edwards, syndrom Patau a chlefyd y crymangelloedd a thalasaemia fod yn fwy na 2%. Rhaid i'r gwallau ar y cardiau grŵp gwaed a gwrthgyrff a'r prawf DNA di-gell y ffetws (cffDNA) fod yn 0%.
- (2) Yn achos gwallau ym maes syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a chlefyd y crymangelloedd a thalasaemia rhaid bod llwybr yn bod ar gyfer anfon gwybodaeth gywir yn ôl i'r labordy o fewn un diwrnod gwaith i gael gwybod am y gwall.
- (3) Rhaid bod llwybr rheoli risgiau ar waith er mwyn lleihau nifer y gwallau.

3.2 Cadw Cofnodion

Safon M 9

Rhaid i wasanaethau mamolaeth ddefnyddio'r Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan sy'n rhoi fframwaith strwythuredig ar gyfer cofnodi profion sgrinio cyn geni sy'n hwyluso'r gwaith o gasglu'r holl wybodaeth allweddol.

Targed 100%

- (1) Rhaid mynd ati ar y pryd i ysgrifennu, llofnodi a dyddio cofnod. Rhaid i'r wybodaeth gynnwys:
 - enw'r gweithiwr proffesiynol a roddodd wybodaeth am y prawf sgrinio
 - y dyddiad y cafodd y prawf sgrinio ei drafod a'i gynnig
 - penderfyniad y fenyw i dderbyn neu wrthod y prawf sgrinio
 - dyddiad gwneud y prawf gwaed neu'r sgan uwchsain
 - canlyniad y prawf
 - y dyddiad y trafodwyd y canlyniad
 - unrhyw ofal dilynol sydd wedi cael ei gynllunio.

4.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer HIV, Hepatitis B a Sifflis

Datganiad Polisi

Rhaid cynnig i bob menyw feichiog sy'n byw yng Nghymru ac ym mhob beichiogrwydd, brawf sgrinio cyn geni ar gyfer:

- HIV (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000; NICE 2021)
- hepatitis B (Cylchlythyr Iechyd Cymru 1998; NICE 2021)
- sifflis (Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU 1998; NICE 2021).

HIV (Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol)

Mae HIV yn retrofeirws sy'n ymosod ar lymffocytâu T y corff, gan eu dinistrio. Mae hynny'n atal system imiwnedd y corff ac yn arwain yn y pen draw at y Syndrom Diffyg Imiwnedd Caffaeledig (neu AIDS). Mae'r fam yn gallu trosglwyddo'r feirws i'w ffetws neu fabi yn ystod y beichiogrwydd, yn ystod y geni neu ar ôl y geni wrth fwydo ar y fron.

Rhesymeg Sgrinio Cyn Geni ar gyfer HIV

Nodi'r menywod yn ystod beichiogrwydd cynnar sydd eisoes wedi'u heintio â HIV er mwyn cynnig triniaeth a gofal a lleihau'r risg y bydd y feirws yn trosglwyddo'n fertigol o tua 25% i tua 0.3% ([ISOSS 2023](#)). Mae nodi a thrin HIV hefyd yn arwain at fuddion iechyd sylweddol i'r fenyw sy'n byw gyda HIV. Mae gofyn i bob uned neu adran sefydlu llwybrau atgyfeirio clir er mwyn i fenywod beichiog sy'n cael diagnosis o haint HIV gael eu rheoli a'u trin gan y timau arbenigol priodol (BHIVA 2018).

Cyfyngiadau'r Rhaglen

Ni fydd y rhaglen sgrinio'n canfod heintiau a gafwyd o fewn wyth wythnos na heintiau a gafwyd ar ôl i'r prawf sgrinio cyn geni gael ei gymryd. Bydd angen cyngor unigol penodol ar fenywod sy'n wynebu risg uwch o gael haint HIV, hepatitis B, sifflis neu fath arall o haint a drosglwyddir yn rhywiol, ynghylch a ddylid gwneud profion ychwanegol yn ystod beichiogrwydd, yn ddelfrydol drwy'r gwasanaethau iechyd rhywiol.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Drwy reoli'r beichiogrwydd, yr enedigaeth a'r cyfnod ar ôl y geni'n briodol, mae'n bosibl lleihau'n sylweddol y posibilrwydd o weld haint HIV yn trosglwyddo'n fertigol.

Hepatitis B

Clefyd heintus o'r afu yw Hepatitis B, a achosir gan y feirws hepatitis B. Mae'n arwain at haint aciwt a chronig sy'n cael ei ledaenu drwy gysylltiad uniongyrchol â gwaed y person sydd â hepatitis B. Gall mam sydd â hepatitis B drosglwyddo'r feirws i'w babi ar adeg y geni. Mae'n bosibl adnabod y feirws yn hylifau eraill y corff, fel semen a phoer. Mae mwyafrif yr oedolion â hepatitis B yn gwella'n llwyr ohono ond mae ffurf fwy cronig o'r clefyd yn gallu datblygu ar rai oedolion.

Mae haint sy'n trosglwyddo'n fertigol o fam â hepatitis B i'r babi ar adeg y geni yn un o'r achosion pwysig dros weld yr haint yn para'n gyffredin mewn rhai rhannau o'r byd. Mae babanod newydd-anedig sy'n dal y feirws yn y ffordd hon yn debygol iawn (tua 90%) o ddal hepatitis B ac i fod yn gludwyr cronig o'r feirws hepatitis B (DoH 2022).

Mae pob babi yng Nghymru yn cael cynnig Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) ar ôl cyrraedd 8, 12 ac 16 wythnos oed, fel rhan o'r drefn imiwneddio arferol i blant. Nid yw hyn yn diddymu'r angen am y rhaglenni sgrinio presennol ar gyfer hepatitis B yn ystod beichiogrwydd yng Nghymru nac am roi dos o frechlyn hepatitis B (gydag imiwnoglobwlin os oes angen). Bydd newid i'r amserlen frechu ar ôl y dos cyntaf adeg y geni (Cylchlythyr Iechyd Cymru 2017).

Rhesymeg y Prawf Sgrinio ar gyfer Hepatitis B

Er mwyn hwyluso'r gwaith o nodi mamau beichiog sydd wedi'u heintio â hepatitis B yn ystod bechiogrwydd cynnar ac y bydd eu babanod yn wynebu risg sylweddol o gael eu heintio â hepatitis B yn ystod y geni neu'r cyfnod ar ôl y geni. Bydd hyn hefyd yn galluogi cynnig proffylacsis ôl-gysylltiad i'r babi newydd-anedig. Mae nodi a thrin achos o'r clefyd trosglwyddadwy hwn yn golygu manteision sylweddol posibl o ran iechyd y fam hefyd.

Cyfyngiadau'r Rhaglen

Efallai na fydd y rhaglen sgrinio'n canfod heintiau a gafwyd o fewn 12 wythnos nac achosion lle cafodd y fenyw ei heintio ar ôl i'r prawf sgrinio cyn geni gael ei gymryd. Bydd angen cyngor unigol penodol ar fenywod sydd oherwydd eu ffordd o fyw yn wynebu risg uwch o gael haint HIV, hepatitis B, sifflis neu fath arall o haint a drosglwyddir yn rhywiol, ynghylch a ddylid gwneud profion ychwanegol yn ystod bechiogrwydd, yn ddelfrydol drwy'r gwasanaethau iechyd rhywiol.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Drwy adnabod y babanod sydd mewn perygl a darparu rhaglen frechu briodol, bydd lleihad sylweddol yn y cyfraddau o weld heintiau hepatitis B yn trosglwyddo'n fertigol o'r fam i'r babi ac mae hefyd yn golygu manteision iechyd posibl i'r fam.

Sifflis

Y bacteriwm spirochete, treponema palidwm sy'n achosi'r haint sifflis. Dim ond mewn pobl y mae'r bacteriwm hwn yn byw, ac mae'n bosibl ei drosglwyddo drwy gyswllt rhywiol (sifflis mewn oedolion) neu gall mam sydd â sifflis ei drosglwyddo i'r babi drwy'r brych yn ystod bechiogrwydd (sifflis cynhenid).

Rhesymeg y Prawf Sgrinio ar gyfer Sifflis

Adnabod yn gynnar yn eu bechiogrwydd y menywod sydd â haint sifflis a chynnig triniaeth briodol i leihau'n sylweddol y risg o weld y ffetws yn cael sifflis cynhenid. Mae nodi a thrin achos o'r clefyd trosglwyddadwy hwn yn golygu manteision sylweddol posibl o ran iechyd y fam hefyd.

Cyfyngiadau'r Rhaglen

Efallai na fydd y rhaglen sgrinio'n canfod heintiau a gafwyd o fewn 12 wythnos nac achosion lle cafodd y fenyw ei heintio ar ôl i'r prawf sgrinio cyn geni gael ei gymryd. Bydd angen cyngor unigol penodol ar fenywod sy'n wynebu risg uwch o gael haint HIV, hepatitis B, sifflis neu fath arall o haint a drosglwyddir yn rhywiol, ynghylch a ddylid gwneud profion ychwanegol yn ystod bechiogrwydd, yn ddelfrydol drwy'r gwasanaethau iechyd rhywiol.

Os bydd canlyniad prawf sgrinio'n codi amheuan fod haint ar y fam, neu fod haint wedi bod arni, rhaid i'r canlyniad gael ei ystyried ochr yn ochr â'i hanes clinigol a chymdeithasol cyn i'r diagnosis gael ei wneud. Dylai'r asesiad gael ei wneud gan feddyg sydd â phrofiad yn y broses o wneud diagnosis mewn labordy ac o reoli'r haint

Y Canlyniadau a Ragwelir

Drwy wneud diagnosis o'r haint yn gynnar a chynnig triniaeth i'r fam os oes angen, bydd yn bosibl lleihau'n sylweddol y risg o weld y ffetws yn cael sifflis cynhenid.

4.1 Safonau a Phrotocolau Cyffredinol ar gyfer Sgrinio Cyn geni ar gyfer HIV, Hepatitis B a Sifflis

4.1.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon C 1

Rhaid cynnig a chyfeirio pob menyw feichiog at lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG sydd ar gael ar wefan SCG.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (3) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir, h.y. ar ffurf print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall gwasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol.
- (4) Rhaid i'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

Safon C 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am heintiau HIV, sifflis a hepatitis B yn ystod beichiogrwydd cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw am gael y prawf a rhaid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Lle mae gan y fenyw iaith wahanol neu os oes ganddi anghenion cyfathrebu gwahanol, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, gall copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, hawdd ei ddeall, sain neu wasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio diben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y profion sgrinio hyn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (3) Yn achos menywod y mae angen rhagor o wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth arnynt, mae'r gwasanaeth hwn ar gael drwy'r gwasanaeth iechyd rhywiol.

4.1.2 Cynnig Prawf Sgrinio

Safon C 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis i bob menyw feichiog cyn wythnos 10^{+0} o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn y cam beichiogrwydd hwn Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis ar y cyfle cyntaf i fenywod sy'n dod i gael gofal cyn geni o 10^{+1} wythnos o feichiogrwydd.
- (2) Rhaid i fenywod sy'n gwrthod sgrinio ar gyfer un neu fwy o'r clefydau trosglwyddadwy gael ail gynnig y profion sgrinio hyn yn ffurfiol erbyn 20^{+6} wythnos o feichiogrwydd.
- (3) Mae menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni preifat yn dal yn gymwys i gael mynediad at brofion sgrinio cyn geni GIG Cymru, a rhaid eu cynnig iddynt.

Safon C 4

Rhaid i fenywod nad ydynt yn dod i gael gofal cyn geni yn ystod y beichiogrwydd ac sy'n cyflwyno yn ystod y cyfnod esgor gael cynnig sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis ar yr adeg fwyaf priodol ac o fewn pedair awr i'r geni. Rhaid i'r fydwraig neu'r meddyg gysylltu â'r microbiologydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i bwysleisio bod angen gwneud prawf a rheoli'r achos ar frys, hyd nes bydd y canlyniadau ar gael.

Targed 100%

4.1.3 Cydsynio

Safon C 5

Mae caniatâd llafar ar sail gwybodaeth y fenyw yn ofynnol ar gyfer y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Cyn cynnal y prawf, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y fenyw:
 - yn deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo
 - nid oes angen rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio arni
 - yn rhoi ei chydsyniad llafar ar sail gwybodaeth i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo.
- (2) Os bydd y fenyw'n gwrthod y prawf sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B neu sifflis, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir i'w defnyddio fel sail i'w phenderfyniad.

Safon C 6

Rhaid i fenywod sy'n gwrthod y prawf sgrinio ar gyfer HIV, hepatitis B neu sifflis gael ail gynnig y profion sgrinio hyn yn ffurfiol erbyn 20⁺⁶ o feichiogrwydd fel rhan o'r llwybr gofal cyn geni a rhaid cofnodi hyn yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (3) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir, h.y. ar ffurf print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall gwasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (4) Rhaid i'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

4.1.4 Cais am Brawf

Safon C 7

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn geni' ar ffurflen y cais i'r labordy^c, a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu nodi ei fod yn ofal dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon C 8

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y cais i'r labordy.

Targed 100%

Safon C 9

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.^d

Targed 100%

- (1) Rhaid i gais electronig gofnodi llwybr archwilio clir sy'n nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais.
- (2) Os defnyddir un cerdyn cais i ofyn am amryw o brofion sgrinio, rhaid dangos yn glir i ba brofion sgrinio mae'r fenyw wedi rhoi ei chydsyniad, a pha brofion mae hi wedi'u gwrthod.

^c Rhaid i'r cais am y prawf fod yn gerdyn cais copi caled neu'n electronig.

^d Drwy lofnodi'r cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am ddiben y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chydsyniad ar sail gwybodaeth i'r prawf.

4.1.5 Trefn y Prawf

Safon C 10

Rhaid i'r sampl gael ei chymryd cyn 12⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn geni cyn yr wythnos honno.

Targed 80%

- (1) Dylai menywod sy'n dod i gael gofal cyn geni ar ôl 13⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd gael y prawf sgrinio hwn ar y cyfle cyntaf.
- (2) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.
- (3) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, a rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr i'r wybodaeth ar y cais a'r sampl.

Safon C 11

Os bydd y fenyw wedi mynd y tu hwnt i 23⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd pan gaiff y sampl ei gymryd, rhaid cysylltu â'r labordy i roi gwybod iddo am y sampl.

Targed 100%

- (1) Os bydd y fenyw wedi mynd y tu hwnt i wythnos 23⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd pan fydd y sampl yn cael ei gymryd, dylai'r sampl gael ei farcio fel un y mae angen canlyniad cyflym arno'.
- (2) Os bydd y fenyw wedi mynd y tu hwnt i 36⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd ar yr adeg y bydd y sampl yn cael ei gymryd, dylai'r sampl gael ei farcio fel un lle mae angen rhoi sylw iddo ar frys'.
- (3) Os bydd y cyfnod esgor wedi dechrau neu wedi dod i ben ar yr adeg pan fydd y sampl yn cael ei gymryd, dylai'r gweithiwr iechyd gysylltu â'r microbiologydd/firolegydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i bwysleisio bod angen gwneud prawf a rheoli'r achos ar frys, hyd nes bydd y canlyniadau ar gael.

Safon C 12

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

4.1.6 Gwasanaethau Labordai

Safon C 13

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol, neu'n gweithio tuag at achrediad, yn unol â [Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig](#), ac yn cydymffurfio â [safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni HIV, hepatitis B a sifflis](#).

Targed 100%

Safon C 14

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 95%

Safon C 15

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy profi hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 100%

Safon C 16

Yn achos samplau nad ydynt yn rhai brys, rhaid i'r labordy anelu at anfon y canlyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

Safon C 17

Yn achos samplau sydd wedi'u nodi i gael sylw 'brys', rhaid i'r labordy eu prosesu a rhaid iddo gyhoeddi'r canlyniadau o fewn un diwrnod gwaith.

Targed 95%

- (1) Yn achos menyw sydd wedi trefnu apwyntiad i gael gofal mamolaeth ar ôl diwedd 36⁺⁶ wythnos o feichiogrwydd, dylid nodi bod ei samplau i gael sylw 'brys'.

Safon C 18

Rhaid i adroddiadau'r labordy gynnwys sylw clinigol er mwyn hwyluso'r broses o ddehongli'r canlyniadau.

Targed 100%

4.1.7 Trin y Canlyniadau

Safon C 19

Os nad y labordy lleol oedd yn gwneud y profion ar y sampl, rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adroddiad terfynol gael ei awdurdodi gan y labordy a wnaeth y profion.

Targed 95%

Safon C 20

Rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad ei ryddhau gan y labordy lleol, neu iddo.

Targed 95%

- (1) Dylai'r canlyniadau gael eu hanfon at y tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi'r canlyniad fel arfer i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n holi dros y ffôn, oni bai fod arwydd clir o angen clinigol sy'n effeithio ar unwaith ar y gwaith o reoli'r gofal.

Safon C 21

Dim ond ar ôl cadarnhau canlyniad y prawf sgrinio cyntaf drwy ddefnyddio dull gwahanol i'r prawf gwreiddiol y dylid rhoi gwybod am ganlyniadau positif ar gyfer HIV, hepatitis B a sifflis.

Targed 100%

Safon C 22

Rhaid bod gan y gwasanaeth mamolaeth broses ysgrifenedig ddi-feth y cytunwyd arni er mwyn nodi a mynd ar drywydd canlyniadau nad ydynt wedi cyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

Safon C 23

Rhaid bod proses ysgrifenedig y cytunwyd arni ar waith i nodi a mynd ar drywydd achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu ragor o wybodaeth.

Targed 100%

Safon C 24

Rhaid i fenywod gael eu hysbysu am y canlyniadau negatif gan y gwasanaeth mamolaeth yn yr apwyntiad cyn geni 16 wythnos. Rhaid i'r canlyniadau gael eu cofnodi ar Gofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Os na fydd unrhyw un o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr bwrdd iechyd lleol fel y nodir yn Safon C 22.
- (2) Os bydd y fenyw wedi camesgor rhwng casglu'r sampl a chael y canlyniadau, dylid rhoi'r canlyniadau i'r fenyw yn unol â llwybr y bwrdd iechyd lleol.
- (3) Dylai'r drafodaeth am y canlyniadau roi pwyslais ar 'negatif nawr', ac y dylid cymryd prawf arall os yw'r fenyw'n teimlo ei bod wedi rhoi ei hun mewn perygl yn ystod y beichiogrwydd.
- (4) Rhaid rhoi cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniadau gyda'r fenyw yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (5) Os nad yw'r apwyntiad cyn geni hwn wyneb yn wyneb, rhaid gwneud cofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod y canlyniadau unigol wedi'u trafod gyda'r fenyw yn y nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd y fydwaig yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r fenyw.
- (6) Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniadau hefyd.

Safon C 25

Os yw'r sampl wedi'i chymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd, rhaid rhoi'r canlyniadau o fewn tair wythnos i'r adeg y cymerwyd y sampl. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y caiff y fenyw ei hadolygu gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Targed 100%

- (1) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniad gyda'r fenyw a'i gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan/system TG y bwrdd iechyd.
- (2) Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.
- (3) Os na fydd unrhyw un o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr bwrdd iechyd lleol fel y nodir yn Safon C 22.

4.2 Safonau a Phrotocolau Penodol Sgrinio Cyn geni ar gyfer HIV

4.2.1 Haint HIV Hysbys

Safon C 26

Os bydd y fenyw'n nodi ei bod eisoes wedi cael diagnosis o HIV, rhaid cynnig ail brawf sgrinio iddi er mwyn cadarnhau'r diagnosis a sicrhau ei bod yn dilyn y llwybr cywir. Rhaid i'r wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys ar y cais gyda chydysniad y fenyw.

Targed 100%

Safon C 27

Rhaid mynd ati o fewn dau ddiwrnod gwaith i gynnig atgyfeirio i wasanaeth iechyd rhywiol i bob menyw sydd eisoes yn gwybod ei bod yn HIV positif, er mwyn galluogi'r gwaith o greu cynllun gofal ar y cyd.

Targed 100%

- (1) Dylai'r clinig cyn geni gysylltu â'r gwasanaeth iechyd rhywiol i sicrhau bod y fenyw yn cael ei hasesu'n unigol, a rhoi apwyntiad iddi gydag iechyd rhywiol sy'n briodol i'w hanghenion.

4.2.2 Canlyniadau HIV Adweithiol

Safon C 28

Rhaid i'r labordy hysbysu'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) am ganlyniadau HIV adweithiol i'r prawf o fewn un diwrnod gwaith.

Targed 100%

- (1) Bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.

- (2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol SCG.
- (3) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.

Safon C 29

Fel ymateb i ganlyniad HIV adweithiol, rhaid ysgrifennu cofnod yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty/system TG o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Dylid cofnodi'r canlyniad adweithiol mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty/system TG a rhaid bod polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd yn sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth.
- (2) Rhaid cofnodi'r canlyniad adweithiol, rheolaeth a'r canlyniadau dilynol ar y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd y fenyw yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r fydwraig.

4.2.3 Canlyniadau HIV Positif

Safon C 30

Rhaid i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) gael ei hysbysu am gadarnhad o ganlyniad HIV positif i'r prawf o fewn un diwrnod gwaith i awdurdodiad terfynol yr adroddiad gan y labordy.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.

Safon C 31

Rhaid rhoi'r canlyniad i'r fenyw o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y canlyniad ar gael os yw'r fenyw heb gyrraedd 36⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd.

Targed 95%

- (1) Dylid mynd ati cyn gynted â phosibl ac ar adeg pan mae'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol angenrheidiol ar gael i drefnu i'r fenyw feichiog ddychwelyd i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'w phrawf HIV iddi.
- (2) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (3) Mae HIV yn haint cymharol brin yng Nghymru; dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol a enwyd sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas y mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno arny'n nhw, a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw. Dylid gofyn am gymorth aelod o'r tîm gwasanaethau arbenigol HIV.
- (4) Dylai canlyniadau sensitif, gan gynnwys canlyniadau positif profion ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, gael eu rhoi mewn clinig (yn hytrach nag yng nghartref y fenyw) oherwydd bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu rheoli cyfrinachedd yr amgylchedd yn well.

- (5) Er mwyn cynnal cyfrinachedd, dylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw ei hun, a hynny heb fod unrhyw berthnasau neu ffrindiau'n bresennol.
- (6) Oni bai bod y meddyg teulu wedi gofyn am y prawf a'i fod yn bwriadu rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylai'r meddyg teulu gael gwybod am y canlyniad heb ofyn yn gyntaf am gydsyniad y fenyw.
- (7) Dylai'r fenyw gael gwybod bod posibilrwydd o risg sylweddol i iechyd y babi, a'r angen am driniaeth.
- (8) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.

Safon C 32

Er mwyn cadarnhau'n bendant i bwy mae'r canlyniad yn perthyn, bydd ail sampl yn ofynnol.

Targed 100%

- (1) Dylid trefnu i'r sampl cadarnhau gael ei chymryd pan fydd y fenyw yn dychwelyd i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad HIV positif.

4.2.4 Cadw Cofnodion

Safon C 33

Fel ymateb i ganlyniad HIV positif, rhaid ysgrifennu cofnod yn y nodiadau mamolaeth/system TG o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Dylid ysgrifennu cofnod o ganlyniadau positif i brawf HIV yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw, gyda'i chydsyniad.
- (2) Dylid cynnwys cofnod o'r prawf positif wedi'i gadarnhau ar system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth gyda chydsyniad ar sail gwybodaeth y fenyw.
- (3) Ar ôl cadarnhau prawf positif, dylid cofnodi hynny mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a dylai polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd warantu cyfrinachedd y wybodaeth.

4.2.5 Cynllun Gofal

Safon C 34

Rhaid i'r fenyw gael ei hatgyfeirio i wasanaethau arbenigol HIV yn lleol, neu'r gwasanaeth sydd eisoes yn rheoli gofal y fenyw, o fewn pum diwrnod i ganlyniad HIV positif. Bydd y gwasanaeth HIV yn rheoli'r fenyw feichiog yn unol â chanllawiau Cymdeithas HIV Prydain (BHIVA).

Targed 95%

- (1) Mae'n ofynnol i wasanaeth iechyd rhywiol gynnig prawf sgrinio ar gyfer HIV i gysylltiadau rhywiol.

Safon C 35

Rhaid i gynllun gofal priodol gael ei ddatblygu gan y tîm amlddisgyblaethol a rhaid dogfennu hyn yn y nodiadau ysbyty/system TG a Chofnod Mamolaeth Cymru Gyfan gyda chydsyniad y fenyw.

Targed 100%

- (1) Dylid datblygu hyn gan gyfeirio at ganllawiau [BHIVA \(2018\)](#) a rhaid ei ddatblygu mewn trafodaeth gyda'r fenyw ac yn y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth atgyfeirio'r achos i'r tîm pediatrig o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y fenyw ganlyniad positif er mwyn galluogi datblygu cynllun geni.
- (2) Bydd angen cymorth parhaus ar y fenyw gan fydwraig wedi'i henwi, a dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni fod yn cydlynu'r holl drefniadau'r gofal mamolaeth.
- (3) Os oes angen gwasanaethau cyfieithu, dylid eu trefnu ar gyfer pob apwyntiad yn y clinig cyn geni.
- (4) Ni ddylai staff y gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i bartner y fenyw neu i'w pherthnasau, heb ofyn yn gyntaf am ei chydsyniad. Gellir rhannu canlyniadau HIV positif newydd â'r meddyg teulu gyda chydsyniad y fenyw. Dylai'r broses o drafod y materion hyn fod yn rhan o gynllun gofal cynhwysfawr a ddatblygwyd gan y tîm HIV amlddisgyblaethol.

4.2.6 Gofal Ôl-enedigol

Safon C 36

Rhaid i'r babi gael ei atgyfeirio i bediatregydd cyn gynted â phosibl ar ôl y geni ac o fewn pedair awr o'r enedigaeth.

Targed 100%

- (1) Bydd angen triniaeth ddilynol benodol ar y babi sydd fel arfer yn cynnwys triniaeth gyda chyffuriau ôl-wrthfeirysol y bydd y pediatregydd yn ei chydlynu.

Safon C 37

Rhaid i'r fenyw gael ei hatgyfeirio yn ôl i aelod penodedig o'r tîm arbenigol HIV ar ôl geni (BHIVA 2018).

Targed 100%

- (1) Dylid adolygu pob menyw yn ystod y cyfnod ôl-enedigol gan aelod o'r tîm amlddisgyblaethol o fewn 4-6 wythnos i drafod materion meddygol a chymdeithasol.

4.3 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn Geni ar gyfer Hepatitis B

4.3.1 Haint Blaenorol

Safon C 38

Os bydd y fenyw'n rhoi gwybod ei bod eisoes wedi cael diagnosis o haint hepatitis B, neu os oes ganddi haint hepatitis B ar y pryd, rhaid iddi gael ail brawf sgrinio i gadarnhau'r diagnosis ac i sicrhau ei bod yn dilyn y llwybr cywir. Rhaid i'r wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys ar y cerdyn cais gyda chydysniad y fenyw.

Targed 100%

- (1) Mewn achosion lle mae'r diagnosis eisoes yn hysbys, dylid cymryd sampl ar gyfer DNA hepatitis B, ar ôl gofyn am gydsyniad llafar, ar yr un pryd â'r profion sgrinio cyn geni, a dylid anfon copi o'r canlyniad at gastroenterolegydd/ hepatolegydd ymgynghorol y bwrdd iechyd yr atgyfeiriwyd y fenyw iddo.
- (2) Dylid dweud wrth y fenyw y bydd angen brechiad ar y babi os yw ei haint yn parhau, ac efallai bydd angen imiwnoglobwlin arno.
- (3) Dylai'r fenyw gael adolygiad gan dîm hepatoleg/gastroenteroleg o fewn chwe wythnos i ddyddiad cadarnhau'r diagnosis er mwyn asesu'r llwyth feirysol ac ystyried triniaeth i leihau llwyth feirysol y fenyw.

4.3.2 Canlyniadau Hepatitis B Adweithiol

Safon C 39

Rhaid i'r labordy hysbysu'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) am ganlyniad Hepatitis B adweithiol i'r prawf o fewn un diwrnod gwaith.

Targed 100%

- (1) Bydd y labordy yn anfon y canlyniadau drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.
- (2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol SCG.
- (3) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.

Safon C 40

Fel ymateb i ganlyniad hepatitis B adweithiol, rhaid ysgrifennu cofnod yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty/system TG o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Rhaid cofnodi'r canlyniad adweithiol mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty/system TG a rhaid bod polisiau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd yn sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth.

- (2) Rhaid cofnodi'r canlyniad adweithiol, rheolaeth a'r canlyniadau dilynol ar y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd y fenyw yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r fydwraig.

4.3.3 Canlyniadau Positif ar gyfer Hepatitis B

Safon C 41

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) ar ôl cadarnhau canlyniad positif ar gyfer hepatitis B.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.

Safon C 42

Rhaid trefnu i'r fenyw ddychwelyd i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'r prawf hepatitis B iddi.

Targed 100%

- (1) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (2) Mae hepatitis B yn haint cymharol brin yng Nghymru; dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas y mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno arnynt, ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw. Dylid gofyn am gymorth aelod o'r tîm arbenigol hepatoleg/gastroenteroleg.
- (3) Oni bai bod staff yn gwybod bod y cyfnod esgor wedi dechrau neu fod 23⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio, nid oes brys i roi'r canlyniad hwn ar unwaith. Dylid gwneud trefniadau addas i'r fenyw ddychwelyd i'r clinig cyn geni i gael y canlyniad, fel arfer o fewn wythnos.
- (4) Dylai canlyniadau sensitif, gan gynnwys canlyniadau positif profion ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, gael eu rhoi mewn clinig (yn hytrach nag yng nghartref y fenyw) oherwydd bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu rheoli cyfrinachedd yr amgylchedd yn well.
- (5) Er mwyn cynnal cyfrinachedd, dylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw ei hun, a hynny heb fod unrhyw berthnasau neu ffrindiau'n bresennol.
- (6) Oni bai fod y meddyg teulu wedi gofyn am y prawf, a'i fod yn bwriadu rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylai'r meddyg teulu gael gwybod am y canlyniad heb ofyn yn gyntaf am gydsyniad y fenyw. Dylai hyn osgoi sefyllfa lle mae'r meddyg teulu'n mynd ati'n ddiarwybod i drefnu profion sgrinio ar gyfer aelodau eraill o'r teulu, cyn i'r fenyw gael gwybod am ei chanlyniad.
- (7) Dylai'r fenyw gael gwybod bod posibilrwydd o risg sylweddol i iechyd y babi, a'r angen am driniaeth.
- (8) Rhaid i [wybodaeth ysgrifenedig](#) SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.

Safon C 43

Er mwyn cadarnhau'n bendant i bwy mae'r canlyniad yn perthyn, bydd ail sampl yn ofynnol.

Targed 100%

- (1) Dylid trefnu i'r sampl cadarnhau gael ei chymryd pan fydd y fenyw yn dychwelyd i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad hepatitis B positif.
- (2) Er mwyn hwyluso'r broses o reoli menywod sydd newydd gael diagnosis o hepatitis B, argymhellir cymryd sampl ar gyfer DNA hepatitis B, ar ôl gofyn am gydsyniad llafar y fenyw, yr un pryd â'r sampl sy'n cadarnhau'r diagnosis. Anfonir copi o'r canlyniad i gastroenterolegydd/hepatolegydd ymgynghorol y bwrdd iechyd yr atgyfeiriwyd y fenyw iddo.
- (3) Ar ôl cadarnhau'r canlyniad positif, dylai'r labordy roi gwybod i'r tîm diogelu iechyd er mwyn cychwyn ar y broses o gynllunio'r gofal.

4.3.4 Cadw Cofnodion

Safon C 44

Fel ymateb i ganlyniad hepatitis B positif, rhaid ysgrifennu cofnod yn y nodiadau mamolaeth/system TG o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Dylid ysgrifennu cofnod yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw o ganlyniad positif i prawf hepatitis B, gyda'i chydsyniad.
- (2) Rhaid cynnwys cofnod o'r prawf positif wedi'i gadarnhau ar system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth gyda chydsyniad ar sail gwybodaeth y fenyw.
- (3) Ar ôl cadarnhau prawf positif, rhaid cofnodi hynny mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a dylai polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd warantu cyfrinachedd y wybodaeth.

4.3.5 Cynllun Gofal

Safon C 45

Rhaid i bob menyw sy'n cael diagnosis o haint hepatitis B positif gael adolygiad gan dîm arbenigol hepatoleg/gastroenteroleg o fewn chwe wythnos i ddyddiad y diagnosis.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fenyw gael adolygiad gan dîm arbenigol hepatoleg/gastroenteroleg o fewn chwe wythnos i ddyddiad y diagnosis er mwyn asesu llwyth feirysol ac ystyried triniaeth i leihau llwyth feirysol y fenyw.
- (2) Rhaid ysgrifennu cynllun gofal ar y cyd ac efallai bydd angen trafod y cynllun gyda'r obstetregydd, y pediatregydd, yr hepatolegydd/gastroenterolegydd a'r firolegydd.

- (3) Rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth atgyfeirio'r babi i'r pediatregydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd y fenyw'n cael y canlyniad positif, oherwydd bod rhaid gwneud trefniadau i fabanod menywod sy'n hepatitis B positif gael triniaeth addas yn fuan iawn ar ôl y geni.
- (4) Bydd angen cymorth parhaus ar y fenyw gan fydwraig wedi'i henwi, a dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni fod yn cydlynu'r holl drefniadau'r gofal mamolaeth.
- (5) Os oes angen gwasanaethau cyfieithu, dylid eu trefnu ar gyfer pob ymweliad â'r clinig cyn geni.
- (6) Ni ddylai staff y gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i bartner y fenyw neu i'w pherthnasau, heb ofyn yn gyntaf am ei chydsyniad. Ni ddylid rhoi'r canlyniad i'r meddyg teulu na'r ymwelydd iechyd heb gydsyniad y fenyw. Dylai'r broses o drafod y materion hyn fod yn rhan o gynllun gofal cynhwysfawr a ddatblygwyd gan y tîm hepatoleg/gastroenteroleg arbenigol.

Safon C 46

Rhaid gwneud trefniadau yn ystod y cyfnod cyn geni i fabanod menywod sy'n hepatitis B positif gael triniaeth addas yn fuan iawn ar ôl y geni.¹

Targed 100%

- (1) Ar adeg briodol yn ystod y cyfnod cyn geni rhaid gofyn i'r fam roi ei chydsyniad i'r babi gael ei imiwneiddio'n briodol yn gynnar iawn yn ystod y cyfnod ar ôl y geni.
- (2) Rhaid cysylltu â'r adran feiroleg (yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd) er mwyn archebu imiwnoglobwlin sy'n benodol i hepatitis B (HBIG) ar gyfer babanod sy'n cael eu geni i'r mamau mwyaf heintus. Bydd hwn yn rhoi imiwnedd goddefol ac yn diogelu'r babi yn y tymor byr, a rhaid enwi'r fam wrth archebu er mwyn sicrhau bod yr imiwnoglobwlin ar gael rhwng wythnos 32-34 wythnos o'r beichiogrwydd.
- (3) Rhaid i'r tîm hepatoleg/gastroenteroleg drefnu i aelodau eraill o'r cartref gael cwnsela a chynnig sgrinio iddynt ar gyfer hepatitis B.

4.3.6 Gofal Ôl-enedigol

Safon C 47

Rhaid bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r babi gael y brechiad cyntaf (yn ogystal â HBIG os ystyrir bod risg y babi o gael hepatitis B yn uchel), o fewn 24 awr i'r enedigaeth.²

Targed 100%

- (1) Bydd angen imiwneiddio babanod sy'n cael eu geni i fenywod sy'n hepatitis B positif (ar ôl gofyn i'r fam roi ei chydsyniad), yn unol â'r canllawiau [Imiwneiddio Rhag Clefydau Heintus – Hepatitis B: Y Llyfr Gwyrdd'](#) (DoH 2022).
- (2) Dylai babanod sy'n pwyso llai na 1500g ar adeg y geni gael HBIG yn ogystal â'r brechlyn, beth bynnag yw statws antigen y fam (DOH 2022).
- (3) Rhaid llenwi ffurflen brechiad heb ei drefnu, gan anfon y ffurflen i'r adran iechyd plant ar ôl i'r brechiad gael ei roi.
- (4) Dylai'r fydwraig gymunedol esbonio wrth y fam mor bwysig yw sicrhau bod y babi'n cael y cwrs llawn o imiwneiddiadau.³

4.4 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn Geni ar gyfer Sifflis

4.4.1 Haint Blaenorol

Safon C 48

Os bydd y fenyw'n nodi ei bod eisoes wedi cael diagnosis o haint sifflis, neu os oes ganddi haint sifflis ar y pryd, rhaid iddi gael ail brawf sgrinio i gadarnhau'r diagnosis a sicrhau ei bod yn dilyn y llwybr cywir. Rhaid i'r wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys ar y cerdyn cais gyda chydysniad y fenyw.

Targed 100%

4.4.2 Canlyniadau Sifflis Adweithiol

Safon C 49

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) am ganlyniad sifflis adweithiol i'r prawf.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.
- (2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, rhaid dilyn llwybr perthnasol SCG.
- (3) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y menywod a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.

Safon C 50

Fel ymateb i ganlyniad sifflis adweithiol, rhaid ysgrifennu cofnod yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty/system TG o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Rhaid cofnodi'r canlyniad adweithiol mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty/system TG a rhaid bod polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd yn sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth.
- (2) Rhaid cofnodi'r canlyniad adweithiol, rheolaeth a'r canlyniadau dilynol ar y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd y fenyw yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r fydwraig.

4.4.3 Canlyniadau Positif ar gyfer Sifflis

Safon C 51

Rhaid rhoi gwybod i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi' enwi) am ganlyniad positif arwyddocaol i'r prawf ar gyfer sifflis o fewn un diwrnod gwaith i'r labordy awdurdodi'r adroddiad terfynol.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad drwy neges e-bost i flwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni bai bod angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy wedi'i enwi.
- (2) Nid yw'r prawf sgrinio ar gyfer sifflis yn gallu gwahaniaethu rhwng sifflis a chlefydau anhrosglwyddadwy eraill, er enghraifft, yaws, pinta, bejel neu haint sifflis sydd eisoes wedi cael ei drin. Felly mae angen dehongli arbenigol ar ganlyniad y labordy gan ficrobiologydd/firologydd ymgynghorol cyn cyhoeddi'r canlyniad ac mae'n parhau ag asesiad clinigol pan fydd y fenyw yn cael ei hadolygu gan iechyd rhywiol.

Safon C 52

Rhaid rhoi'r canlyniad i'r fenyw o fewn tri diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd y canlyniad ar gael.

Targed 100%

- (1) Dylid mynd ati cyn gynted â phosibl ac ar adeg pan mae'r gweithwyr gofal iechyd angenrheidiol ar gael i drefnu i fenywod beichiog ddychwelyd i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'w prawf sifflis iddynt.
- (2) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (3) Mae sifflis yn gyflwr cymharol brin yn y DU; dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas y mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno arny'n nhw, a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw. Dylid gofyn am gymorth aelod o dîm arbenigol y gwasanaeth iechyd rhywiol.
- (4) Dylai canlyniadau sensitif, gan gynnwys canlyniadau positif profion ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, gael eu rhoi mewn clinig (yn hytrach nag yng nghartref y fenyw) oherwydd bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu rheoli cyfrinachedd yr amgylchedd yn well.
- (5) Er mwyn cynnal cyfrinachedd, dylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw ei hun, a hynny heb fod unrhyw berthnasau neu ffrindiau'n bresennol.
- (6) Oni bai fod y meddyg teulu wedi gofyn am y prawf a'i fod yn bwriadu rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylai'r meddyg teulu gael gwybod am y canlyniad heb ofyn yn gyntaf am gydsyniad y fenyw.
- (7) Rhaid i'r fenyw gael gwybod bod posibilrwydd o risg sylweddol i iechyd y babi, a'r angen am driniaeth.
- (8) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.^e

^e Mae gwybodaeth [ysgrifenedig](#) i fenywod ar ffurf copïau caled a digidol ar gael gan SCG.

Safon C 53

Er mwyn cadarnhau'n bendant i bwy mae'r canlyniad yn perthyn, bydd ail sampl yn ofynnol.

Targed 100%

- (1) Dylid trefnu i'r sampl cadarnhau gael ei chymryd pan fydd y fenyw yn dychwelyd i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad sifflis positif.

4.4.4 Cadw Cofnodion

Safon C 54

Fel ymateb i ganlyniadau positif ar gyfer sifflis, rhaid ysgrifennu cofnod yn y nodiadau mamolaeth o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Rhaid ysgrifennu cofnod o ganlyniadau positif i brawf sifflis yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw, gyda'i chydsyniad.
- (2) Rhaid cynnwys cofnod o'r prawf positif wedi'i gadarnhau ar system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth gyda chydsyniad ar sail gwybodaeth y fenyw.
- (3) Ar ôl cadarnhau prawf positif, rhaid cofnodi hynny mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a dylai polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd warantu cyfrinachedd y wybodaeth.

4.4.5 Cynllun Gofal

Safon C 55

Mae'n ofynnol trefnu apwyntiad brys o fewn dau ddiwrnod gwaith gyda gwasanaeth iechyd rhywiol ar gyfer asesu, cwnsela er mwyn dechrau triniaeth bosibl yn brydlon.

Targed 100%

- (1) Mae'n ofynnol i wasanaeth iechyd rhywiol gynnig prawf sgrinio ar gyfer sifflis i gysylltiadau rhywiol.

Safon C 56

Rhaid i gynllun gofal priodol gael ei ddatblygu gan y gwasanaethau mamolaeth ar y cyd ag iechyd rhywiol a rhaid dogfennu hyn yn y nodiadau ysbyty/system TG a Chofnod Mamolaeth Cymru Gyfan gyda chydsyniad y fenyw.

Targed 100%

- (1) Rhaid i hyn gael ei ddatblygu gan gyfeirio at ganllawiau Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain ([BASHH 2015](#)) a rhaid trafod y broses o greu'r cynllun gyda'r fenyw ac ar sail cyngor tîm amlddisgyblaethol. Rhaid i ofal y fenyw gael ei reoli gan y tîm amlddisgyblaethol yn unol â chanllawiau BASHH a'i arwain gan iechyd rhywiol. Rhaid i'r tîm amlddisgyblaethol gynnwys obstetreg, pediatreg, iechyd rhywiol a microbiolog.

- (2) Dylai'r arbenigwr iechyd rhywiol fynd ati'n brydlon i gychwyn triniaeth gyda gwrthfotigau (os oes angen) er mwyn lleihau'r risg o weld sifflis yn trosglwyddo'n fertigol ac yn niweidio'r ffetws.
- (3) Rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth atgyfeirio'r achos i'r tîm pediatrig o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y fenyw ei chanlyniad positif. Mae hyn i hwyluso cyswllt rhwng yr obstetregydd a'r pediatregydd wrth reoli'r babi.
- (4) Bydd angen cymorth parhaus ar y fenyw gan fydwraig wedi'i henwi, a dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni fod yn cydlynu'r holl drefniadau'r gofal mamolaeth.
- (5) Os oes angen gwasanaethau cyfieithu, dylid eu trefnu ar gyfer pob apwyntiad yn y clinig cyn geni.
- (6) Ni ddylai staff y gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i bartner y fenyw neu i'w pherthnasau, heb ofyn yn gyntaf am ei chydysyniad. Ni ddylid rhoi'r canlyniad i'r meddyg teulu na'r ymwelydd iechyd heb gydsyniad y fenyw. Dylai'r broses o drafod y materion hyn fod yn rhan o gynllun gofal cynhwysfawr a ddatblygwyd gan y tîm aml-ddisgyblaethol.
- (7) Argymhellir atgyfeirio'r fam i feddygaeth y ffetws mewn achosion o sifflis ar y fam sy'n cael ei drin ar ôl 26 wythnos o feichiogrwydd.

4.4.6 Gofal Ôl-enedigol

Safon C 57

Rhaid bod trefniadau ar waith i'r pediatregydd adolygu'r babi cyn gynted â phosibl ar ôl y geni ac o fewn pedair awr i'r enedigaeth.

Targed 100%

- (1) Dylid cymryd sampl pâr mamol a newyddenedigol (sampl wedi ceulo) ar gyfer prawf sifflis yn fuan ar ôl y geni cyn dechrau ar driniaeth y babi ([Cynllun Geni Sifflis 2016](#)). Dylid mynd ati cyn y geni i drafod yr union ofynion gyda'r firolegydd.

Safon C 58

Rhaid bod trefniadau ar waith i'r babi newydd-anedig gael gofal dilynol gan y tîm pediatrig, gan gynnwys triniaeth addas a phrofion seroleg.

Targed 100%

5.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer Grŵp Gwaed, Grŵp Rhesws (Rh) D a Gwrthgyrff

Datganiad Polisi

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni ar gyfer grŵp gwaed, statws RhD a gwrthgyrff yn ystod beichiogrwydd i bob menyw feichiog sy'n byw yng Nghymru (NICE 2021).

Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff Celloedd Coch

Mae pedwar prif fath o grŵp gwaed: grŵp O, grŵp A, grŵp B a grŵp AB. Ceir ffactor gwaed arall hefyd o'r enw grŵp RhD; mae gan bobl grŵp gwaed a grŵp Rh, e.e. grŵp O RhD positif. Protein yw'r ffactor Rh sydd i'w gael yng nghelloedd coch gwaed tua 85% o bobl ac mae ei bresenoldeb yn dynodi bod unigolyn yn RhD positif, sy'n grŵp gwaed mwy cyffredin yn y DU. Os nad yw'r protein yn bresennol, mae'r unigolyn yn RhD negatif, sy'n llai cyffredin.

Yn ystod beichiogrwydd, mae posibilrwydd y gall gwrthgyrff o waed y fam drosglwyddo i waed y ffetws, gan groesi'r brych i gylchrediad y ffetws. Mae'n gallu achosi cyflwr prin o'r enw clefyd haemolytig y ffetws a'r babi newydd-anedig (HDFN). Mae hyn yn fwyaf cyffredin pan fydd y fenyw yn RhD negatif a'r babi yn RhD positif, ond mae presenoldeb nifer o fathau eraill o brotein (fel Kell, c, Duffy a Kidd) yng nghelloedd coch y gwaed yn gallu achosi i waed y fam greu gwrthgyrff IgG, sy'n arwain at HDFN.

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Fel rhan integredig o'i gofal cyn geni, dylai pob menyw feichiog gael cyfle i gael prawf sgrinio am grŵp gwaed, statws RhD a gwrthgyrff yn gynnar yn ei beichiogrwydd, beth bynnag oedd canlyniad unrhyw brawf sgrinio blaenorol. Os oes unrhyw wrthgyrff yn dod i'r amlwg, yn enwedig gwrth-D, gwrth-Kell neu wrth-c, bydd yn bosibl monitro'r gwrthgyrff a chynghori'r fenyw o ran rheolaeth obstetreg ei beichiogrwydd. Os bydd beichiogrwydd sy'n wynebu risg o HDFN y ffetws a newyddenedigol a achosir gan anghydnawsedd RhD yn cael eu nodi, h.y. menywod RhD negatif, gellir cynnig sgrinio pellach drwy brawf DNA di-gell y ffetws (cffDNA), i fenywod sy'n RhD negatif. Gall y prawf hwn ragweld grŵp RhD y ffetws, gan alluogi menywod i wneud dewis gwybodus personol am y gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Lleihau nifer yr achosion o HDFN a lleihau nifer y problemau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Bydd cynnig cffDNA i fenywod sy'n RhD negatif, yn galluogi menywod i wneud dewis gwybodus personol, lleihau nifer y menywod sy'n derbyn cynhyrchion gwaed yn ddiangen, a gwarchod y cyflenwad o wrth-D i fenywod sydd ei angen.

Yr Opsiynau o ran Prawf Sgrinio

Bydd y prawf sgrinio sydd ar gael ar gyfer grŵp gwaed, statws RhD a gwrthgyrff yn penderfynu a yw'r fenyw yn RhD positif neu'n RhD negatif

Felly, nid oes gan fenywod sy'n RhD negatif, sy'n feichiog gyda beichiogrwydd sengl neu efeilliaid ac nad ydynt wedi'u senseiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G, wrthgyrff mamol ac felly gallant ddefnyddio'r canlyniad hwn i benderfynu a ydynt am dderbyn neu wrthod y cynnig prawf sgrinio pellach o'r enw cffDNA. Bydd menywod sy'n RhD negatif ac sy'n cyflwyno ar gyfer gofal ar $\geq 26^{+1}$ wythnos o feichiogrwydd neu fwy, yn cael cynnig imiwnoglobwlin gwrth-D.

5.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon BG 1

Rhaid cynnig a chyfeirio pob menyw feichiog at lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG sydd ar gael ar wefan SCG.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (3) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir, h.y. ar ffurf print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall gwasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol.
- (4) Rhaid i'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

Safon BG 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am grŵp gwaed, grŵp RhD a gwrthgyrff yn ystod beichiogrwydd cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw am gael y prawf a rhaid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Lle mae gan y fenyw iaith wahanol neu os oes ganddi anghenion cyfathrebu gwahanol, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, gall copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, hawdd ei ddeall, sain neu wasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio diben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y prawf sgrinio hwn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (3) Dylid hysbysu'r fenyw, os yw'r canlyniadau'n dangos ei bod yn RhD negatif ac nad yw wedi'i sensitieiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G, y bydd yn cael cynnig yr opsiwn o sgrinio cffDNA.

5.2 Cynnig Prawf Sgrinio

Safon BG 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni am grŵp gwaed, grŵp RhD a gwrthgyrff i bob menyw feichiog cyn diwedd 10^{+0} wythnos o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid manteisio ar y cyfle cyntaf sydd ar gael i gynnig y prawf sgrinio i bob menyw sy'n dod i glinig gofal cyn geni ar ôl 10^{+1} wythnos o'r beichiogrwydd.

- (2) Rhaid rhoi gwybod i fenywod os yw eu canlyniadau'n dangos eu bod yn RhD negatif ac nad ydynt wedi'u sensiteiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G, y byddant yn cael cynnig sgrinio cffDNA sy'n gallu rhagweld grŵp D y ffetws.
- (3) Rhaid i unrhyw fenyw sydd eisoes wedi cael babi'r oedd HDFN wedi effeithio arno gael cynnig atgyfeiriad ac adolygiad erbyn 19⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd mewn uned arbenigol i gael cyngor ac asesiad am haemolysis y ffetws, beth bynnag yw lefel y gwrthgyrff yn y gwaed ([BSH 2016](#)).
- (4) Mae menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni preifat yn dal yn gymwys i gael mynediad at sgrinio cyn geni GIG Cymru, a rhaid ei gynnig iddynt.

Safon BG 4

Rhaid i fenywod nad ydynt yn dod i gael gofal cyn geni yn ystod y beichiogrwydd ac sy'n cyflwyno yn ystod y cyfnod esgor gael cynnig sgrinio ar gyfer grŵp gwaed, grŵp RhD a gwrthgyrff ar fyrder. Pan gaiff y sampl ei chymryd, rhaid cysylltu â'r labordy lleol i roi gwybod iddo am y sampl.

Targed 100%

5.3 Cydsynio

Safon BG 5

Mae caniatâd llafar ar sail gwybodaeth y fenyw yn ofynnol ar gyfer y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Cyn cynnal y prawf, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y fenyw:
 - yn deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo
 - nid oes angen rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio arni
 - yn rhoi ei chydsyniad llafar ar sail gwybodaeth i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo.
- (2) Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf sgrinio ar gyfer grŵp gwaed, statws RhD a gwrthgyrff, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir y gall ei defnyddio fel sail i'w phenderfyniad.

5.4 Cais am Prawf

Safon BG 6

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn Geni' ar y cais i'r labordy a nodi a yw'n gais ar adeg 'archebu' neu'n sampl '28 wythnos'. Rhaid ysgrifennu hefyd enw'r clinigydd arweiniol neu nodi ei fod dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

- (1) Os yw'r fenyw yn RhD negatif ac nad yw wedi'i sensiteiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G, rhaid cynnig sgrinio cffDNA iddi sy'n gallu rhagweld grŵp genoteip y ffetws (gweler Safon 23).

Safon BG 7

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.^f

Targed 100%

- (1) Rhaid i gais electronig gofnodi llwybr archwilio clir sy'n nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais.

Safon BG 8

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y cais i'r labordy.

Targed 100%

- (1) Os oes proffylacsis gwrth-D cyn geni wedi cael ei roi i'r fenyw, ar unrhyw adeg yn ystod y beichiogrwydd, rhaid cynnwys y wybodaeth hon ar y cais i'r labordy, gan y gallai'r proffylacsis effeithio ar y broses o ddehongli'r canlyniadau. Bydd angen dweud wrth y labordy beth oedd dyddiad y proffylacsis a beth oedd y dos o wrth-D.

5.5 Trefn y Prawf

Safon BG 9

Rhaid i'r sampl gael ei chymryd cyn 12⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn geni cyn yr wythnos honno.

Targed 100%

Safon BG 10

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Dylai menywod sy'n dod i gael gofal cyn geni ar ôl 13⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd gael y prawf sgrinio hwn ar y cyfle cyntaf.
- (2) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.
- (3) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, a rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr i'r wybodaeth ar y cais a'r sampl.

5.6 Gwasanaethau Labordai

Safon BG 11

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol, neu'n gweithio tuag at achrediad, yn unol â [Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig](#), a rhaid iddo gydymffurfio â [safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio grŵp gwaed a gwrthgyrff cyn geni](#).

Targed 100%

^f Drwy lofnodi'r cerdyn cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am ddiben y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chydsyniad ar sail gwybodaeth i'r prawf.

Safon BG 12

I wneud prawf sgrinio am wrthgyrff rhaid defnyddio prawf gwrthglobwlin anuniongyrchol a phanel celloedd coch sy'n cydymffurfio â chanllawiau presennol y DU ([Llawlyfr Trallwysiad](#)).

Targed 100%

- (1) Dylai'r labordy lleol allu cynnig cyngor ar y gofynion o ran cymryd sampl oherwydd bydd gofynion y gwahanol labordai'n amrywio. Dylid gwneud profion ar y sampl ar gyfer grŵp gwaed ac alo-wrthgyrff celloedd coch annodweddiadol.

Safon BG 13

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 95%

Safon BG 14

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy profi hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 100%

Safon BG 15

Yn achos samplau nad ydynt yn rhai brys, rhaid i'r labordy anelu at anfon y canlyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

- (1) Lle mae gwrthgyrff arwyddocaol yn cael eu canfod, rhaid i'r labordy e-bostio'r canlyniad i flwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod gwaith i dderbyn yr adroddiad.

5.7 Trin y Canlyniadau

Safon BG 16

Os nad y labordy lleol oedd yn gwneud y profion ar y sampl, rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r labordy lleol o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y mae'r labordy a wnaeth profion yn awdurdodi'r adroddiad terfynol.

Targed 95%

Safon BG 17

Rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad ei ryddhau gan y labordy lleol, neu iddo.

Targed 95%

- (1) Dylai'r canlyniadau gael eu hanfon at y tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi'r canlyniad fel arfer i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n holi dros y ffôn, oni bai fod arwydd clir o angen clinigol sy'n effeithio ar unwaith ar y gwaith o reoli'r gofal.

Safon BG 18

Rhaid sicrhau bod proses ddi-feth ysgrifenedig y cytunwyd arni er mwyn nodi a mynd ar drywydd canlyniadau nad ydynt wedi cyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

Safon BG 19

Rhaid bod gan y gwasanaeth mamolaeth drefn ysgrifenedig y cytunwyd arni i nodi a mynd ar drywydd achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu ragor o wybodaeth.

Targed 100%

Safon BG 20

Rhaid i fenywod gael eu hysbysu am y canlyniadau gan y gwasanaeth mamolaeth yn ystod yr apwyntiad 16 wythnos. Rhaid i'r canlyniadau gael eu cofnodi ar Gofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Os nad oes unrhyw rai o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn llwybr y bwrdd iechyd lleol fel y nodir yn Safon BG 18.
- (2) Os bydd y fenyw wedi comesgor rhwng casglu'r sampl a chael y canlyniadau, dylid rhoi'r canlyniadau i'r fenyw yn unol â llwybr y bwrdd iechyd lleol.
- (3) Awgrymir prawf sgrinio arall ar gyfer gwrthgyrff celloedd coch annodweddiadol ar 28 wythnos o'r beichiogrwydd.
- (4) Os yw'r fenyw yn RhD negatif ac nad yw wedi'i sensiteiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G, rhaid cynnig sgrinio cffDNA iddi sy'n gallu rhagweld grŵp D y ffetws (gweler Safon 23).
- (5) Os yw'r fenyw yn RhD positif dylid rhoi gwybod iddi na fydd angen proffylacsis gwrth-D arni.
- (6) Rhaid rhoi cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniadau gyda'r fenyw yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (7) Os nad yw'r apwyntiad cyn geni hwn wyneb yn wyneb, rhaid gwneud cofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod y canlyniadau unigol wedi'u trafod gyda'r fenyw yn y nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd.
- (8) Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniadau hefyd.

Safon BG 21

Os yw'r sampl wedi'i chymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd, rhaid rhoi'r canlyniadau o fewn pythefnos i'r adeg y cymerwyd y sampl. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y caiff y fenyw ei hadolygu gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Targed 100%

- (1) Os nad oes unrhyw rai o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn llwybr y bwrdd iechyd lleol fel y nodir yn Safon BG 18.

- (2) Awgrymir prawf sgrinio arall ar gyfer gwrthgyrff celloedd coch annodweddiadol ar 28 wythnos o'r beichiogrwydd.
- (3) Os yw'r fenyw yn RhD positif rhaid rhoi gwybod iddi na fydd angen proffylaccis gwrth-D arni.
- (4) Os yw'r fenyw yn RhD negatif, ac nad yw wedi'i sensiteiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G a $\leq 26^{+0}$ wythnos o feichiogrwydd rhaid cynnig sgrinio cffDNA iddi. Os yw'r fenyw yn RhD negatif a $\geq 26^{+1}$ wythnos o feichiogrwydd, argymhellir imiwnoglobwlin gwrth-D proffylactig iddi gan na fydd cffDNA ar gael.
- (5) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniadau gyda'r fenyw a'i gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan/system TG y bwrdd iechyd.

Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

5.8 Canlyniadau Negatif ar gyfer RhD a Gwrthgyrff

Safon BG 22

Rhaid hysbysu'r fenyw am oblygiadau canlyniad RhD negatif.

Targed 100%

- (1) Rhaid hysbysu'r fenyw naill ai drwy lythyr, mewn apwyntiad clinig cyn geni neu alwad ffôn (yn unol â threfniadau'r bwrdd iechyd lleol a/neu ddewis y fenyw) y nodwyd ei bod yn RhD negatif. Rhaid cynnig apwyntiad i'r fenyw er mwyn trafod y canlyniad. Rhaid trafod a chynnig hyn cyn 16 wythnos o feichiogrwydd os yw'r fenyw yn cyflwyno ar gyfer gofal cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn.
- (2) Mae gwybodaeth am fod yn RhD negatif yn ystod beichiogrwydd wedi'i darparu yn llenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG sydd ar gael ar wefan SCG ac mewn fformatau eraill os bydd angen. Mae'n cynnwys gwybodaeth am hysbysu gweithiwr iechyd proffesiynol os bydd digwyddiad sensiteiddio posibl yn codi.
- (3) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.

Safon BG 23

Dylai pob menyw sy'n RhD negatif gael gwybodaeth am sgrinio cffDNA i ragweld grŵp D y ffetws a rhaid iddi gael y cyfle i drafod y prawf hwn gyda bydwraig erbyn 16 wythnos o feichiogrwydd⁹ os yw'r fenyw yn cyflwyno ar gyfer gofal cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol roi'r wybodaeth gywir ddiweddaraf am cffDNA a'r hyn y byddai'r canlyniadau yn ei ragweld a pha reolaeth fyddai'n cael ei hargymell.
- (2) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.
- (3) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.

⁹ (14 i 18 wythnos) apwyntiad www.nice.org.uk/guidance/ng201

- (4) Rhaid hysbysu'r fenyw bod ganddi ddewis o brawf cffDNA sy'n brawf sgrinio pellach ac y bydd yn derbyn cefnogaeth beth bynnag fydd ei phenderfyniad.
- (5) Os yw'r fenyw yn gwrthod cffDNA neu os na ellir cynnig cffDNA, neu os yw cffDNA wedi rhagweld bod y ffetws yn RhD positif, gyda digwyddiad wedi'i sensiteiddio posibl, rhaid cynnig imiwnoglobwlin gwrth-D proffylactig cyn geni.
- (6) Ni ellir cynnig cffDNA os:
 - ar unrhyw adeg yn ystod y beichiogrwydd hwn roedd beichiogrwydd lluosog tripled neu uwch
 - Mae gwrthgyrff gwrth-D neu wrth-G yn bresennol
 - mae beichiogrwydd y fenyw yn $\geq 26^{+1}$ wythnos o feichiogrwydd.
 - Os bu beichiogrwydd tripled neu uwch i ddechrau, lle mae gefell sy'n diflannu/wedi diflannu
- (7) Dylai pob menyw sy'n RhD negatif ac yn feichiog gyda ffetws y rhagwelir y bydd yn RhD positif neu sydd wedi gwrthod sgrinio cffDNA, gael gwybodaeth lafar a digidol am broffylactis gwrth-D cyn geni ac ôl-enedigol a chael cyfle i drafod y driniaeth hon gyda bydwraig yn gynnar yn y cyfnod cyn geni.
- (8) Rhaid cynnig ac argymhell proffylactis gwrth-D cyn geni arferol (RAADP) i bob menyw feichiog nad yw wedi'i sensiteiddio sy'n RhD negatif os yw'r cffDNA wedi rhagweld y bydd ffetws yn RhD positif neu ei ddychwelyd gyda chanlyniad amhendiant, neu, os cafodd sgrinio cffDNA ei wrthod.
- (9) Rhaid casglu'r sampl grŵp gwaed a gwrthgyrff 28 wythnos cyn rhoi'r proffylactis gwrth-D arferol.
- (10) Rhaid ystyried RAADP yn endid ar wahân a'i roi er gwaethaf, ac yn ychwanegol at, unrhyw imiwnoglobwlin gwrth-D a allai fod wedi'i roi am ddigwyddiad sensiteiddio posibl, i fenywod os yw cffDNA wedi rhagweld y bydd ffetws yn RhD positif neu wedi dychwelyd canlyniad amhendiant, neu os cafodd sgrinio cffDNA ei wrthod.

Safon BG 24

Rhaid bod pob bwrdd iechyd wedi rhoi protocol ar waith ar gyfer gofal proffylactis gwrth-D cyn geni ac i reoli'r achosion o fenywod sy'n RhD negatif.
Targed 100%

- (1) Dylai pob gwasanaeth mamolaeth sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cynnig a rhoi proffylactis gwrth-D cyn geni.
- (2) Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses ar waith er mwyn sicrhau nad yw menyw sydd wedi'i sensiteiddio i wrth-D yn cael proffylactig gwrth-D yn anfwriadol.

Safon BG 25

Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod protocol priodol ar waith ar gyfer cynnig triniaeth cyn geni benodol ar ôl digwyddiad sensiteiddio i fenywod y rhagwelir y bydd eu ffetws yn RhD positif neu lle nad yw grŵp D y ffetws yn hysbys.⁴
Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig proffylacsis gwrth-D ac, os caiff ei dderbyn, ei roi cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad sensiteiddio ac yn sicr o fewn 72 awr.
- (2) Rhaid cynnig prawf sgrinio Kleihauer i fenyw feichiog ar ôl digwyddiad a allai fod wedi'i sensiteiddio ar ôl 20⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd neu ar ôl y geni. Pan ddaw canlyniad y prawf Kleihauer i law, efallai bydd angen dosau ychwanegol o broffylacsis gwrth-D, fel y cynghorir gan y labordy. Nid yw rhoi proffylacsis gwrth-D arferol yn effeithio ar y drefn hon.
- (3) Rhaid cymryd sampl arall gan y fam 72 awr ar ôl y cyfan o'r dosau o imiwnoglobwlin (Ig) gwrth-D (48 awr os cafodd yr Ig gwrth-D ei chwistrellu i mewn i wythien) os bydd gwaedlif y fam a'r ffetws yn 4mL neu'n uwch na hynny. Diben hyn yw gwirio bod celloedd y ffetws wedi clirio ([BCSH 2014](#)).

5.9 cffDNA

5.9.1 Cydsynio ar gyfer cffDNA

Safon BG 26

Mae angen cydsyniad llafar ar sail gwybodaeth y fenyw ar gyfer sgrinio cffDNA a rhaid cofnodi hyn yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
Targed 100%

- (1) Gall menywod sy'n RhD negatif, nad ydynt wedi'u sensiteiddio i wrthgyrff gwrth-D neu wrth-G, $\leq 26^{+0}$ wythnos o feichiogrwydd gyda beichiogrwydd sengl neu efeilliaid:
- (2) Dewis cael sgrinio cffDNA lle gellir rhagweld genoteip RhD y ffetws.
- (3) Dewis peidio â chael sgrinio cffDNA.
- (4) Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol sydd â sgiliau a gwybodaeth addas gael trafodaeth lafar am sgrinio cffDNA gyda'r fenyw cyn gofyn iddi wneud dewis gwybodus personol ynghylch a yw'n dymuno cael y prawf. Dylid:
 - hysbysu'r fenyw am ddiben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision sgrinio cffDNA
 - hysbysu'r fenyw os yw'r cffDNA yn rhagweld y bydd y ffetws yn D negatif, **ni fydd** imiwnoglobwlin gwrth-D proffylactig yn cael ei argymell.
 - hysbysu'r fenyw os yw'r cffDNA yn rhagweld y bydd y ffetws yn D positif, neu os yw canlyniad y prawf yn amhendiant, **bydd** imiwnoglobwlin gwrth-D proffylactig yn cael ei argymell.
 - hysbysu'r fenyw nad yw cffDNA ar gael ar ôl $\geq 26^{+1}$ wythnos o feichiogrwydd. Mewn achosion o'r fath, bydd imiwnoglobwlin gwrth-D yn cael ei argymell.

- (5) Bydd y llwybr sgrinio cyn geni arferol ar gyfer sgrinio cffDNA yn galluogi menywod y mae eu beichiogrwydd wedi symud ymlaen i $\geq 16^{+0}$ wythnos o feichiogrwydd. Ni ddylid casglu samplau cyn $\leq 11^{+2}$ wythnos o feichiogrwydd.
- (6) Gellir cynnal y prawf cffDNA o 11+2 wythnos o feichiogrwydd, felly bydd sgrinio ar gael i rai menywod sy'n mynd i Uned Meddygaeth y Ffetws ar gyfnod beichiogrwydd cynharach.
- (7) Ni ddylid casglu samplau ar ôl $\geq 26^{+1}$ wythnos.
- (8) Rhaid i [wybodaeth](#) ysgrifenedig SCG gael ei defnyddio i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.

5.9.2 Cais am Brawf

Safon BG 27

Rhaid cwblhau pob maes gorfodol ar gyfer cais labordy am brawf sgrinio cffDNA.

Targed 100%

Safon BG 28

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.

Targed 100%

5.9.3 Gweithdrefn Prawf Gwaed cffDNA

Safon BG 29

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.
- (2) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, a rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr i'r wybodaeth ar y cais a'r sampl.
- (3) Rhaid i'r sampl cffDNA gynnwys o leiaf 10ml o waed. Rhaid ei gasglu mewn potel EDTA â thop porffor. Dim ond un sampl sydd i'w hanfon. Ar ôl casglu'r sampl, rhaid gwrthdroi'r botel 8-10 gwaith er mwyn cynnal sefydlogrwydd y gwaed.

5.9.4 Trin Samplau

Safon BG 30

Rhaid i'r sampl gael ei derbyn gan Wasanaeth Gwaed Cymru o fewn pum diwrnod calendr i gymryd y sampl.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r gwaith o baratoi a chludo'r sampl ddilyn y [Trefniadau Gweithredu Safonol](#) sy'n cael eu hargymell gan Wasanaeth Gwaed Cymru.
- (2) Mae'r rhif GIG yn ofyniad gorfodol. Fodd bynnag, i'r menywod hynny sy'n aros am rif GIG, rhaid cysylltu â Gwasanaeth Gwaed Cymru cyn cael y sampl.
- (3) Ni ddylid rhoi'r sampl cffDNA mewn oergell neu rewgell. Ni ddylai'r sampl gael ei hallgyrchu.
- (4) Rhaid anfon y sampl a'r [cerdyn](#) cais wedi'i gwblhau i labordy Gwasanaeth Gwaed Cymru, yn ddelfrydol ar y diwrnod y caiff y sampl ei chymryd. Bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd y prawf yn aflwyddiannus oherwydd bod DNA y ffetws wedi dadelfennu yn y sampl.
- (5) Os caiff samplau eu cludo yn uniongyrchol o wasanaethau mamolaeth i Labordy Gwasanaeth Gwaed Cymru rhaid iddynt fodloni gofynion [cyfarwyddiadau pacio P650 UN](#).

5.9.5 Gwasanaethau Labordai

Safon BG 31

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol, neu'n gweithio tuag at achrediad, yn unol â Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, a rhaid iddo gydymffurfio â safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio grŵp gwaed, gwrthgyrff ac cffDNA cyn geni

Targed 100%

Safon BG 32

Rhaid bod uwch aelod o staff dynodedig y labordy sydd â phrofiad perthnasol o sgrinio, sy'n bennaf gyfrifol am holl agweddau gwasanaeth sgrinio cffDNA y labordy.

Targed 100%

Safon BG 33

Rhaid i Wasanaeth Gwaed Cymru geisio cyflawni amser cwblhau 10 diwrnod gwaith o'r amser y derbynnir y sampl yn y labordy i gyflwyno'r canlyniadau i'r bwrdd iechyd.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon neges e-bost sy'n cynnwys y rhestr a samplau a dderbyniwyd i flwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd yn wythnosol. Cyfrifoldeb bydwagedd clinig cyn geni y bwrdd iechyd yw gwirio'r canlyniadau.
- (2) Bydd unrhyw samplau sydd wedi'u gwrthod yn cael eu cynnwys yn y daenlen/templed adrodd wythnosol oddi wrth Wasanaeth Gwaed Cymru gyda'r rheswm dros wrthod.

5.9.6 Trin y Canlyniadau

Safon BG 34

Rhaid sicrhau bod proses ddi-feth ysgrifenedig y cytunwyd arni er mwyn nodi a mynd ar drywydd canlyniadau nad ydynt wedi cyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

- (1) Dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni, neu ddirprwy wedi'i enwi, gydlynu'r broses o ddelio â chanlyniadau wrth iddynt gael eu derbyn drwy'r blwch e-bost generig perthnasol.

Safon BG 35

Rhaid bod gan y gwasanaethau mamolaeth drefn ysgrifenedig y cytunwyd arni i nodi a mynd ar drywydd lle mae'r labordy wedi gofyn am ragor o wybodaeth.

Targed 100%

5.9.7 cffDNA Canlyniadau Positif ar gyfer Gwrthgyrff

Safon BG 36

Os bydd y labordy'n canfod gwrthgyrff, rhaid eu nodi a'u meintoli lle y bo'n briodol, er mwyn asesu pa mor debygol yw HDFN.

Targed 100%

- (1) Mae nifer mawr o wrthgyrff yn gallu achosi HDFN. Os bydd y labordy'n canfod gwrthgyrff arwyddocaol rhaid rhoi gwybod i'r obstetregydd ymgynghorol ac i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni neu ei ddirprwy wedi'i enwi.
- (2) Cyn atgyfeirio'r fam i adran meddygaeth y ffetws, dylai labordy cyfeirio wneud profion eraill er mwyn cadarnhau'r sefyllfa.
- (3) Pan fydd achos newydd o wrthgyrff gwrth-D yn cael ei ganfod, rhaid i labordy trallwysyadau gwaed yr ysbyty sy'n atgyfeirio'r achos roi gwybod i SHOT ([SHOT 2022](#)).

Safon BG 37

Rhaid trefnu i'r fenyw ddychwelyd i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'r prawf gwrthgyrff iddi.

Targed 100%

- (1) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (2) Bydd y gwaith o reoli'r beichiogrwydd yn dibynnu ar yr arwyddocâd clinigol a thitr y gwrthgyrff a ddaeth i'r amlwg.
- (3) Lle y gwneir cais gan labordy, rhaid cynnig prawf i dad biolegol y babi a dylid trefnu hyn yn ystod yr ymweliad hwn.

Safon BG 38

Rhaid i fenywod beichiog sydd ag alo-wrthgyrff annodweddiadol yn eu celloedd coch sy'n arwyddocaol yn glinigol gael cyfle i gael eu hatgyfeirio i adran meddygaeth y ffetws.

Targed 100%

(1) Dylai hyn gynnwys:

- pob menyw a gafodd feichiogrwydd lle'r oedd HDN wedi effeithio ar y plentyn
- pob achos o wrth-K (beth bynnag yw lefel y titr, a lle mae sampl y tad wedi'i gadarnhau'n K+ ar gyfer y beichiogrwydd hwn)
- pob achos o wrthgyrff sy'n arwyddocaol yn glinigol a lle mae'r titr yn 32 neu'n uwch (gan gynnwys gwrth-E, e, Fya, Fyb, Jka, Jkb, S, s, M)
- pob achos o wrth-D lle mae'r meintoli'n fwy na 4iu/ml
- pob achos o wrth-c lle mae'r meintoli'n fwy na 7.5iu/ml.

5.10 Cynllun Gofal

Safon BG 39

Fel ymateb i statws RhD negatif a statws gwrthgyrff y fenyw, rhaid ysgrifennu cofnod yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

- (1) Os caiff menywod eu nodi'n RhD negatif, dylai hyn gynnwys camau gweithredu arfaethedig mewn perthynas â phroffylacsis gwrth-D.
- (2) Os caiff menywod eu nodi fel RhD negatif gyda gwrthgyrff (ac eithrio gwrth-D a gwrth-G) ac maent wedi cael sgrinio cffDNA, rhaid i gofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod canlyniad y ffetws wedi'i drafod gyda'r fenyw, gael ei wneud yn y nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd.
- (3) Dylai menywod sydd â gwrthgyrff sy'n glinigol arwyddocaol (h.y. gwrthgyrff a drafodwyd yn Safon BG 27, Protocol 1) gael eu harsylwi'n agos am dystiolaeth o HDFN. Dylid cynnal prawf gwrthglobwlin uniongyrchol (DAT) ar sampl gwaed o'r llinyn bogail, a dylid mesur crynodiadau haemoglobin a bilirubin ([BSH 2016](#)).

5.11 Gofal Ôl-enedigol

Safon BG 40

Rhwng 30 munud a 2 awr ar ôl geni babi, mae'n ofynnol cymryd sampl o waed pob menyw feichiog sy'n RhD negatif (mae'r un peth yn ofynnol yn achos menywod lle nad oes cofnod o grŵp RhD eu gwaed). Mae'n ofynnol cymryd sampl o'r gwaed o'r llinyn bogail hefyd.

Targed 100%

- (1) Mae angen sampl gwaed o'r llinyn bogail er mwyn profi grŵp gwaed y ffetws ac i gadarnhau'r canlyniadau sgrinio cffDNA, os yw hyn wedi'i gynnal. Mae angen sampl o waed y fam er mwyn asesu gwaedlif ffetysol-famol mewn menywod RhD

negatif sydd wedi rhoi genedigaeth i fabi RhD positif er mwyn cadarnhau a oes angen proffylacsis gwrth-D ychwanegol ar y fenyw.

- (2) Mewn menywod sydd â gwrthgyrff clinigol arwyddocaol, dylid cynnal prawf gwrthglobwlin uniongyrchol (DAT) ar sampl gwaed o'r llinyn bogail, a dylid mesur crynodiadau haemoglobin a bilirwbin yn y labordy (BSH 2016).

Safon BG 41

Cyn gweinyddu imiwnoglobwlin gwrth-D, rhaid gwirio holl ganlyniadau prawf gwaed y llinyn ôl-enedigol yn erbyn y canlyniad sgrinio cffDNA cyn geni (os cafodd ei gynnal) er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cyfateb.

Targed 100%

- (1) Os canfyddir canlyniad negatif anghywir, (h.y. canlyniad cffDNA = RhD negatif, canlyniad prawf gwaed y llinyn = RhD positif) dylid rhoi gwybod i'r fenyw am y canlyniad a chynghori bod gwrth-D yn cael ei argymell.^h
- (2) Os canfyddir canlyniad positif anghywir, (h.y. canlyniad cffDNA = RhD positif, canlyniad prawf gwaed y llinyn = RhD negatif) dylid rhoi gwybod i'r fenyw am y canlyniad a chynghori nad yw gwrth-D yn cael ei argymell.
- (3) Rhaid dilyn y [Trefniadau Gweithredu Safonol](#) ar gyfer rheoli ac adrodd canlyniadau anghyson.

Safon BG 44

Os yw'r babi'n RhD positif, rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth gynnig proffylacsis gwrth-D ar ôl y geni i fenywod sy'n RhD negatif ac sydd heb eu sensiteiddio. Os bydd y fam yn derbyn y cynnig, dylai gael y proffylacsis o fewn 72 awr i'r geni ([BCSH 2014](#)) a dylid cofnodi hynny yn y cofnod mae'r bwrdd iechyd yn ei gymeradwyo.

Targed 100%

- (1) Efallai bydd angen dosys ychwanegol o broffylacsis gwrth-D, ond rhaid gweithredu ar sail cyngor y labordy ar ôl gwneud prawf sgrinio Kleihauer.

^h Mae canlyniadau negatif anghywir yn nodi bod genoteip rhagweledig y ffetws yn RhD negatif ond roedd y babi yn RhD positif.

ⁱ Mae canlyniadau positif anghywir yn nodi bod genoteip rhagweledig y ffetws yn RhD positif ond mae'r babi yn RhD negatif mewn gwirionedd.

6.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia

Datganiad Polisi

Rhaid i bob menyw feichiog sy'n byw yng Nghymru gael cynnig sgrinio cyn geni ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia i nodi menywod a allai fod â siawns uchel o gael babi â naill ai anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol (CIC 2003; UK NSC 2017; NICE 2021).

Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia

Mae clefyd y crymangelloedd a thalasaemia'n ddau fath o anhwylder etifeddol ar yr haemoglobin yn y gwaed. Dim ond rhai o'r anhwylderau sy'n arwyddocaol yn glinigol. Mae'r siawns o fod yn gludydd yn uwch ymhlith mewn pobl y mae eu cyndeidiau wedi dod yn bennaf, ond nid yn unig, o Affrica, y Caribî, y Dwyrain Canol, gwledydd Môr y Canoldir, De Asia a De-ddwyrain Asia. Bydd y rhai â'r mathau mwyaf difrifol o'r anhwylderau hyn yn dibynnu ar ofal yr ysbyty drwy gydol eu hoes.

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Nodi menywod beichiog sydd â siawns uchel o gael babi y mae clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol (yn ôl y diffiniad cwestiwn SCG ar darddiad y teulu) yn effeithio arno i alluogi gwneud prawf sgrinio mewn labordy ac, os oes angen, cynnig profion mewnwthiol cyn geni. Yna gall y fenyw wneud penderfyniad gwybodus personol a bydd yn cael cyfle i wneud dewisiadau atgenhedlu gan gynnwys cynllunio ei gofal ar gyfer y beichiogrwydd ac atgyfeirio i arbenigeddau perthnasol.

Efallai fod manteision eraill o ran iechyd y fam yn ystod y beichiogrwydd os nodir bod ganddi glefyd y crymangelloedd.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Bydd menywod sydd â siawns uwch o gael babi sydd â chlefyd y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn gallu gwneud dewisiadau personol ar sail gwybodaeth am eu beichiogrwydd.

6.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon SCT 1

Rhaid cynnig a chyfeirio pob menyw feichiog at lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG sydd ar gael ar wefan SCG.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (3) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir, h.y. ar ffurf print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall gwasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol.
- (4) Rhaid i'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

Safon SCT 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw am gael y prawf a rhaid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Lle mae gan y fenyw iaith wahanol neu os oes ganddi anghenion cyfathrebu gwahanol, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, gall copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, hawdd ei ddeall, sain neu wasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio diben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y prawf sgrinio hwn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (3) Dylid esbonio hefyd y manteision iechyd i'r fenyw os canfyddir bod ganddi glefyd y crymangelloedd, a bod yr anhwylder yn cael ei reoli'n briodol.

6.2 Cynnig Prawf Sgrinio

Safon SCT 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia i bob menyw feichiog cyn diwedd 10^{+0} wythnos o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia ar y cyfle cyntaf i fenywod sy'n dod i gael gofal cyn geni ar ôl 10^{+1} wythnos o feichiogrwydd.
- (2) Mae menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni preifat yn dal yn gymwys i gael mynediad at sgrinio cyn geni GIG Cymru, a rhaid ei gynnis iddynt.

6.3 Menywod sydd Eisoedd Wedi Cael Diagnosis o Anhwylder yr Haemoglobin, neu sy'n Gludwyr

Safon SCT 4

Os yw'r fenyw'n sôn ei bod hi eisoedd wedi cael diagnosis o anhwylder ar yr haemoglobin, neu os yw'r fenyw'n gludydd, rhaid cynnig ail prawf sgrinio iddi a rhaid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y cais.^j

Targed 100%

- (1) Os yw'r fenyw'n gwybod ei bod yn gludydd genyn clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia neu fod anhwylder ar ei haemoglobin, dylid ei chynghori bod gofyn i'r tad biolegol gael prawf sgrinio er mwyn gwneud yr asesiad mwyaf cywir o'r risg i'r beichiogrwydd.
- (2) Os yw'r tad biolegol eisoedd wedi cael prawf sgrinio, rhaid iddo gael cyfle i gael ail prawf sgrinio a dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol am ganlyniad y prawf blaenorol ar y cais.
- (3) Os yw'r fenyw a thad biolegol y babi ill dau'n gludwyr genyn clefyd y crymangelloedd, thalasaemia neu anhwylder ar yr haemoglobin, mae risg y gallai'r babi etifeddu anhwylder arwyddocaol a dylai'r fydwraig drafod profion mewnwthiol.
- (4) Os yw'r fenyw'n gofyn am brofion mewnwthiol, dylid cynnig apwyntiad brys iddi gyda Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) er mwyn trefnu apwyntiad brys gydag uned meddygaeth y ffetws.
- (5) Os nad yw'r tad biolegol wedi cael prawf sgrinio ac mae'n rhoi ei ganiatâd, rhaid trefnu i'r gwasanaethau mamolaeth gymryd sampl o waed y tad biolegol, yn ddelfrydol yr un pryd ag y bydd y fenyw yn cael ei sgrinio, neu o fewn tri diwrnod gwaith i'r fenyw'n cael ei chanlyniadau.
- (6) Os bydd profion mewnwthiol yn cael eu gwrthod, dylid trafod y cynnig am prawf newyddenedigol cynnar.

^j Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

Safon SCT 5

Os yw'n glir bod anhwylderau'r haemoglobin ar y fenyw, rhaid ei hatgyfeirio i gael gofal haematoleg/obstetrig ar y cyd o fewn chwe wythnos i'r dyddiad mae'r canlyniad yn cael ei gadarnhau.

Targed 100%

6.4 Cydsynio

Safon SCT 6

Mae caniatâd llafar ar sail gwybodaeth y fenyw yn ofynnol ar gyfer y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Cyn cynnal y prawf, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y fenyw:
 - yn deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo
 - nid oes angen rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio arni
 - yn rhoi ei chydysyniad llafar ar sail gwybodaeth i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y cydsyniodd iddo.
- (2) Os bydd gan y fenyw hanes teuluol o glefyd y crymangelloedd, thalasaemia, neu unrhyw haemoglobinopathi neu hydrops fatalis, rhaid cofnodi hyn ar adran manylion clinigol y cais. **Error! Bookmark not defined.**
- (3) Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf sgrinio am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir yn sail ar gyfer ei phenderfyniad.
- (4) Os yw'r fenyw yn fam fenthyg neu os yw'r beichiogrwydd wedi deillio o wy gan roddwr, dylid cynnig prawf sgrinio i'r fenyw er mwyn sicrhau ei bod yn cael y gofal mamolaeth gorau posibl. Rhaid cynnig sgrinio i'r tad biolegol hefyd.
- (5) Os yw'r fenyw wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn, mae'n debygol y bydd y canlyniadau'n adlewyrchu'r rhoddwr mêr esgyrn ac na fyddant yn cynrychioli'n gywir statws genetig y babi. Yn yr achosion hyn dylid profi tad biolegol y babi i sicrhau nad yw hwn yn feichiogrwydd risg uchel.

6.5 Cais am Brawf

Safon SCT 7

Rhaid ysgrifennu sgrinio cyn geni ar ffurflen y cais i'r labordy, a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu nodi ei fod dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.^k

Targed 100%

- (1) Mewn achos o eni plant ar ran pobl eraill, dylai'r fam fenthyg gael ei phrofi (er mwyn sicrhau'r gofal mamolaeth gorau posibl). Dylid cofnodi ei manylion demograffig a'r ffaith bod hwn yn feichiogrwydd drwy fam fenthyg ar y cais. Yn achos geni plant ar ran pobl eraill/defnyddio wy rhoddwr neu sberm rhoddwr, lle

^k Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

nad ellir asesu'r risg o anhwylder haemoglobinopathi yn gywir dylid cynnig atgyfeirio i AWMGS i gael asesiad risg cyn geni ar gyfer haemoglobinopathi.^k

- (2) Os yw'r beichiogrwydd yn deillio o wy gan roddwr, dylid sgrinio'r fenyw er mwyn darparu'r gofal mamolaeth gorau posibl. Rhaid cofnodi ei manylion demograffig, a'r ffaith bod hwn yn wy gan roddwr, ar y cais. Dylid profi tad biolegol y babi. Rhaid cynnig atgyfeirio i AWMGS i gael asesiad risg cyn geni os yw tad biolegol y babi'n cael canlyniad cludydd wedi'i gadarnhau.
- (3) Os yw'r beichiogrwydd yn deillio o sberm gan roddwr, dylid profi'r fam a'i manylion demograffig hi y dylid eu cofnodi ar y cais. Os yw'n sgrinio'n bositif, dylid cynnig atgyfeirio i AWMGS ar gyfer asesiad risg cynnedigol.
- (4) Os bydd mam y babi wedi cael trawsblaniad mêt esgyrn, dylid profi tad biolegol y babi. Dylid cofnodi ei fanylion demograffig ar y cais^l a dylai'r cais gynnwys manylion y fam a'r ffaith ei bod wedi cael trawsblaniad mêt esgyrn. Os bydd sampl y tad yn bositif, dylid gofyn am gyngor arbenigol gan AWMGS.

Safon SCT 8

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.^m

Targed 100%

- (1) Rhaid i gais electronig gofnodi llwybr archwilio clir sy'n nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais.

Safon SCT 9

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar gyfer y cais i'r labordy^l, gan gynnwys y 'sticer' cais am gwestiwn tarddiad teulu (FOQ) clefyd y crymangelloedd a thalasaemia SCG pan wneir ceisiadau.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gwneud cais am y prawf ofyn am un prawf yn unig:
 - cyfrif gwaed llawn a rhagor o brofion os oes angen yn dilyn haemoglobin cymedrig isel mewn cell (MCH) (ANTHAL) **neu**
 - cyfrif gwaed llawn a sgrinio crymangelloedd a thalasaemia (ANSCT) **neu**
 - cyfrif gwaed llawn yn unig (gwrthod crymangelloedd a thalasaemia) (ANDEC).
- (2) Er mwyn i'r labordy ddehongli'r canlyniad, dylid cynnwys y cais am y wlad y mae'r fenyw a'r tad biolegol yn hanu ohoni.^l

^l Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

^m Drwy lofnodi'r cerdyn cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am ddiben y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chydysniad ar sail gwybodaeth i'r prawf.

6.6 Trefn y Prawf

6.6.1 Cwestiwn Sgrinio Tarddiad Teulu SCG (FOQ SCG)

Safon SCT 10

Rhaid gofyn cwestiwn SCG am darddiad ei theulu (FOQ SCG) o safbwynt clefyd y crymangelloedd a thalasaemia i'r fenyw ym mhob beichiogrwydd a chyn 10^{+0} wythnos o feichiogrwydd. Rhoddir y FOQ hwn ym Mhrotocol 1 isod. Dylai'r person sy'n gofyn y cwestiwn gofnodi'r ymatebion i FOQ SCG ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Mae'r FOQ SCG yn gofyn y cwestiynau canlynol; bydd yr atebion yn penderfynu pa brawf sgrinio sy'n ofynnol.
 - a oes gan y fenyw neu dad biolegol y babi hanes teuluol o glefyd y crymangelloedd neu thalasaemia
 - a oes gan y fenyw neu dad biolegol y babi hanes teuluol o glefyd y crymangelloedd neu thalasaemia
 - a yw teulu'r fenyw neu'r tad biolegol yn hanu o unrhyw le y tu allan i'r DU neu Iwerddon, waeth sawl cenhedlaeth yn ôl
 - nid yw tarddiad teuluol y fenyw neu'r tad biolegol yn hysbys, e.e. mabwysiadu, wy rhoddwr, sberm rhoddwr, gan gynnwys IVF neu drawsblaniad mêr esgryn
 - os nad oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol, dylid cynnig sgrinio ar gyfer thalasaemia i'r fenyw
 - efallai y bydd y fenyw yn dewis peidio â datgelu'r tarddiad teuluol ond bydd yn dal i ofyn am sgrinio (byddai'r tarddiad teuluol yn cael ei ddogfennu fel anhysbys) neu gall hefyd wrthod yr holl brofion
 - rhaid i'r fydwraig ofyn y FOQ SCG er mwyn asesu a ddylid cynnig rhagor o brofion mewn labordy am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia os bydd un neu fwy o'r uchod yn berthnasol (FOQ SCG)
- (2) Os bydd canlyniad y fenyw yn ateb na i'r holl gwestiynau uchod, gall y fydwraig ddweud wrthi mai siawns isel sydd ganddi o gael babi â chlefyd y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol.
- (3) Dylid hysbysu'r fenyw os yw'r prawf sgrinio yn dangos ei bod yn cario clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia neu bod ganddi anhwylder haemoglobin, y bydd angen sgrinio'r tad biolegol er mwyn sicrhau'r asesiad risg beichiogrwydd mwyaf cywir.

Safon SCT 11

Os bydd y fenyw yn ateb na i'r holl gwestiynau yn FOQ SCG, rhaid cynnig cyfrif gwaed llawn a phrofion eraill iddi ar gyfer thalasaemia os yw'r prawf cyfrif gwaed llawn yn awgrymu thalasaemia posibl (h.y. haemoglobin cymedrig mewn cell (MCH) sy'n is na 27pg). Rhaid cofnodi hyn yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

Safon SCT 12

Rhaid i'r sampl gael ei chymryd cyn 12⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn geni cyn yr wythnos honno.

Targed 100%

- (1) Rhaid i fenywod sy'n cyflwyno ar gyfer gofal cyn geni cyn 12⁺⁶ wythnos gael cynnig sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia a chael hyn wedi'i gwblhau cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol cyn 10⁺⁰ wythnos.
- (2) Rhaid i fenywod sy'n dod i gael gofal cyn geni ar ôl 13⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd gael y prawf sgrinio hwn ar y cyfle cyntaf.
- (3) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.
- (4) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, a rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr i'r wybodaeth ar y cais a'r sampl.ⁿ
- (5) Os bydd y broses sgrinio (gan gynnwys sgrinio tad biolegol y babi os oes angen) yn cael ei chynnal yn unol â Safonau SCT 10, SCT 26 ac SCT 31, efallai byddai'n well gan fenyw sy'n awyddus i gael profion mewnwthiol gael prawf samplu filws corionig (CVS) yn lle amniosentesis.⁵

Safon SCT 13

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

6.7 Gwasanaethau Labordai

Safon SCT 14

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol, neu'n gweithio tuag at achrediad, yn unol â [Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig](#), a rhaid iddo gydymffurfio â [safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia](#).

Targed 100%

Safon SCT 15

Rhaid i'r prawf sgrinio a ddefnyddir gan y labordy ddilyn canllawiau'r GIG ([Rhaglen Sgrinio'r GIG ar gyfer Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia 2021](#)) ac algorithm SCG ar gyfer ardaloedd lle mae nifer yr achosion yn isel.

Targed 100%

- (1) Ni ddylai'r labordy gynnal prawf sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia os nad yw'r wybodaeth ar 'sticer' cais FOQ SCG ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia wedi'i chwblhau ar y cais.ⁿ

ⁿ Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

- (2) Rhaid i'r prawf ar gyfer anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia gael ei gynnal drwy ddefnyddio cromatograffi hylif effeithiol iawn neu ddulliau eraill a gymeradwywyd gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ([Rhaglen Sgrinio Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia'r GIG 2021](#)) yn dilyn cyfrif gwaed llawn (FBC). Os bydd y dadansoddiad yn dangos bod annormaledd, rhaid cynnal profion dilynol addas neu atgyfeirio i labordy cyfeirio er mwyn nodi'r annormaledd yn benodol, yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol.

Safon SCT 16

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 95%

Safon SCT 17

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy profi hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 95%

Safon SCT 18

Rhaid i'r labordy profi anelu at anfon y canlyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

- (1) Yn achos pob sampl sy'n cyrraedd y labordy, rhaid bod trefn ar waith er mwyn sicrhau bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Pan fydd y labordy'n cyhoeddi cais am ragor o brofion (gan gynnwys profion ar dad biolegol y babi), rhaid bod ganddo broses ar waith sy'n sicrhau bod sampl yn dod i law a bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi.
- (2) Rhaid i geisiadau i'r tad biolegol gael ei brofi gael eu hanfon drwy neges e-bost i'r cyfrif e-bost generig perthnasol. Os yw'r profion yn cael eu gwrthod neu os nad yw tad biolegol y babi ar gael, rhaid cofnodi hyn ar y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS). Rhaid cynnig asesiad risg AWMGS.
- (3) Os oes problem gyda'r cais a bod angen rhagor o wybodaeth, rhaid gofyn am hyn gan ddefnyddio blwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd^o
- (4) Rhaid cwblhau pob maes gorfodol; mae hyn yn cynnwys FOQ SCG. Rhaid i'r cais am prawf adlewyrchu cydsyniad FOQ ar gyfer y prawf y gofynnwyd amdano.

6.8 Trin y Canlyniadau

Safon SCT 19

Os nad y labordy lleol oedd yn gwneud y profion ar y sampl, rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adroddiad terfynol gael ei awdurdodi gan y labordy a wnaeth y profion.

Targed 95%

^o Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

Safon SCT 20

Rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad terfynol ei ryddhau gan y labordy lleol, neu iddo.

Targed 95%

- (1) Rhaid i'r canlyniadau gael eu hanfon at y tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi'r canlyniad fel arfer i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n holi dros y ffôn, oni bai fod arwydd clir o angen clinigol sy'n effeithio ar unwaith ar y gwaith o reoli'r gofal.

Safon SCT 21

Os bydd haemoglobin cymedrig y gell (MCH) yn is na 27pg ar ganlyniad y prawf cyfrif gwaed llawn ac mae'r fenyw wedi gwrthod prawf sgrinio, dylid cynnig ail brawf sgrinio am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia iddi pan fydd canlyniadau'r prawf cyfrif gwaed llawn yn cael eu hesbonio fel rhan o'r llwybr gofal cyn geni. Rhaid cofnodi hyn yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Os bydd y fenyw'n derbyn prawf sgrinio, dylai'r fydwraig gymryd y sampl a nodi bod y prawf yn un 'Cyfrif gwaed llawn a phrawf sgrinio am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia'. Dylai'r fydwraig ddogfennu ar y cais bod yr 'MCH cychwynnol yn llai na 27pg'.^p

Safon SCT 22

Rhaid bod gan y gwasanaeth mamolaeth broses ysgrifenedig ddi-feth y cytunwyd arni er mwyn nodi a mynd ar drywydd canlyniadau nad ydynt wedi cyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

Safon SCT 23

Rhaid bod proses ysgrifenedig y cytunwyd arni ar waith i nodi a mynd ar drywydd achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu ragor o wybodaeth.

Targed 100%

Safon SCT 24

Rhaid i fenywod gael eu hysbysu am unrhyw ganlyniad nad oes angen camau gweithredu pellach arno gan y gwasanaeth mamolaeth yn yr apwyntiad cyn geni 16 wythnos. Rhaid i'r canlyniadau gael eu cofnodi ar Gofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Os nad oes unrhyw rai o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr y bwrdd iechyd lleol fel y nodwyd yn Safon SCT 22.
- (2) Os bydd y fenyw wedi comesgor rhwng casglu'r sampl a chael y canlyniadau, rhaid rhoi'r canlyniadau i'r fenyw yn unol â llwybr y bwrdd iechyd lleol.

^p Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

- (3) Rhaid rhoi cofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod y canlyniad wedi'i drafod gyda'r fenyw yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (4) Rhaid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.
- (5) Rhaid hysbysu'r fenyw bod y siawns y bydd hi'n cael babi â chlefyd y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn isel iawn.
- (6) Os nad yw'r apwyntiad cyn geni wyneb yn wyneb, rhaid gwneud cofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod y canlyniadau unigol wedi'u trafod gyda'r fenyw yn y nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd.
- (7) Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

Safon SCT 25

Os yw'r sampl wedi'i chymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd, rhaid rhoi canlyniadau nad oes angen camau gweithredu pellach arnynt o fewn tair wythnos i'r adeg y cymerwyd y sampl. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y caiff y fenyw ei hadolygu gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Targed 100%

- (1) Rhaid rhoi cofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod y canlyniad wedi'i drafod gyda'r fenyw yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (2) Rhaid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

6.9 Canlyniad Positif i Brawf Sgrinio'r Fam am Glefyd y Crymangelloedd neu Thalasaemia

Safon SCT 26

Dylid rhoi gwybod i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi' enwi) am ganlyniad positif o fewn un diwrnod gwaith i'r labordy awdurdodi'r adroddiad terfynol.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad i flwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod gwaith i lunio'r adroddiad.

Safon SCT 27

Rhaid rhoi'r canlyniad i'r fenyw o fewn tri diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd y canlyniad ar gael.

Targed 95%

- (1) Dylid trefnu i'r fenyw ddychwelyd i'r clinig cyn geni er mwyn cael ei chanlyniad.
- (2) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (3) Os yw'n briodol, dylid gofyn i dad biolegol y babi ddod i'r clinig cyn geni gyda'r fenyw.
- (4) Mewn achosion lle mae'r fenyw'n gludydd genyn clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia, neu fod ganddi anhwylder ar yr haemoglobin, rhaid iddi gael

gwybodaeth ysgrifenedig^q a llafar am ei diagnosis. Dylai gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ddweud wrthi fod y siawns fod ei babi wedi etifeddu clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn dibynnu ar y posibilrwydd fod tad biolegol y babi hefyd yn gludydd genyn clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia.

Safon SCT 28

Os oes anhwylder yr haemoglobin ar y fenyw, rhaid ei hatgyfeirio i gael gofal haematoleg/obstetrig ar y cyd a'i hadolygu o fewn chwe wythnos.

Targed 100%

Safon SCT 29

Os yw'r fenyw'n awyddus i gael gwybod am lefel y risg i'r babi, rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth ofyn am gydsyniad y fenyw cyn cynnig prawf sgrinio am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia i dad biolegol y babi. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru gyfan.

Targed 100%

- (1) Os yw'r fenyw'n gwybod bod anhwylder yr haemoglobin arni, rhaid dweud wrthi bod sgrinio tad biolegol y babi'n ofynnol cyn gallu rhoi'r asesiad mwyaf cywir o'r risg i'r beichiogrwydd.
- (2) Os yw tad biolegol y babi eisoes wedi cael prawf sgrinio, rhaid iddo gael cyfle i gael ail brawf sgrinio a dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol am ganlyniadau'r prawf blaenorol ar y cais. ^r

Safon SCT 30

Os yw tad biolegol y babi'n rhoi ei gydsyniad, rhaid gwneud trefniadau i'r gwasanaeth mamolaeth gymryd sampl o fewn tri diwrnod gwaith.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r cydlynnydd sgrinio cyn geni gydlynw'r canlyniadau a rhoi unrhyw wybodaeth angenrheidiol i'r labordy er mwyn sicrhau bod canlyniad prawf y tad biolegol ar gael i'w ystyried gyda chanlyniad y fenyw.
- (2) Rhaid i'r sampl gael ei nodi'n glir â'r geiriau 'brys' a dylid hysbysu'r labordy bod y sampl ar y ffordd.
- (3) Os bydd tad biolegol y babi'n cael prawf sgrinio ac mae'r canlyniad yn dangos ei fod yn gludydd genyn clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia neu fod anhwylder yr haemoglobin arno, bydd lefel y risg i'r babi yn dibynnu ar y rhyngweithio posibl rhwng amrywiolynnau haemoglobin penodol y rhieni.
- (4) Os bydd tad biolegol y babi'n cael prawf sgrinio ac mae'r canlyniad yn dangos nad yw'n gludydd clefyd y crymangelloedd na thalasaemia, gall gweithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi cael ei hyfforddi'n briodol ddweud wrth y fenyw fod y siawns yn isel iawn yn y beichiogrwydd hwn y gallai'r babi fod wedi'i effeithio gan glefyd y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol ac nad yw profion mewnwthiol cyn geni yn cael eu hargymell.

^q Gwybodaeth cyn geni i fenywod ar haemoglobinopathi penodol os ydynt ar gael gan SCG, AWMGS neu gydlynwyr sgrinio.

^r Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig.

- (5) Dylid cynghori'r fenyw hefyd y bydd angen asesu'r risg i unrhyw feichiogrwydd yn y dyfodol cyn iddi feichiogi neu cyn gynted ag y bydd hi'n gwybod am y beichiogrwydd os oes partner gwahanol ganddi erbyn hynny. Bydd yn bosibl gwneud yr asesiad o'r risg mewn canolfan clefyd y crymangelloedd a thalasaemia neu drwy ei meddyg teulu.

Safon SCT 31

Os nad yw tad biolegol y babi ar gael, neu os yw'n gwrthod prawf neu ail brawf, neu os nad yw'r fenyw'n rhoi ei chydsyniad i'r staff gysylltu â'r tad, rhaid cynnig asesiad risg. Dylid cychwyn yr asesiad risg o fewn tri diwrnod gwaith gan y Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan a'i gwblhau cyn gynted â phosibl, i gynghori'r gwasanaeth mamolaeth am y risg i'r babi. Rhaid i'r asesiad hwn fod yn seiliedig ar darddiad teuluol y fenyw a'r tad biolegol.

Targed 100%

- (1) Bydd y cwnselydd genetig yn llenwi ffurflen canlyniad cyn geni yn dilyn asesiad risg. Bydd y ffurflen hon yn cael ei dychwelyd i'r atgyfeiriwr i ddiweddarau'r cofnod clinigol cyn geni electronig/Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan ac anfonir copi i'r labordy haemoglobinopathi yn Ysbyty Athrofaol Cymru.
- (2) Lle y bo'n briodol bydd y fenyw yn cael cynnig profion mewnwthiol cyn geni gan AWMGS. Os yw'r prawf mewnwthiol yn negatiff yna ni fydd profion pellach yn angenrheidiol e.e. profion newyddenedigol cynnar.
- (3) Rhaid cynnig gwneud prawf am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia ar y babi newyddenedigol yn unol â Safon SCT 35.

Safon SCT 32

Os yw'r fam a thad biolegol y babi yn gludwyr clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia neu os oes ganddynt anhwylderau haemoglobin rhaid eu hatgyfeirio i Wasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS) o fewn pum diwrnod gwaith i'r gwasanaethau mamolaeth yn derbyn y canlyniad.

Targed 100%

- (1) Bydd AWMGS yn asesu'r risg i'r babi ac yn llenwi ffurflen canlyniad cynenedigol yn dilyn yr asesiad risg ar gyfer y tîm mamolaeth a newyddenedigol.
- (2) Lle y bo'n briodol bydd y fenyw yn cael cynnig profion mewnwthiol cyn geni gan AWMGS.
- (3) Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf mewnwthiol cyn geni, dylid cynnig profion am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia newyddenedigol yn unol â Safon SCT 35.

Safon SCT 33

Pan fydd y fenyw'n derbyn y cynnig o brawf mewnwthiol cyn geni, rhaid i'r prawf hwn gael ei gynnig cyn gynted â phosibl ac o fewn pum diwrnod gwaith os yw'r fenyw wedi cyrraedd y cam yn ei beichiogrwydd sy'n briodol ar gyfer y prawf ymwithiol mae wedi'i ddewis.

Targed 100%

- (1) Er mwyn hwyluso'r broses o ddehongli'r canlyniadau ar gyfer gwneud haemoglobinopathi, rhaid anfon gyda'r sampl mewnwthiol o'r prawf CVS neu'r

amniosentesis sampl 10ml o waed y fam mewn potel EDTA a dynnwyd yr un diwrnod â'r weithdrefn.

- (2) Mae sampl o waed tad biolegol y babi'n ofynnol hefyd, os yw'r tad ar gael.
- (3) Os cynhelir gweithdrefn amniosentesis, bydd angen 20ml o hylif amniotig ar y labordy.
- (4) Dylai adrodd canlyniadau yn dilyn diagnosis cynenedigol gael ei ddarparu gan AWMGS neu'r ymgynghorydd arweiniol yn uned meddygaeth y ffetws.
- (5) Yn dilyn diagnosis cynenedigol bydd y fenyw a'i phartner yn cael eu cefnogi a darperir gwybodaeth iddynt wneud dewis personol a gwybodus mewn perthynas â'r canlyniadau.

6.10 Cynllun Gofal

Safon SCT 34

Rhaid i gynllun gofal priodol gael ei ddatblygu gan y tîm amlddisgyblaethol a rhaid dogfennu hyn yn y nodiadau ysbyty/system TG a Chofnod Mamolaeth Cymru Gyfan gyda chydsyniad y fenyw.

Targed 100%

- (1) Bydd angen cymorth parhaus ar y fenyw gan fydwraig wedi'i henwi, a dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni fod yn cydlynu'r holl drefniadau'r gofal mamolaeth.
- (2) Os oes angen gwasanaethau cyfieithu, rhaid eu trefnu ym mhob apwyntiad yn y clinig cyn geni.

6.11 Gofal Ôl-enedigol

Safon SCT 35

Os daeth yn amlwg bod siawns uchel gan y babi o etifeddu clefyd y crymangelloedd neu fath arall o anhwylder arwyddocaol ar yr haemoglobin, rhaid bod trefniadau ar waith i'r babi gael adolygiad gan bediatregydd o fewn 24 awr i'r geni.

Targed 100%

- (1) Bydd hyn yn cynnwys:
 - achosion lle mae'r fam yn gludydd neu fod anhwylder arni neu lle mae'n anhysbys, ond lle nad oes canlyniad ar gyfer tad biolegol y babi
 - i eithrio canlyniadau lle nad yw profi tad biolegol y babi wedi'i argymhell, e.e. os yw'r fam ag alffa thalasaemia posibl +/- diffyg haearn
 - lle mae mam a thad biolegol y babi ill dau yn gludwyr neu bod anhwylder ar haemoglobin y ddau
 - lle nad oes canlyniad prawf sgrinio ar gael ar gyfer y fam a bod ei theulu hi neu deulu'r tad biolegol yn hanu o rywle y tu allan i'r DU neu Iwerddon
 - lle nad oes canlyniad prawf sgrinio ar gael ar gyfer mam y babi a bod ei chyfrif gwaed llawn yn dangos MCH sy'n llai na 27pg beth bynnag fo cefndir y teulu ac nid yw wedi'i phrofi fel rhan o'r llwybr sgrinio cyn geni.

- (2) Rhaid i gofnod o'r canlyniad, cynnig profion newyddenedigol cynnar ac adolygiad pediatrig o'r babi gael eu cofnodi yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan/system famolaeth TG.
- (3) Gellir dod o hyd i'r llwybr newyddenedigol ar gyfer ymchwilio i anhwylderau haemoglobinopathi a'u hatgyfeirio yn y babi newydd-anedig yn y [SharePoint Newyddenedigol](#).

Safon SCT 36

Rhaid cynnig profion newyddenedigol os oes gan y babi siawns uchel o etifeddu clefyd y crymangelloedd neu fath arall o anhwylder arwyddocaol ar yr haemoglobin.

Targed 100%

- (1) Rhaid bod pob bwrdd iechyd wedi rhoi polisi ar waith ar gyfer penderfynu pa fabanod newydd-anedig a ddylai gael cynnig prawf newyddenedigol ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia, a rhaid bod llwybr gofal wedi'i greu ar gyfer rheoli'r babanod hyn.
- (2) Nid yw gwaed y llinyn yn addas ar gyfer y prawf hwn, y sampl sy'n ofynnol yw 0.3-1ml o waed, mewn potel EDTA pediatrig.
- (3) Rhaid i'r prawf gwaed hwn gael ei gynnal cyn prawf smotyn gwaed newydd-anedig y babi, ac yn ogystal â'r prawf hwnnw.
- (4) Nid yw profion newyddenedigol cynnar yn ofynnol i gadarnhau canlyniad prawf mewnwithiol cyn geni.
- (5) Ni ddylai'r fam a'r babi sy'n barod i gael eu trosglwyddo i ofal cymunedol gael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ganlyniadau'r profion hyn.

7.0 Sgrinio Cyn Geni ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau

Datganiad Polisi

Dylid cynnig sgrinio cyn geni ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i bob menyw feichiog i nodi menywod y gall fod gan eu babi un o'r cyflyrau hyn (UK NSC 2016; UK NSC 2019; NICE 2021; CIC 2003).

Syndrom Down (Trisomedd 21/T21)

Syndrom Down yw'r cyflwr cromosomaidd mwyaf cyffredin ac mae'n cael ei achosi gan bresenoldeb deunydd genetig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phâr 21 o'r cromosomau. Mae'n digwydd ar y cyfan tua unwaith ym mhob 424 beichiogrwydd yng Nghymru.^s Mae nifer yr achosion ohono'n cynyddu wrth i'r fam fynd yn hŷn.

Syndrom Edwards (Trisomedd 18/T18)

Mae Syndrom Edwards yn cael ei achosi gan bresenoldeb deunydd genetig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phâr 18 o'r cromosomau. Mae'r cyflwr hwn yn digwydd mewn tuag un o bob 1562 beichiogrwydd yng Nghymru.^t Mae nifer yr achosion ohono'n cynyddu wrth i'r fam fynd yn hŷn. Mae syndrom Edwards yn cyfyngu ar fywyd.

Syndrom Patau (Trisomedd 13/T13)

Mae Syndrom Patau yn cael ei achosi gan bresenoldeb deunydd genetig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phâr 13 o'r cromosomau. Mae'r cyflwr hwn yn digwydd mewn tuag un o bob 3803 beichiogrwydd yng Nghymru.^u Mae nifer yr achosion ohono'n cynyddu wrth i'r fam fynd yn hŷn. Mae syndrom Patau yn cyfyngu ar fywyd.

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Os oes syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau ar y babi, gall y fenyw wneud dewis personol a gwybodus ynghylch a ddylid parhau â'r beichiogrwydd. Dylid gwneud trefniadau i nodi canfyddiadau uwchsain annisgwyl eraill, e.e. cyflyrau'r galon, a dylid cynnig rheolaeth a chymorth priodol.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Bydd menywod sy'n cael babi â syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau yn gorfod gwneud dewisiadau personol ar sail gwybodaeth am eu beichiogrwydd.

Yr Opsiynau o ran Prawf Sgrinio

Mae'r prawf sgrinio sydd ar gael ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn cynnwys defnyddio mesuriadau uwchsain o'r ffetws a phrawf gwaed sy'n chwilio am farcwyr biocemegol er mwyn cyfrannu at y broses o gyfrifo'r siawns o syndrom Down, neu ganlyniad ar y cyd ar gyfer syndrom Edwards/syndrom Patau yn y beichiogrwydd. Mae'r prawf cyfun hwn yn defnyddio mesuriad uwchsain i asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fam, ynghyd â mesuriad o gasgliad hylif ar gefn gwddf y ffetws (prawf tryloywder y gwegil neu NT) a chanlyniadau'r marcwyr biocemegol i roi canlyniad siawns i'r fenyw ar gyfer syndrom Down, a chanlyniad siawns ar y cyd ar gyfer

^s [Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddu Cynhenid](#) CARIS (2022)

^t [Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddu Cynhenid](#) CARIS (2022).

^u [Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddu Cynhenid](#) CARIS (2022).

syndrom Edwards/syndrom Patau yn ystod beichiogrwydd sengl a beichiogrwydd efeilliaid yn gynnar yn y beichiogrwydd.

Gall menywod â beichiogrwydd sengl neu efeilliaid ddefnyddio'r canlyniad hwn i benderfynu a ydynt yn dymuno derbyn neu wrthod y cynnig o brawf sgrinio pellach a elwir yn brawf cynenedigol anfewnwithiol (NIPT), sy'n brawf sgrinio mwy cywir, neu fel arall, gweithdrefn fewnwithiol (CVS neu amniosentesis) er mwyn galluogi diagnosis o'r cyflwr y mae'r canlyniad prawf sgrinio wedi bod yn uwch/siawns uwch ar ei gyfer.

Os bydd hi'n rhy hwyr i fenyw gael ei sgrinio yn ystod y tri mis cyntaf neu os nad oes modd mesur yr NT, y prawf sgrinio sy'n cael ei argymhell yn ystod yr ail gyfnod o dri mis yw'r prawf pedwarplyg. Mae'r prawf hwn yn defnyddio mesuriad uwchsain i asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fam, ynghyd â chanlyniadau'r marcwyr biocemegol ar gyfer syndrom Down yn unig yn ystod beichiogrwydd sengl hyd at 18⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd.

- (1) Dim ond pan mae'r mesuriad o'r corun i'r pen ôl (CRL) rhwng 45.0mm ac 84.0mm (rhwng tua 11⁺² wythnos ac 14⁺¹ wythnos) y mae'n bosibl gwneud y prawf sgrinio yn ystod y tri mis cyntaf (y prawf cyfun) mewn beichiogrwydd sengl a gefeilliaid. Bydd hyn yn rhoi canlyniad ar gyfer syndrom Down a chanlyniad ar y cyd ar gyfer syndrom Edwards/syndrom Patau.
- (2) Dim ond ar samplau a gafodd eu cymryd rhwng 15⁺⁰ wythnos ac 18⁺⁰ wythnos y gall Labordy Biocemeg Caerdydd a'r Fro gynnal prawf sgrinio yr ail gyfnod o dri mis (y prawf pedwarplyg). Dim ond mewn beichiogrwydd sengl y gellir cynnal y prawf hwn a bydd ond yn rhoi canlyniad ar gyfer syndrom Down.
- (3) Yn dilyn canlyniad siawns uwch o'r profion uchod, mae'n bosibl i fenywod â beichiogrwydd sengl neu efeilliaid:
 - barhau heb gael unrhyw brofion eraill
 - dewis cael prawf sgrinio arall, mwy cywir, o'r enw prawf NIPT (os yw canlyniad y prawf NIPT yn dangos siawns uwch, bydd prawf mewnwithiol yn ofynnol yw'r fenyw yn dymuno cael diagnosis pendant)
 - dewis gweithdrefn fewnwithiol.

7.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon DEP 1

Rhaid cynnig a chyfeirio pob menyw feichiog at lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG sydd ar gael ar wefan SCG.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (3) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir, h.y. ar ffurf print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall gwasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol.
- (4) Rhaid i'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir gwybodaeth i'r fenyw.

Safon DEP 2

Rhaid i'r fydwraig drafod y prawf ar lafar gyda'r fenyw am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw am gael y prawf a rhaid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Lle mae gan y fenyw iaith wahanol neu os oes ganddi anghenion cyfathrebu gwahanol, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat hygrych. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, gall copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, hawdd ei ddeall, sain neu wasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio diben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y sgrinio hwn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael dewis personol ar sail gwybodaeth.
- (3) Rhaid i'r fydwraig esbonio i'r fenyw bod syndrom Down (T21) yn gyflwr genetig gydol oes. Mae ansawdd bywyd pobl sydd â syndrom Down (T21) yn gallu bod yn dda. Gall rhai pobl â syndrom Down (T21) fyw'n eithaf annibynnol tra bod angen lefelau uwch o gymorth ar eraill. Bydd gan bob unigolyn â syndrom Down (T21) rywffaint o anabledd dysgu. Bydd gan bobl â syndrom Down (T21) heriau iechyd.
- (4) Rhaid i'r fydwraig esbonio i'r fenyw y bydd pobl â syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) yn dioddef oedi gwybyddol ac oedi o ran eu datblygiad ynghyd ag amrywiaeth o anawsterau iechyd, y gall rhai ohonynt fod yn ddifrifol iawn. Gallant gael cyflwr gyda'r galon, anawsterau gyda llyncu a bwyta, ffitiau ac anawsterau anadlu gan gynnwys apnoea. Mae syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) yn cyfyngu ar fywyd. Efallai y bydd gan unigolyn â mathau mosäig neu rannol o syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) anawsterau iechyd llai difrifol.

- (5) Rhaid dweud wrth y fenyw os bydd canlyniad ei phrawf cyfun neu bedwarplyg yn ei rhoi yn y categori 'siawns uwch', bydd yn cael yr opsiwn i gael y prawf NIPT neu weithdrefn fewnwithiol.
- (6) Rhaid hysbysu'r fenyw, os bydd y prawf NIPT yn dangos siawns isel, ni chynigir unrhyw brofion pellach iddi ond os yw'r NIPT yn dangos siawns uwch, cynigir y weithdrefn fewnwithiol iddi.
- (7) Rhaid esbonio'r risg o gamesgoriad sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn fewnwithiol cyn geni.
- (8) Os oes syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13) ar aelod o deulu'r fenyw, dylid holi a yw'r fenyw'n gwybod pa fath o gyflwr sydd arno. Bydd tueddiad yn y teulu o drawsleoliad yn y cromosomau'n cynyddu'r risg o etifeddu syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau. Os nad yw'n glir neu os oes mwy nag un aelod o'r teulu sydd â'r cyflwr, rhaid cynnig atgyfeirio i Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS). Efallai y bydd AWMGS yn cynnig profion caryoteip neu NIPT i'r rhieni yn dibynnu ar hanes y teulu. Mae NIPT yn cael ei gynnig gan y GIG yng Nghymru ar gais Genomeg Glinigol Cynenedigol os yw'r canlynol yn wir. Dylid gwneud yr atgyfeiriad trwy lenwi [ffurflen atgyfeirio safonol Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan](#).
- (9) Os yw'r fenyw wedi cael diagnosis yn ystod beichiogrwydd blaenorol o syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13), dylid cynnig Profi Cynenedigol Heb Lawdriniaeth (NIPT) fel prawf sgrinio sylfaenol. [Dilynwch lwybr NIPT Cymru Gyfan](#) ar gyfer rheoli achosion blaenorol o T21, T18, T13. Dylid gwneud atgyfeiriad i glinig cyn geni mewn ysbyty bwrdd iechyd neu i Wasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS) cyn gynted â phosibl yn ystod beichiogrwydd i'r fenyw gael ei hopsiynau sgrinio. Dylid gwneud yr atgyfeiriad trwy ddefnyddio [ffurflen atgyfeirio safonol Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan](#).

7.2 Cynnig Prawf Sgrinio

Safon DEP 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13) i bob menyw â beichiogrwydd sengl neu efeilliaid cyn 10⁺⁰ wythnos o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i'r clinig ar gyfer gofal cyn geni cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) i fenywod. Os yw'r fenyw o fewn paramedrau'r cyfnod cario ar gyfer prawf cyfun, rhaid dweud wrth y fenyw y bydd y sonograffydd yn rhoi gwybod am hynny yn ystod yr apwyntiad sgan dyddio beichiogrwydd cynnar. Os bydd y fenyw y tu allan i'r paramedrau ar gyfer prawf cyfun (mae'r mesuriad CRL yn fwy na 84.0mm ar ddiwrnod y sgan) mewn beichiogrwydd sengl, bydd hi'n cael cyfle i gael prawf pedwarplyg i sgrinio ar gyfer syndrom Down yn unig. Bydd y sefyllfa'r un fath os nad yw'n bosibl gwneud mesuriad CRL a/neu NT.
- (2) Os yw naill ai'r fenyw, neu dad biolegol y baban wedi cael diagnosis o syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13) mewn beichiogrwydd blaenorol rhaid cynnig atgyfeiriad iddynt at AWMGS neu glinig cyn geni'r ysbyty i gael trafodaethau ar yr opsiynau sydd ar gael. [Dilynwch lwybr NIPT Cymru Gyfan](#) ar gyfer rheoli achosion blaenorol o T21, T18, T13. Rhaid i'r

fydwraig gymunedol/yn y clinig cyn geni lenwi'r [ffurflen atgyfeirio](#) hon (yn unol â'r protocol lleol) cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi cwnsela, sgan beichiogrwydd cynnar ac os NIPT yw'r prawf sy'n cael ei ddewis, gellir ei wneud ar ôl tua 10 wythnos o feichiogrwydd. Clinigau cyn geni ac AWMGS i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod apwyntiad y prawf sgrinio cyn geni yn cael ei drefnu, lle bo'n bosibl, ar adeg pan adroddir ar ganlyniad NIPT er mwyn osgoi'r angen i'r fenyw gael cynnig sgrinio cyfun yn ddiangen.

- (3) Rhaid i fenywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid drafod gyda'r gweithiwr proffesiynol a enwebwyd gan y bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio pan fydd rhywun yn disgwyl gefeilliaid cyn anfon sampl gwaed ar gyfer y prawf cyfun.
- (4) Mae'n bosibl cynnig y prawf sgrinio cyfun i fenyw sy'n feichiog gyda gefeilliaid, ond dim ond os yw'r mesuriad NT wedi'i gynnal. Bydd cywirdeb y prawf sgrinio yn lleihau yn yr achos hwn a rhaid hysbysu'r fenyw am hyn cyn iddi roi ei chydsyniad ar gyfer y prawf sgrinio.
- (5) Mae SCG wedi darparu gwybodaeth am gynnig [sgrinio ar gyfer syndrom Down \(T21\), syndrom Edwards \(T18\) a syndrom Patau \(T13\) ac NIPT pan fydd ail goden beichiogrwydd](#).
- (6) Mae menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni preifat yn dal yn gymwys i gael mynediad at sgrinio cyn geni GIG Cymru, a rhaid ei gynnig iddynt.

Safon DEP 4

Rhaid bod gan y bwrdd iechyd lwybr i fenywod sy'n cydsynio i gael prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) ac sydd yna'n cael eu hysbysu bod ganddynt feichiogrwydd gefeilliaid yn ystod eu sgan dyddio beichiogrwydd cynnar.

Targed 100%

- (1) Os bydd menyw yn cydsynio i'r prawf sgrinio gael ei gynnal ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) a'i bod yn cael gwybod wedi hynny ei bod yn disgwyl gefeilliaid yn ystod y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, bydd gan y bwrdd iechyd lwybr ar gyfer:
 - trefnu apwyntiad gyda'r gweithiwr proffesiynol a enwebwyd gan y bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio menyw sy'n feichiog gyda gefeilliaid
 - cymryd y mesuriadau NT cyn 14⁺²wythnos.
 - casglu'r sampl gwaed ar gyfer sgrinio cyn 14⁺² wythnos.
- (2) Dylai'r broses gwnsela cyn cynnal prawf [sgrinio gyda gefeilliaid](#) gynnwys gwybodaeth am:
 - a yw'r efeilliaid yn monochorionig neu'n dichorionig oherwydd bydd hyn yn effeithio ar ganlyniad y prawf sgrinio
 - rhaid cyflawni CRL digonol rhwng 45.0mm ac 84.0mm, ar gyfer pob ffetws, er mwyn gallu cynnal sgrinio cyfun
 - os mai dim ond un mesuriad NT a gafwyd, y bydd y canlyniad yn llai cywir na phe byddai'r ddau efaill yn cael eu mesur.
 - os na cheir y naill na'r llall o fesuriadau NT, ni fydd y prawf cyfun na'r prawf pedwarplyg yn cael ei gynnig mewn beichiogrwydd gefeilliaid, h.y. ni fydd sgrinio yn bosibl

- lle mae gan yr efeilliaid frych unigol mae posibilrwydd y gallai un efaill gael un o'r cyflyrau y sgrinnir ar ei gyfer ac nad oes gan un efaill unrhyw un o'r cyflyrau y sgrinnir ar ei gyfer
- os yw canlyniad y prawf cyfun yn siawns uwch, yna dyma'r opsiynau:
 - dim rhagor o brofion
 - NIPT
 - gweithdrefn fewnwithiol
- mae'r siawns o gamesgoriad yn sgil y weithdrefn fewnwithiol ymysg menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid bron yn dyblu o gymharu â beichiogrwydd sengl.
- mae angen cynnal gweithdrefnau mewnwithiol mewn canolfan lle bydd terfynu dewisol yn cael ei gynnal os bydd y fenyw'n penderfynu hynny.
- mae cynnal terfynu dewisol ar un efaill mewn beichiogrwydd yn gymhleth ac mae'n cynnwys risg o gamesgoriad a morbidrwydd i'r efaill arall.
- ni chynigir prawf sgrinio ar gyfer tripledi neu feichiogrwydd lluosog uwch.

7.3 Cydsynio

Safon DEP 5

Mae caniatâd llafar ar sail gwybodaeth y fenyw yn ofynnol ar gyfer y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
Targed 100%

- (1) Cyn cynnal y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, rhaid i'r sonograffydd ofyn a yw'r fenyw:
 - yn deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo
 - a oes angen rhagor o wybodaeth arni
 - yn rhoi ei chydsyniad llafar ar sail gwybodaeth i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y cydsyniodd iddo:
 - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar os yw'r fenyw wedi gwrthod sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13), neu
 - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar gan gynnwys mesur tryloywder y gwegil (NT) a chymryd sampl gwaed y fam os yw'r fenyw yn cydsynio i sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13).
- (2) Os nad yw'r fenyw yn deall neu wedi newid ei meddwl am y prawf sgrinio neu os yw am gael rhagor o wybodaeth:
 - dylai'r sonograffydd atgyfeirio'r fenyw yn ôl i'r fydwraig^v i drafod ei phenderfyniad a sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir yn sail ar gyfer ei phenderfyniad cyn bod y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar yn cael ei gynnal.
- (3) Rhaid i'r fydwraig gofnodi unrhyw drafodaethau pellach a newidiadau o ran penderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

^v Efallai y bydd gan rai sonograffwyr arbenigol, e.e. bydwaig sy'n sonograffydd, obstetregydd, feddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r amser i gynnal y drafodaeth hon gyda'r fenyw eu hunain.

7.4 Cais am Brawf

Safon DEP 6

Pan fydd menyw wedi derbyn y cynnig i gael prawf ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13), rhaid cofnodi cydsyniad y fenyw ar y cais am sgan uwchsain hefyd.

Targed 100%

- (1) Os bydd y fenyw'n cyflwyno'n brydlon, dylid trefnu'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar ar gyfer oddeutu 12 wythnos o'r cyfnod cario.

Safon DEP 7

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn Geni' ar y Cais i'r labordy am brawf ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) a rhaid hefyd nodi' enw'r clinigydd arweiniol neu ei nodi fel achos sydd dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon DEP 8

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol am brawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) wrth lenwi cerdyn cais labordy sgrinio.

Targed 100%

- (1) Rhaid bod sgan uwchsain wedi cael ei wneud i gadarnhau ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw, a rhaid cynnwys y mesuriadau sy'n ofynnol ar y cerdyn cais. Yn achos y prawf cyfun, rhaid cynnwys mesuriadau CRL ac NT a naill ai mesuriad CRL neu fesuriad o gylchedd y pen (HC) ar gyfer prawf pedwarplyg.
- (2) Os yw'r fenyw wedi cael triniaeth IVF, rhaid rhoi'r wybodaeth hon i'r labordy. Os yw'r beichiogrwydd yn deillio o wy rhodd, rhaid cynnwys oed y rhoddwr hefyd.
- (3) Rhaid cynnwys pwysau cywir y fenyw hefyd, yn ddelfrydol ar yr un diwrnod â'r dyddiad y cymerwyd y sampl, ond nid mwy nag wythnos cyn hynny.
- (4) Rhaid cofnodi tarddiad teulu'r fenyw (y genhedlaeth 1af a'r 2il genhedlaeth), hanes o ddiabetes a therapi inswlin ar ochr teulu'r fam a [statws smygu](#) ar gerdyn y cais oherwydd bydd hyn yn effeithio ar gywirdeb y canlyniad.
- (5) O ran menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid, rhaid cofnodi a yw'r beichiogrwydd yn un monochroionig, dichorionig neu'n anhysbys oherwydd bydd hyn yn cael ei addasu ar gyfer y cyfrifiad siawns.
- (6) Gellir cynnal prawf sgrinio cyfun mewn beichiogrwydd gefeilliaid os yw'r canlynol yn wir:
 - mae CRL digonol rhwng 45.0mm ac 84.0mm yn cael ei gyflawni ar gyfer pob ffetws
 - dim ond un NT sydd wedi'i fesur.
 - rhaid nodi mesuriadau ar y cerdyn cais.

- (7) Rhaid darparu rhif DQASS y sonograffydd sy'n mesur yr NT ar gyfer sgrinio cyfun ar y cerdyn cais.

Safon DEP 9

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.^w

Targed 100%

- (1) Rhaid i gais electronig gofnodi llwybr archwilio clir sy'n nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais.

7.5 Trefn y Prawf Gwaed

Safon DEP 10

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.
- (2) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, a rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr i'r wybodaeth ar y cerdyn cais a'r sampl.
- (3) Dim ond pan mae'r mesuriad CRL rhwng 45.0mm ac 84.0mm (rhwng tua 11⁺² wythnos ac 14⁺¹ wythnos) y mae'n bosibl gwneud y prawf sgrinio yn ystod y tri mis cyntaf (y prawf cyfun).
- (4) O ran menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid, rhaid i'r mesuriad CRL ar gyfer y ddau efaill fod rhwng 45.0mm ac 84.0mm (tua 11⁺² wythnos ac 14⁺¹ wythnos), ac wedi'i nodi ar y cerdyn cais, er mwyn gallu cynnal y prawf cyfun.
- (5) Dim ond ar feichiogrwydd sengl a samplau a gafodd eu cymryd rhwng 15⁺⁰ wythnos ac 18⁺⁰ wythnos y gall Labordy Biocemeg Caerdydd a'r Fro gynnal prawf sgrinio yr ail gyfnod o dri mis (y prawf pedwarplyg). Os caiff y sampl ei chymryd rhwng 15⁺⁰ wythnos a 15⁺² wythnos neu 17⁺⁵ wythnos ac 18⁺⁰ wythnos, ffoniwch y labordy i sicrhau y bydd y sampl yn cael ei derbyn.
- (6) Yn achos samplau sy'n cael eu prosesu yn Labordy Biocemeg Caerdydd a'r Fro, mae'n ofynnol cael 3ml o waed o wythien gan ei roi mewn tiwb rhannu serwm. Os oes mwy nag un sampl o waed yn cael ei chymryd ar yr un pryd, rhaid cymryd sampl ar gyfer y prawf am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn gyntaf gan fod posibilrwydd i'r EDTA o gynwysyddion gwaed eraill halogi'r sampl ac effeithio ar y canlyniad.

^w Drwy lofnodi'r cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am ddiben y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chydysniad ar sail gwybodaeth i'r prawf.

7.6 Gwasanaethau Labordai

Safon DEP 11

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol, neu'n gweithio tuag at achrediad, yn unol â [Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig](#), a rhaid iddo gydymffurfio â [safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni, cyfun a phedwarplyg](#).

Targed 100%

Safon DEP 12

Rhaid i'r labordy gyflwyno data sgrinio i DQASS o leiaf dwywaith y flwyddyn.

Targed 100%

Safon DEP 13

Rhaid i uwch aelod penodol o staff y labordy sydd ar lefel ymgynghorydd (naill ai gwyddonydd clinigol neu batholegydd cemegol) ac sydd wedi cael profiad perthnasol ym maes sgrinio, dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol am bob agwedd ar waith sgrinio'r labordy ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13).

Targed 100%

Safon DEP 14

Rhaid i'r labordy gymryd rhan mewn archwiliad o'r gwasanaeth sgrinio a rhaid iddo roi gwybodaeth, fel y bo'n ofynnol, i SCG.

Targed 100%

Safon DEP 15

Rhaid i'r gyfradd ganfod a'r gyfradd canlyniad positif anghywir ar gyfer rhaglenni sgrinio syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) gael eu monitro. Rhaid defnyddio prawf pedwarplyg sy'n gallu cyrraedd safon ofynnol o 80% fel cyfradd ganfod ar gyfer cyfradd sgrinio positif o 4%, a phrawf cyfun gyda chyfradd ganfod o 80% ar gyfer cyfradd sgrinio positif o 3%

Targed 100%

Safon DEP 16

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 95%

- (1) Dylai'r gwaith o baratoi a chludo'r sampl ddilyn trefniadau gweithredu safonol a argymhellir gan Labordy Biocemeg Caerdydd a'r Fro.

Safon DEP 17

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy profi hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei chymryd.

Targed 100%

Safon DEP 18

Rhaid i'r labordy profi anelu at anfon y canlyniadau o fewn tri diwrnod gwaith ar gyfer sgrinio cyfun i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

Safon DEP 19

Rhaid i'r labordy profi anelu at anfon y canlyniadau o fewn pedwar diwrnod gwaith ar gyfer sgrinio pedwarplyg i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

7.7 Trin y Canlyniadau

Safon DEP 20

Rhaid i'r canlyniad ar gyfer sgrinio cyfun fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn tri diwrnod gwaith i'r sampl yn cyrraedd y labordy profi a phedwar diwrnod gwaith ar gyfer sgrinio pedwarplyg.

Targed 95%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad i flwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod i lunio'r adroddiad.

Safon DEP 21

Rhaid sicrhau bod proses ddi-feth ysgrifenedig y cytunwyd arni er mwyn nodi a mynd ar drywydd canlyniadau nad ydynt wedi cyrraedd y gwasanaeth mamolaeth o fewn tri diwrnod gwaith.

Targed 100%

- (1) Os bydd y sampl yn cael ei chymryd ar yr adeg iawn ond nid yw'r labordy'n gallu rhoi canlyniad, oherwydd gwall wrth ddilyn y llwybr sgrinio, rhaid i'r fenyw gael cyfle i drafod y dewisiadau amgen. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am y gwall gwblhau adroddiad DATIX ac mae ganddo gyfrifoldeb i ddarparu prawf amgen i'r fenyw (bydd cost i'r bwrdd iechyd os yw'r prawf amgen yn NIPT).
 - Os yw'r prawf a ddewisir yn brawf pedwarplyg, a bod y gwall yn cael ei nodi cyn bod y fenyw yn 20⁺⁰ wythnos o feichiogrwydd, yna dylai'r bwrdd iechyd gysylltu â'r labordy biocemeg lleol, a fydd yn rhoi manylion am labordai eraill, a fydd yn dadansoddi'r sampl ac yn llunio adroddiad.
 - Os dewisir y prawf NIPT i'w brosesu yn labordy Genomeg Cymru Gyfan, rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ffonio'r labordy i'w hysbysu y bydd sampl y 'tu allan i'r llwybr sgrinio' yn cael ei hanfon.
 - Os mai NIPT yw'r prawf o ddewis a gyflawnir fel prawf sylfaenol, yna dylid rhoi gwybod i'r fenyw am gyflawni NIPT fel prawf sylfaenol. Mae hyn yn wahanol i gyflawni NIPT fel prawf amodol. Noder: Nid yw SCG yn paratoi gwybodaeth i fenywod sy'n cael cynnig NIPT fel prawf sgrinio sylfaenol. Dylai'r drafodaeth fod rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol^x sydd â sgiliau a gwybodaeth berthnasol.

^x Gweithiwr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnig NIPT fel prawf sgrinio sylfaenol.

Safon DEP 22

Rhaid bod gan y gwasanaethau mamolaeth drefn ysgrifenedig y cytunwyd arni i nodi a mynd ar drywydd achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu ragor o wybodaeth.

Targed 100%

Safon DEP 23

Rhaid i fenywod gael eu hysbysu am ganlyniadau siawns is gan y gwasanaeth mamolaeth yn ystod ei hymweliad 16 wythnos â'r clinig cyn geni a rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Os yw'n ganlyniad siawns is, rhaid hysbysu'r fenyw mai siawns is sydd ganddi o gael babi â syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13) ac nad argymhellir ei bod hi'n cael rhagor o brofion. Gellir rhoi canlyniad y prawf sgrinio serwm (sy'n cael ei gyfleu fel siawns o 1 o bob XXX ar gyfer syndrom Down (T21) a siawns o 1 o bob xxx ar gyfer syndrom Edwards (T18)/syndrom Patau (T13) i'r fenyw os bydd hi'n gofyn am y wybodaeth.
- (2) Rhaid rhoi cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniadau gyda'r fenyw yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (3) Os nad yw'r apwyntiad cyn geni hwn wyneb yn wyneb, rhaid gwneud cofnod wedi'i ddyddio a'i lofnodi bod y canlyniadau unigol wedi'u trafod gyda'r fenyw yn y nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd.
- (4) Rhaid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

Safon DEP 24

Os yw'r sampl wedi'i chymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd, rhaid rhoi'r canlyniadau o fewn tair wythnos i'r adeg y cymerwyd y sampl. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y caiff y fenyw ei hadolygu gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Targed 100%

- (1) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniad gyda'r fenyw a'i gynnwys yn nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd.
- (2) Rhaid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

7.7.1 Canlyniad Siawns Uwch o syndrom Down(T21), neu syndrom Edwards (T18)/syndrom Patau (T13)(siawns o 1 mewn 2 i 1 mewn 150)

Safon DEP 25

Yn achos menyw sydd wedi cael canlyniad siawns uwch yn dilyn y prawf sgrinio cyfun neu bedwarplyg, rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth ei hysbysu am y canlyniad o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 90%

- (1) Rhaid hysbysu'r fenyw drwy lythyr neu alwad ffôn (yn unol â threfniadau'r bwrdd iechyd lleol a/neu ddewis y fenyw) y nodwyd ei bod yn y grŵp o fenywod sydd yn y grŵp siawns uwch. Rhaid cynnig apwyntiad i'r fenyw i drafod y canlyniad yn unol â Safon DEP 26.
- (2) Fel arfer, ni ddylid rhoi'r canlyniad ar benwythnosau neu ar brynhawn dydd Gwener oni bai bod y fenyw fynediad at weithiwr iechyd proffesiynol a chanddo'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol.

Safon DEP 26

Rhaid gwneud apwyntiad i'r fenyw drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni, neu weithiwr iechyd proffesiynol arall sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas o fewn 24 awr ar ôl rhoi'r canlyniad.

Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb i dafod y canlyniadau hyn.
- (2) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (3) Pan fydd y canlyniad siawns uwch yn gysylltiedig â mesuriad NT o 3.5mm neu uwch, rhaid cynnig gweithdrefn fewnwithiol. Os bydd y fenyw'n gwrthod gweithdrefn fewnwithiol, gellir cynnig NIPT ond dylid hysbysu'r fenyw mai dim ond canlyniad ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) fydd yr NIPT yn ei ddarparu, ac y bydd y weithdrefn fewnwithiol yn arwain at brawf arae polymorffedd niwcleotid unigol (SNP) sy'n darparu rhagor o wybodaeth am gyflyrau genetig.
- (4) Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth gywir a chyfoes am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13).
- (5) Rhaid hysbysu'r fenyw bod ganddi ddewis o brawf NIPT sy'n brawf sgrinio pellach neu CVS/amniosentesis sy'n brofion mewnwithiol neu ddim profion pellach ac y bydd yn derbyn cefnogaeth beth bynnag fydd ei phenderfyniad.
- (6) Ni ellir cynnig NIPT:
 - os bu 2il goden neu ffetws ([beichiogrwydd gefail sydd wedi neu sydd yn diflannu](#)) ar unrhyw adeg yn ystod y beichiogrwydd hwn
 - os oes malaenedd mamol
 - os oes gan y fenyw newidiadau cromosomaidd sy'n cynnwys cromosomau 13, 18 a 21
 - os yw'r fenyw wedi cael trallwysiad gwaed yn y pedwar mis diwethaf
 - os yw'r fenyw wedi cael trawsblaniad
- (7) Rhaid hysbysu'r fenyw os bydd canlyniad y prawf NIPT yn dangos siawns isel, ni fydd yn cael cynnig rhagor o brofion ond os bydd canlyniad y prawf NIPT yn siawns uchel, bydd yn cael cynnig gweithdrefn fewnwithiol.

- (8) Rhaid i fenywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid sy'n cael canlyniad sgrinio cyfun siawns uwch gael eu hatgyfeirio i'r gweithiwr iechyd proffesiynol a enwebwyd gan y bwrdd iechyd i drafod yr opsiynau ar gyfer NIPT neu weithdrefn fewnwithiol mewn beichiogrwydd gefeilliaid.
- Os bydd menyw yn gofyn am brawf mewnwithiol, rhaid trefnu apwyntiad mewn uned lle gellir cynnal terfynu dewisol o feichiogrwydd, os bydd y canlyniad yn rhoi diagnosis o gyflwr cromosomaidd i'r babi a bod y fenyw yn dewis peidio â pharhau â'r beichiogrwydd.
- (9) Rhaid defnyddio llenyddiaeth SCG '[Mae'r wybodaeth hon i chi os ydych wedi cael cynnig mwy o brofion ar gyfer cyflyrau cromosomaidd posibl](#)' i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.^y Mae'r llenyddiaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am [Gymdeithas Syndrom Down](#) (DSA), Support Organisation for Trisomy 13 and Trisomy 18 ([SOFT UK](#)) a'r elusen [Antenatal Results and Choices](#) (ARC).

7.8 NIPT

7.8.1 Cydsynio ar gyfer NIPT

Safon DEP 27

Mae angen cydsyniad llafar ar sail gwybodaeth y fenyw ar gyfer NIPT a rhaid cofnodi hyn yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol sydd â sgiliau a gwybodaeth addas gael trafodaeth lafar am NIPT gyda'r fenyw cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'n dymuno cael y prawf. Dylid:
- hysbysu'r fenyw am ddiben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision yr NIPT
 - hysbysu'r fenyw os bydd canlyniad yr NIPT yn siawns isel yna ni chynigir profion pellach iddi ond os yw'r NIPT yn siawns uchel, cynigir gweithdrefn fewnwithiol iddi
 - hysbysu'r fenyw na chynhelir prawf NIPT yn dilyn canlyniad sgrinio siawns uwch ar ôl 20⁺⁰ wythnos o feichiogrwydd.

7.8.2 Cais am Brawf

Safon DEP 28

Rhaid cwblhau pob maes gorfodol ar gyfer cais labordy am brawf sgrinio NIPT.

Targed 100%

- (1) Os bydd prawf cyfunol neu bedwarplyg wedi'i ddarparu o unrhyw le gwahanol i labordy Biocemeg Caerdydd a'r Fro, rhaid cynnwys copi o'r adroddiad labordy gyda'r cais hwn.

^y Mae gwybodaeth [ysgrifenedig](#) i fenywod ar ffurf copïau caled a digidol ar gael gan SCG.

Safon DEP 29

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.

Targed 100%

7.8.3 Gweithdrefn Prawf Gwaed NIPT

Safon DEP 30

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.
- (2) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, a rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr i'r wybodaeth ar y cais a'r sampl.
- (3) Rhaid i'r sampl NIPT gynnwys o leiaf 10ml o waed. Rhaid ei gasglu mewn tiwb sefydlogi celloedd arbenigol (Streck). Os na lwyddir i lenwi'r botel gyntaf, gellir defnyddio un arall ac anfon y ddwy i'r labordy gyda'i gilydd. Ar ôl casglu'r sampl, rhaid eu gwrthdroi 8-10 gwaith er mwyn cynnal sefydlogrwydd y gwaed.
- (4) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl anfon neges e-bost i Labordy Genomeg Cymru Gyfan i roi gwybod iddynt bod y sampl ar ei ffordd i'r labordy.

7.8.4 Trin Samplau

Safon DEP 31

Rhaid i'r sampl gael ei derbyn gan Labordy Genomeg Cymru Gyfan o fewn pum diwrnod i gymryd y sampl.

Targed 95%

- (1) Rhaid i'r gwaith o baratoi a chludo'r sampl ddilyn y [Trefniadau Gweithredu Safonol](#) a argymhellir gan Labordy Genomeg Cymru Gyfan.
- (2) Ni ddylid rhoi'r sampl NIPT mewn oergell neu rewgell. Ni ddylai'r sampl gael ei hallgyrchu.
- (3) Rhaid anfon y sampl a'r cerdyn cais wedi'i gwblhau i Labordy Genomeg Cymru Gyfan, yn ddelfrydol ar y diwrnod y caiff y sampl ei gymryd. Bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd y prawf yn aflwyddiannus oherwydd bod DNA y ffetws wedi dadelfennu yn y sampl.
- (4) Os caiff samplau eu cludo yn uniongyrchol o wasanaethau mamolaeth i Labordy Genomeg Cymru Gyfan rhaid iddynt fodloni gofynion [cyfarwyddiadau pacio P650 UN](#).

7.8.5 Gwasanaethau Labordai

Safon DEP 32

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol, neu'n gweithio tuag at achrediad yn unol â [Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig](#), a rhaid iddo gydymffurfio â [safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni, cyfun a phedwarplyg](#).

Targed 100%

Safon DEP 33

Rhaid bod uwch aelod o staff dynodedig y labordy, ar lefel meddyg ymgynghorol, sydd â phrofiad perthnasol o sgrinio, yn bennaf gyfrifol am holl agweddau gwasanaeth sgrinio NIPT y labordy.

Targed 100%

Safon DEP 34

Rhaid i'r labordy gymryd rhan mewn archwiliad o'r gwasanaeth sgrinio a darparu gwybodaeth, fel y bo'n ofynnol, i SCG a'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddu Cynhenid (CARIS).

Targed 100%

Safon DEP 35

Rhaid i Labordy Genomeg Cymru Gyfan geisio cyflawni amser cwblhau 10 diwrnod calendr o'r amser y derbynnir y sampl yn y labordy i gyflwyno'r canlyniadau i'r bwrdd iechyd.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad i flwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod calendr i lunio'r adroddiad.

7.8.6 Trin y Canlyniadau

Safon DEP 36

Rhaid sicrhau bod proses ddi-feth ysgrifenedig y cytunwyd arni er mwyn nodi a mynd ar drywydd canlyniadau nad ydynt wedi cyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

- (1) Dylai'r cydlynnydd sgrinio cyn geni, neu ddirprwy wedi'i enwi, gydlynw'r broses o ddelio â chanlyniadau wrth iddynt gael eu derbyn drwy'r blwch e-bost generig perthnasol.

Safon DEP 37

Rhaid bod gan y gwasanaethau mamolaeth drefn ysgrifenedig y cytunwyd arni i nodi a mynd ar drywydd lle mae'r labordy wedi gofyn am ragor o wybodaeth.

Targed 100%

7.8.7 Canlyniadau Siawns Isel NIPT

Safon DEP 38

Rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth hysbysu menywod sydd wedi cael canlyniadau NIPT siawns isel ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) o fewn un diwrnod gwaith ar ôl i'r gwasanaethau mamolaeth dderbyn y canlyniad.

Targed 100%

- (1) Rhaid hysbysu menywod bod canlyniad NIPT siawns isel ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd gan y babi'r cyflyrau y sgrinnir amdanynt.
- (2) Rhaid hysbysu'r fenyw na chynigir unrhyw brofion pellach.
- (3) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniad gyda'r fenyw a'i gynnwys yn nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd.

Safon DEP 39

Rhaid cofnodi'r canlyniad yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd y fenyw yn derbyn adolygiad gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Targed 100%

7.8.8 Canlyniadau Siawns Uchel NIPT neu Ddim Canlyniad

Safon DEP 40

Rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth hysbysu menywod â chanlyniadau NIPT siawns uchel ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl i'r gwasanaethau mamolaeth dderbyn y canlyniad.

Targed 90%

- (1) Rhaid hysbysu'r fenyw dros y ffôn (neu drwy ddull o'i dewis) bod ganddi ganlyniad siawns uchel.
- (2) Ni ddylid rhoi'r canlyniad fel arfer ar benwythnosau neu brynhawn Gwener oni bai bod gan y fenyw fynediad at weithwyr iechyd proffesiynol a all drafod y canlyniad a rhoi gwybodaeth gywir iddi am CVS ac amniosentesis.
- (3) Ni fydd tua 0.3% o fenywod yn cael canlyniad o'r NIPT ac mae'r rhain ychydig yn fwy tebygol o fod â babi sydd ag un o'r cyflyrau y sgrinnir amdanynt. Rhaid bod gan y bwrdd iechyd broses ar waith i sicrhau bod menywod nad ydynt yn cael canlyniad yn cael cynnig gweithdrefn fewnwtiol.
- (4) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniad gyda'r fenyw a'i gynnwys yn nodiadau mamolaeth/system TG y bwrdd iechyd os yw'r drafodaeth yn rhithwir.

Safon DEP 41

Rhaid gwneud apwyntiad i'r fenyw drafod y canlyniad gyda'r cydlynnydd sgrinio cyn geni, neu weithiwr iechyd proffesiynol arall sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas, o fewn 24 awr ar ôl rhoi'r canlyniad.

Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig yr apwyntiad wyneb yn wyneb er mwyn trafod y canlyniadau hyn.
- (2) Rhaid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.
- (3) Rhaid hysbysu'r fenyw nad yw canlyniad siawns uwch yn brawf diagnostig a rhaid cynnig amniosentesis er mwyn cadarnhau'r canlyniad.
- (4) Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth gywir a chyfoes am y syndrom y cafwyd canlyniad siawns uchel ar ei gyfer.
- (5) Rhaid defnyddio llenyddiaeth SCG '[Mae'r wybodaeth hon i chi os ydych wedi cael cynnig mwy o brofion ar gyfer cyflyrau cromosomaidd posibl](#)' i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol. ^z Mae'r llenyddiaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am [Gymdeithas Syndrom Down](#) (DSA), Support for Trisomy 13 and 18 ([SOFT UK](#)) a'r elusen [Antenatal Results and Choices](#) (ARC).

Safon DEP 42

Rhaid cynnig prawf mewnwthiol i bob menyw sydd â chanlyniad sgrinio siawns uchel yn dilyn NIPT.

Targed 100%

- (1) Mae angen i'r drafodaeth gynnwys gwybodaeth am y canlynol:
 - gweithdrefnau mewnwthiol
 - y risg o gamesgoriad sy'n gysylltiedig â gweithdrefn fewnwthiol (RCOG 2021)
 - Adwaith Cadwynol Fflworoleuedd-Polymesarau (QF-PCR) a'r wybodaeth y bydd y canlyniad yn ei darparu
 - unrhyw wybodaeth arall y bydd y fenyw yn gofyn amdani, i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch gweithdrefn fewnwthiol cyn geni
 - lle mae'r canlyniad o feichiogrwydd gefeilliaid:
 - sydd wedi arwain at frych unigol mae posibilrwydd y gallai un efaill gael un o'r cyflyrau y sgrinnir amdanynt ac nad oes gan un efaill unrhyw un o'r cyflyrau y sgrinnir amdanynt
 - mae'r siawns o gamesgoriad yn sgil y weithdrefn fewnwthiol ymysg menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid bron yn dyblu o gymharu â beichiogrwydd sengl.
 - mae angen cynnal gweithdrefnau mewnwthiol mewn canolfan lle bydd terfynu dewisol yn cael ei gynnal os bydd y fenyw'n penderfynu hynny.
 - mae cynnal terfynu dewisol ar un efaill mewn beichiogrwydd yn gymhleth ac mae'n cynnwys risg o gamesgoriad a morbidrwydd i'r efaill arall.
- (2) Dylai'r fydwraig drafod hefyd y dewisiadau beichiogrwydd yn dilyn gweithdrefn fewnwthiol os yw'r canlyniad yn dangos bod gan y babi un o'r cyflyrau hyn. Mae'r

^z Mae [gwybodaeth](#) ysgrifenedig i fenywod ar ffurf copïau caled a digidol ar gael gan SCG.

rhain yn cynnwys parhau â'r beichiogrwydd neu derfynu'r beichiogrwydd. Rhaid cynnig cefnogaeth i fenywod beth bynnag yw eu dewis.

- (3) Dylid trafod terfynu beichiogrwydd. Os yw'r beichiogrwydd yn fwy na 21⁺⁶ wythnos, dylid cynnwys ffetysladdiad yn y drafodaeth hon ([RCOG 2011](#)).
- (4) Dylid sicrhau bod gan y fenyw amser digonol i deimlo'n gyfforddus ynglŷn â gwneud penderfyniad (o leiaf 24 awr fel arfer) p'un a yw'n derbyn neu'n gwrthod gweithdrefn fewnwithiol cyn geni ai peidio.
- (6) Rhaid defnyddio llenyddiaeth SCG '[Mae'r wybodaeth hon i chi os ydych wedi cael cynnig mwy o brofion ar gyfer cyflyrau cromosomaidd posibl](#)' i lywio'r drafodaeth rhwng y fenyw a'r gweithiwr iechyd proffesiynol.^{aa} Mae'r llenyddiaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am [Gymdeithas Syndrom Down](#) (DSA), Support for Trisomy 13 and 18 ([SOFT UK](#)) a'r elusen [Antenatal Results and Choices](#) (ARC).

Safon DEP 43

Rhaid gwneud cofnod cyfoes, wedi'i ddyddio a'i lofnodi yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gynlluniwyd ac a weithredwyd mewn ymateb i'r canlyniad NIPT siawns uchel.

Targed 100%

- (1) Pan fydd y fenyw yn penderfynu peidio â chael rhagor o brofion ar ôl canlyniad NIPT siawns uchel, dylid cynnig cyfle iddi gyfrannu at y broses o gynllunio ei gofal yn ystod y beichiogrwydd, a allai gynnwys cael cynnig arbenigeddau, fel pediatregwyr, bydwagedd arbenigol bwydo ar y fron, timau llawfeddygol, sefydliadau cymorth, ac ati.

7.9 Gweithdrefnau Mewnwithiol

Safon DEP 44

Pan fydd gweithdrefn fewnwithiol yn cael ei derbyn, rhaid ei chynnig cyn gynted â phosibl ac o fewn pum diwrnod gwaith os yw'r fenyw wedi cyrraedd y cyfnod cario ar gyfer ei dewis.

Targed 100%

Safon DEP 45

Rhaid gwneud cofnod cyfoes, wedi'i ddyddio a'i lofnodi yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gynlluniwyd ac a weithredwyd ar gyfer menywod â siawns uchel o gael babi â syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13).

Targed 100%

- (1) Pan fydd y fenyw yn penderfynu parhau â'r beichiogrwydd ar ôl diagnosis o syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) neu syndrom Patau (T13), dylid cynnig cyfle i'r fenyw gyfrannu at y broses o gynllunio ei gofal yn y beichiogrwydd, a allai gynnwys arbenigeddau perthnasol, fel pediatregwyr, bydwagedd arbenigol bwydo ar y fron, timau llawfeddygol, sefydliadau cymorth ac ati.

^{aa} Mae gwybodaeth [ysgrifenedig](#) i fenywod ar ffurf copïau caled a digidol ar gael gan SCG.

8.0 Sgrinio Cyn Geni - Uwchsain

Datganiad Polisi

Dylid cynnig sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a sgan uwchsain anomaledd y ffetws i bob menyw feichiog sy'n byw yng Nghymru (NICE 2021).

Sgan Dyddio Beichiogrwydd Cynnar

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Mae'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar yn cael ei gynnig er mwyn asesu a yw'r beichiogrwydd yn hyfyw, ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw ac a oes mwy nag un ffetws (nifer y ffetwsau, p'un a yw'r brych yn cael ei rannu ac edrychiad y goden). Efallai fod modd dod o hyd i rai mathau o anomaleddau difrifol yn y ffetws, ond nid dyna yw prif ddiben y sgan hwn. Bydd angen gwneud mesuriadau er mwyn asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw cyn gwneud prawf sgrinio am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) a rhaid gwneud mesuriad ychwanegol os yw'r sgan cyn 14^{+2} wythnos o feichiogrwydd (uchafswm CRL 84mm). Pan fydd prawf sgrinio am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) ar gael yn ystod y tri mis cyntaf o'r beichiogrwydd, bydd y fenyw yn cael canlyniad cynharach i'r prawf sgrinio.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Cadarnhau bod y beichiogrwydd yn hyfyw, cyfrifo'n gywir ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw a nodi a oes mwy nag un ffetws yno er mwyn hwyluso'r gwaith o reoli'r beichiogrwydd a'r rhaglenni sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13).

Sgan Uwchsain Anomaledd y Ffetws

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Diben y sgan uwchsain anomaledd y ffetws yw sgrinio ar gyfer anomaleddau arwyddocaol yng nghorff y ffetws sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd y fam neu'r babi a lle mae ymyriad effeithiol ar gael ar ei gyfer a bod cyfiawnhad dros ei ddefnyddio yn ystod 18^{+0} wythnos i 20^{+6} wythnos o'r beichiogrwydd.

Yn achos rhai cyflyrau, mae triniaeth ar gael yn ystod y cyfnod cyn geni neu ar ôl y geni, i wella iechyd y babi. Yn achos cyflyrau eraill, gellir nodi'r cyflwr drwy sganio uwchsain ond nid oes triniaeth ar gael. Gall menywod wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a ydynt yn dymuno parhau â'r beichiogrwydd. Bydd cymorth priodol yn cael ei gynnig pa bynnag ddewis a wneir.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Canfod anomaleddau arwyddocaol yng nghorff y babi er mwyn hwyluso ymyriadau priodol a dewis personol ar sail gwybodaeth a chynllunio eu gofal ar gyfer y beichiogrwydd ac atgyfeirio i arbenigeddau perthnasol.

8.1 Safonau Cyffredinol ar gyfer Sganiau Dyddio Beichiogrwydd Cynnar a Sganiau Uwchsain Anomaledd y Ffetws

8.1.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon US 1

Rhaid cynnig a chyfeirio pob menyw feichiog at lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG sydd ar gael ar wefan SCG.

Targed 100%

- (1) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.
- (2) Rhaid i'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni SCG yn cael copi caled.
- (3) Lle mae gan fenywod angen gwahanol o ran iaith neu gyfathrebu, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir, h.y. ar ffurf print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain neu gall wasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol.
- (4) Rhaid i'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir gwybodaeth i'r fenyw.

Safon US 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a'r sgan uwchsain anomaledd y ffetws cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw am gael y prawf a rhaid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

- (1) Lle mae gan y fenyw iaith wahanol neu os oes ganddi anghenion cyfathrebu gwahanol, rhaid i'r fydwraig sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, gall copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, hawdd ei ddeall, sain neu wasanaeth dehongli cymeradwy fod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio diben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y sganiau uwchsain hyn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.
- (3) Pan fydd menywod yn dymuno cael sgan dyddio beichiogrwydd cynnar neu sgan anomaledd y ffetws ond nid ydynt yn awyddus i gael gwybod am unrhyw annormaleddau sy'n dod i'r amlwg, rhaid dweud wrthynt y bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi am yr holl ganfyddiadau sydd i'w gweld ar y sgan.
- (4) Pan fydd prawf sgrinio am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) ar gael yn ystod tri mis cyntaf beichiogrwydd, rhaid cyrraedd y safonau a'r protocolau yn Adran 7 o'r ddogfen hon hefyd.

8.1.2 Cynnig Sganiau Uwchsain

Safon US 3

Rhaid cynnig sgrinio uwchsain i bob menyw feichiog cyn 10⁺⁰ wythnos o feichiogrwydd os bydd y fenyw yn cyflwyno i gael gofal cynenedigol cyn y cyfnod hwnnw. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
Targed 100%

- (1) Mae'r cynnig hwn yn cynnwys y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar rhwng 11⁺² wythnos ac 14⁺¹ wythnos o feichiogrwydd a sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng 18⁺⁰ wythnos a 20⁺⁶ wythnos o feichiogrwydd.
- (2) Dylai menyw sy'n dod i gael gofal cyn geni'n hwyrach yn y beichiogrwydd gael cynnig sgan uwchsain sy'n briodol i'r cam yn y cyfnod cario mae'r fydwraig yn tybio ei bod hi wedi'i gyrraedd ar y pryd.
- (3) Mae menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni preifat yn dal yn gymwys i gael mynediad at sgrinio cyn geni GIG Cymru, a rhaid ei gynnig iddynt.

8.1.3 Cydsyniad

Safon US 4

Mae cydsyniad llafar ar sail gwybodaeth y fenyw yn ofynnol ar gyfer y sganiau uwchsain hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
Targed 100%

- (1) Cyn cynnal y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, rhaid i'r sonograffydd ofyn a yw'r fenyw:
 - yn deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo
 - a oes angen rhagor o wybodaeth arni
 - yn rhoi ei chydsyniad llafar ar sail gwybodaeth i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y cydsyniodd iddo:
 - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar os yw'r fenyw wedi gwrthod sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13), neu
 - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar gan gynnwys mesur tryloywder y gwegil (NT) a chymryd sampl gwaed y fam os yw'r fenyw yn cydsynio i sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13).
- (2) Os nad yw'r fenyw yn deall neu wedi newid ei meddwl am y prawf sgrinio neu os yw am gael rhagor o wybodaeth:
 - dylai'r sonograffydd atgyfeirio'r fenyw yn ôl i'r fydwraig^{bb} i drafod ei phenderfyniad a sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir yn sail ar gyfer ei phenderfyniad cyn bod y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar yn cael ei gynnal.

^{bb} Efallai y bydd gan rai sonograffwyr arbenigol, e.e. bydwaig sy'n sonograffydd, obstetregydd, feddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r amser i gynnal y drafodaeth hon gyda'r fenyw eu hunain.

- (3) Rhaid i'r fydwraig gofnodi unrhyw drafodaethau pellach a newidiadau o ran penderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

8.1.4 Cais am Brawf

Safon US 5

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn geni' ar ffurflen y cais am sgan, a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu nodi ei fod yn ofal dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon US 6

Rhaid cynnwys ar y cais am sgan uwchsain neu yn y cais electronig y wybodaeth ddemograffig gywir a'r wybodaeth glinigol berthnasol.

Targed 100%

- (1) Rhaid i geisiadau am sgan uwchsain gynnwys gwybodaeth am unrhyw faterion obstetrig, meddygol a chymdeithasol perthnasol a allai effeithio ar les y ffetws gan gynnwys:

- unrhyw feichiogrwydd blaenorol lle'r oedd annormaleddau, er enghraifft, namau ar y tiwb niwral ac anomaleddau ar y galon
- unrhyw hanes sydd yn y teulu o annormaleddau cynhenid
- p'un a oes diabetes ar y fam
- epilepsi (ac enw'r feddyginiaeth os yw'r fam yn ei chymryd)
- BMI uchel
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

- (2) Rhaid i'r cais am sgan nodi a yw'r fenyw wedi cydsynio i'r canlynol:

- sgan dyddio beichiogrwydd cynnar
- sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13)
- sgan uwchsain anomaledd y ffetws.

Safon US 7

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cais a'i lofnodi.^{cc}

Targed 100%

- (1) Rhaid i gais electronig gofnodi llwybr archwilio clir sy'n nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais.

^{cc} Drwy lofnodi'r cais am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am ddiben y sgan, a'i bod wedi rhoi ei chydsyniad ar sail gwybodaeth i'r sgan.

8.1.5 Gwasanaethau Uwchsain

Safon US 8

Dim ond sonograffydd sydd wedi cael ei hyfforddi'n briodol, neu sonograffydd sydd dan hyfforddiant a dan oruchwyliaeth sonograffydd arall, a rhaid iddo wneud sganiau uwchsain ar gyfer profion sgrinio cyn geni. ⁶

Targed 100%

- (1) Sonograffwyr sy'n cymryd rhan mewn sgrinio cyn geni ac sydd ar hyn o bryd wedi cofrestru gyda'u corff proffesiynol/cyrff rheoleiddio a'u rheoleiddio ganddynt, e.e. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC/y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- (2) Rhaid i'r rhai nad ydynt yn gallu cael eu cofrestru gyda chorff proffesiynol/eu rheoleiddio gan gorff proffesiynol (h.y. y rhai sydd wedi cwblhau rhaglen uwchsain mynediad uniongyrchol mewn addysg uwch) gael eu henwi ar gofrestr llywodraethu'r bwrdd iechyd a chael arweinydd llywodraethu penodedig ar gyfer sganiau uwchsain.⁷

Safon US 9

I gymryd rhan mewn sgrinio cyfun rhaid bod y sonograffydd wedi llwyddo mewn asesiad. Rhaid bod sonograffwyr wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Cymorth Sicrhau Ansawdd Sgrinio ar gyfer Syndrom Down (DQASS) a rhaid iddynt gymryd rhan mewn asesiadau cyson gan arweinydd NT eu bwrdd iechyd neu gydlynnydd uwchsain SCG.

Targed 100%

- (1) Rhaid i bob sonograffydd, fel isafswm, gyrraedd safon foddhaol mewn asesiad ddwywaith y flwyddyn o dair set o leiaf o bâr o ddelweddau CRL ac NT gyda'u harweinydd NT a enwyd.
- (2) Rhaid i bob sonograffydd lenwi'r Adnodd Sgrinio Tri Mis Cyntaf i Sonograffwyr ac adnodd e-ddysgu SCG ar brofion syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau bob dwy flynedd a rhaid i arweinydd NT y bwrdd iechyd wirio a yw'n cydymffurfio â'r gofynion.
- (3) Rhaid i'r adroddiad bob chwe mis i'r DQASS ddangos p'un a yw sonograffydd wedi cyrraedd statws baner werdd neu ambr cyn y gall y sonograffydd barhau i wneud y profion sgrinio cyfun.
- (4) Os oes gan sonograffydd lai na 25 o barau o fesuriadau yn yr adroddiad chwe misol i DQASS (baner wen), gall y sonograffydd barhau i gynnal profion cyfun. Ond os bydd y sonograffydd hwnnw'n cyflawni llai na 25 o barau o fesuriadau yn y cyfnod o chwe mis yn olynol, ystyrir bod statws baner y sonograffydd yn goch a rhaid iddo gael ei ailasesu a bydd rhaid i'r arweinydd NT roi cynllun gweithredu ar waith ar ei gyfer.
- (5) Rhaid cynnwys enw a rhif cofrestru DQASS y sonograffydd sy'n gwneud y mesuriad NT ar yr adroddiad sgan uwchsain. Rhaid rhoi rhif DQASS y sonograffydd ar y cerdyn cais am brawf gwaed.

Safon US 10

Os yw'r adroddiad i DQASS yn dangos bod statws baner y sonograffydd yn goch, dim ond dan oruchwyliaeth y gall y sonograffydd hwnnw wneud profion sgrinio uwchsain cyfun hyd nes y bydd wedi cael ei ailasesu. Rhaid i arweinydd y bwrdd iechyd ar brofion NT fynd ati ar y cyd â chydlynnydd rhaglen SCG i roi cynllun gweithredu ar waith ar ei gyfer.

Targed 100%

Safon US 11

Rhaid bod yr holl offer bydd y gwasanaethau mamolaeth yn eu defnyddio'n cyrraedd safon sy'n cydymffurfio â [manyleb peiriannau](#) SCG/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP).

Targed 100%

Safon US 12

Rhaid cofnodi canfyddiadau llawn y sgan uwchsain ar y modiwl adroddiadau sganiau uwchsain a rhaid i'r delweddau gael eu storio yn system storio delweddau electronig y bwrdd iechyd (PACS).⁸

Targed 100%

- (1) Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd yn defnyddio System Gwybodaeth Radioleg Cymru (WRIS) a adwaenir fel RadIS2 hefyd.
- (2) Rhaid defnyddio RadIS2 neu fodiwl adrodd obstetreg arall y cytunwyd arno i adrodd am bob sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a sgan uwchsain anomaledd y ffetws.
- (3) Rhaid creu adroddiad clir a chryno ar y sgan uwchsain a dylai'r person sy'n cynnal yr archwiliad uwchsain awdurdodi'r adroddiad uwchsain fel rhan annatod o'r archwiliad.
- (4) Mae'r adroddiad ar y sgan yn ddogfen gyfreithiol ac yn rhan o'r cofnodion meddygol. Rhaid cadw ffurf electronig yr adroddiad ar y sgan a delweddau a/neu'r ddolen sine sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac sy'n ofynnol er mwyn cofnodi'r sgan. Rhaid eu storio am 25 mlynedd.
- (5) Rhaid cofnodi manylion adnabod digonol, sy'n cynnwys y dyddiad a'r amser, ar bob un o'r delweddau sy'n berthnasol i'r fenyw.

8.1.6 Trefn y Prawf

Safon US 13

Rhaid cynnal y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar rhwng 11⁺² wythnos (CRL 45.0mm) ac 14⁺¹ wythnos (CRL 84.0mm) o'r beichiogrwydd. Rhaid cynnal sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng wythnos 18⁺⁰ ac wythnos 20⁺⁶ o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw yn cyflwyno i gael gofal cyn geni cyn yr adeg hon.

Targed 100%

- (1) Rhaid parchu anghenion preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a'r sgan uwchsain mewn ystafell lle mae modd gwarantu preifatrwydd.
- (2) Rhaid i'r sonograffydd gadarnhau manylion personol y fenyw, a sicrhau ei bod yn ymwybodol o ddiben y sgan uwchsain a'i bod wedi rhoi ei chydsyniad iddo gael ei gynnal.

8.1.7 Trin y Canlyniadau

Safon US 14

Os nad oes canfyddiadau sgan annisgwyl yn dilyn y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar neu uwchsain anomaledd y ffetws, rhaid i'r sonograffydd hysbysu'r fenyw a rhoi taflen wybodaeth berthnasol SCG iddi er mwyn esbonio canfyddiadau a chanlyniadau'r sgan uwchsain.

Targed 100%

- (1) Mae gwahanol daflenni ar gael i ategu'r canlyniad llafar.

Safon US 15

Rhaid cynnwys cofnod yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan yn nodi bod y sgan uwchsain wedi cael ei gynnal a rhaid cynnwys y canlyniad hefyd.

Targed 100%

- (1) Rhaid argraffu copi o'r adroddiad ar y sgan gan ei gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw ar yr adeg y mae'r sgan yn cael ei gynnal.

8.2 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sganiau Dyddio Beichiogrwydd Cynnar

8.2.1 Trefn y Prawf

Safon US 16

Rhaid i'r sgan gael ei drefnu a'i gynnal rhwng 11⁺² wythnos ac 14⁺¹ wythnos o'r beichiogrwydd, yn ddelfrydol ar ôl 12 wythnos os bydd y fenyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn.

Targed 100%

- (1) Dylai'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar gael ei gynnal y tu allan i'r abdomen.
- (2) Os yw'r CRL yn is llai na 45.0mm dylid cynnig apwyntiad am sgan arall.
- (3) Os yw'r arwyddion yn dangos y gallai sgan trawsweiniol fod yn briodol, dylid dilyn canllawiau a llwybrau'r bwrdd iechyd lleol, gan gynnwys y rhai ar ddihalogi mewnchwilyddion. Rhaid i'r rhain gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ac argymhellion cynhyrchwyr y mewnchwilyddion (NWSSP 2014).

Safon US 17

Rhaid defnyddio mesuriad o hyd y babi o'r corun i'r pen ôl (CRL) o hyd at 84.0mm i gyfrifo'r cam yn y beichiogrwydd. Mewn achosion lle mae'r mesuriad CRL yn fwy na 84.0mm, rhaid defnyddio mesuriad o gylchedd y pen (HC) i gyfrifo'r cam yn y beichiogrwydd (Loughna 2009).

Targed 95%

(1) Os na ellir cael CRL digonol:

- Os yw'r fenyw wedi cydsynio i sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) a bod yr HC yn hafal i 88mm neu'n fwy na hynny, dylid defnyddio'r HC i ddyddio'r beichiogrwydd (Loughna 2009). Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cynnal y prawf pedwarplyg.
- Os yw'r fenyw wedi gwrthod sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) yna dylai sonograffwyr gyfeirio at Loughna 2009 i gael canllawiau ar sut i ddyddio'r beichiogrwydd yn gywir.

Safon US 18

Fel safon ofynnol, rhaid i'r sonograffydd lunio adroddiad ar:

- P'un a yw'r beichiogrwydd yn y groth
- p'un a oes ffetws yno neu beidio
- p'un a yw'r beichiogrwydd yn hyfyw (hynny yw, mae calon i'w gweld yn curo)
- CRL(s) neu HC(s) fel y bo'n briodol
- Mesuriad(au) NT os yw'r fam wedi gofyn am brawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13)
- nifer y ffetysau, ac yn achos beichiogrwydd lluosog a yw'r ffetysau'n rhannu'r brych a beth yw edrychiad y goden
- unrhyw annormaledd sydd i'w weld yn y ffetws.

Targed 95%

(1) Rhaid bod gan y bwrdd iechyd ganllawiau ar ddelio â beichiogrwydd nad yw'n hyfyw a rhaid dilyn y polisi hwnnw yn achos unrhyw feichiogrwydd anhyfyw sy'n dod i'r amlwg yn ystod y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar ([NICE 2019](#)).

(2) Os yw'r fenyw wedi gofyn am brawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) ac na chafwyd mesuriadau NT neu os yw'r CRL yn fwy nag 84.0mm, rhaid cynnig prawf sgrinio yr ail gyfnod o dri mis iddi (prawf pedwarplyg) ar gyfer syndrom Down yn unig. Nid yw'r prawf pedwarplyg ar gael ar gyfer syndrom Edwards a syndrom Patau a dim ond mewn beichiogrwydd sengl y mae ar gael. Ni chynigir apwyntiad ar gyfer sgan arall er mwyn cael mesuriad NT cywir. Rhaid bod llwybr bwrdd iechyd lleol sy'n cynnig apwyntiadau ar gyfer y prawf pedwarplyg i fenywod.

Safon US 19

Rhaid bod gan y bwrdd iechyd lwybr i fenywod sy'n cydsynio i gael prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) ac sydd yna'n cael eu hysbysu bod ganddynt feichiogrwydd gefeilliaid yn ystod eu sgan dyddio beichiogrwydd cynnar. [Safon DEP 4](#).

Targed 100%

- (1) Dylai menywod, y mae'n hysbys eu bod yn disgwyl gefeilliaid cyn eu sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, fod wedi derbyn gwasanaeth cwnsela penodol ar gyfer sgrinio mewn beichiogrwydd gefeilliaid a'u bod wedi cydsynio i'r prawf sgrinio hwnnw cyn eu sgan. Dylai'r sonograffydd gadarnhau bod y fenyw wedi cydsynio.
- (2) Os bydd menyw yn cydsynio i'r prawf sgrinio gael ei gynnal ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) a'i bod yn cael gwybod wedi hynny ei bod yn disgwyl gefeilliaid ar adeg ei sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, bydd gan y bwrdd iechyd lwybr ar gyfer:
 - trefnu apwyntiad gyda'r gweithiwr proffesiynol a enwebwyd gan y bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio menyw sy'n feichiog gyda gefeilliaid
 - cwnsela penodol ar gyfer sgrinio mewn beichiogrwydd gefeilliaid a chydsynio i'r sgrinio hwnnw cyn y sgrinio
 - cymryd y mesuriadau NT cyn 14⁺² wythnos.
 - casglu'r sampl gwaed ar gyfer sgrinio cyn 14⁺² wythnos.
- (3) Nid yw'r prawf pedwarplyg ar gael ar gyfer beichiogrwydd gefeilliaid.
- (4) Ni ellir cynnig sgrinio cyfun mewn gefeilliaid os yw'r canlynol yn wir:
 - ni ellir cyflawni CRL digonol rhwng 45.0mm ac 84.0mm, ar gyfer pob ffetws
 - ni cheir y naill na'r llall o fesuriadau NT
- (5) Os mai dim ond un mesuriad NT a gafwyd, gellir cynnig prawf sgrinio cyfun ond bydd y canlyniad yn llai cywir.
- (6) Os yw'r CRL o dan 45.0mm dylid cynnig apwyntiad sgan pellach.
- (7) Mae SCG wedi darparu [gwybodaeth](#) am gynnig sgrinio cyfun ac NIPT pan fydd ail goden beichiogrwydd.

8.2.2 Canfyddiadau Annisgwyl yn y Sgan Dyddio Beichiogrwydd Cynnar

Safon US 20

Os bydd y beichiogrwydd yn mynd yn ei flaen ac mae anomaledd yn cael ei nodi neu ei amau, rhaid i'r sonograffydd drefnu cyfle i fydwraig neu obstetregydd sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas i drafod y canfyddiadau gyda'r fenyw o fewn 24 awr.

Targed 100%

- (1) Lle nodir neu amheuir canfyddiad annisgwyl, rhaid i'r sonograffydd ddarparu gwybodaeth lafar i'r fenyw i ddechrau. Rhaid i'r sonograffydd roi adroddiad yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw yn ystod yr apwyntiad hwn.
- (2) Yna rhaid i'r fydwraig neu'r obstetregydd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol roi gwybodaeth lafar i'r fenyw, a dylid cofnodi'r ffaith bod y drafodaeth wedi digwydd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (3) Pan nad oes gwasanaethau priodol ar gael yn lleol, rhaid cynnig apwyntiad i'r fenyw mewn adran meddygaeth y ffetws/cardioleg y ffetws o fewn cyfnod priodol ar gyfer y cyflwr a ganfuwyd.

- (4) Pan nad yw'r fenyw wedi cydsynio i gael prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13), nid yw'r mesuriad o dryloywder y gwegil (NT) yn rhan o'r sgan dyddio beichiogrwydd cynnar. Os bydd y sonograffydd yn gweld yn ystod y sgan fod yr NT yn fwy o bosibl, dylid cymryd mesuriad ohono a'i gynnwys yn yr adroddiad.
- (5) Os nodir anomaledd y ffetws a/neu mae'r NT yn 3.5mm neu fwy, rhaid hysbysu'r fenyw a (gyda'i chydsyniad) ei hatgyfeirio i weithiwr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i roi rhagor o wybodaeth iddi ac i reoli'r achos. Rhaid anfon y ddelwedd/delweddau electronig gyda'r ohebiaeth atgyfeirio.
- (6) Os caiff anomaledd y ffetws ei nodi a/neu mae'r NT yn 3.5mm neu fwy, rhaid cwblhau prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) os yw'r fenyw wedi rhoi ei chydsyniad ar gyfer y prawf.
- (7) Os oes gan y fenyw anomaledd y ffetws neu NT sy'n 3.5mm neu fwy, dylid cynnig prawf mewnwthiol. Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf mewnwthiol, gellir cynnig NIPT os yw'r canlyniad o sgrinio cyfun yn siawns uwch, ond rhaid hysbysu'r fenyw mai dim ond canlyniad ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) fydd yr NIPT yn ei ddarparu, ac y bydd y weithdrefn fewnwthiol yn arwain at brawf arae SNP (polymorffedd niwcleotid unigol) sy'n darparu rhagor o wybodaeth am gyflyrau genetig.
- (8) Mewn amgylchiadau lle nad oes ffetws byw wedi'i nodi yn ystod y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, dylid dilyn canllawiau'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer ymdrin â beichiogrwydd anhyfyw.
- (9) Mewn achosion lle mae amheuaeth o anomaledd cynhenid, rhaid defnyddio'r modiwl adroddiadau RadIS2 i anfon adroddiad i'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS). Cyfrifoldeb y sonograffydd yw sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon i CARIS. Os nad yw'r modiwl adroddiadau RadIS2 ar gael, gellir hysbysu CARIS drwy'r [porth ar y we](#) neu lenwi 'cerdyn hysbysu CARIS', ac anfon y cerdyn at gydlynnydd/swyddfa CARIS.⁹
- (10) Nid oes angen gofyn am gydsyniad penodol y fenyw cyn anfon adroddiad i CARIS. Mae gwybodaeth am ddiben CARIS ac am hawl y fenyw i wrthod hawl i CARIS ddefnyddio gwybodaeth amdani yn llenyddiaeth [Profion Sgrinio Cyn Geni SCG](#).

Safon US 21

Fel ymateb i unrhyw ganfyddiadau annisgwyl, rhaid ysgrifennu cofnod cyfoes yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

8.3 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sganiau Uwchsain Anomaledd y Ffetws

8.3.1 Trefn y Prawf

Safon US 22

Rhaid cynnig sgan uwchsain anomaledd y ffetws a threfnu apwyntiad rhwng wythnos 18⁺⁰ ac wythnos 20⁺⁶ o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw yn cyflwyno i gael gofal cyn geni cyn yr adeg hon.

Targed 100%

- (1) Rhaid cynnig y sgan uwchsain sy'n briodol i'r cam yn y cyfnod cario mae'r fenyw wedi'i gyrraedd, os yw'r fenyw yn dod i gael ei gofal cyn geni'n hwyrach yn y beichiogrwydd. Mae'n bosibl defnyddio modiwl adrodd ar sgan anomaledd rheolaidd RadIS2 neu ddewis arall y cytunwyd arno ar gyfer y sganiau hyn gyda'r ddealltwriaeth ei bod yn bosibl na fydd yr amcangyfrif o fesuriadau arferol yn gywir yn hwyrach yn y beichiogrwydd.

Safon US 23

Rhaid cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer adrodd ar sgan uwchsain anomaledd y ffetws 18⁺⁰ wythnos i 20⁺⁶ wythnos, fel y nodwyd yn [Rhestr Wirio Sgan Anomaledd Sgrinio Cyn Geni Cymru](#) (Ebrill 2020).¹⁰

Targed 100%

- (1) Mewn achosion lle nad yw'r archwiliad cyntaf cystal ag y gallai fod ac mae'r sonograffydd yn amau bod anomaledd posibl ar y ffetws, rhaid gofyn am ail farn cyn gynted â phosibl.
- (2) Os nad oes modd cwblhau'r rhestr wirion safonol ar gyfer sgan, dylid cynnig un sgan uwchsain arall i'r fenyw. Rhaid dweud wrthi fod nifer o resymau pam nad yw'n bosibl cwblhau rhestr wirio'r sgan weithiau. Ymhlith yr enghreifftiau pam nad yw efallai'n bosibl cwblhau'r rhestr wirio mae ystyriaethau fel cyflwr corfforol neu lefel BMI y fam, ffibroidau yn y groth, creithiau ar yr abdomen a/neu ystyriaethau o safbwynt y ffetws fel safle nad yw cystal ag y gallai fod.
- (3) Dylid cwblhau'r ail archwiliad hwn cyn 22⁺⁶ wythnos o'r beichiogrwydd.
- (4) Lle nad yw'n bosibl cwblhau'r rhestr wirio safonol ar gyfer yr ail sgan, rhaid i'r sonograffydd hysbysu'r fenyw ynghylch pam ac ni ddylid cynnig sgan arall iddi.
- (5) Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod ar sganiau uwchsain anomaledd y ffetws a oedd yn anghyflawn ar gael gan SCG.

Safon US 24

Rhaid atgyfeirio'r canfyddiadau uwchsain penodol canlynol i gael eu hasesu ymhellach yn unol â [llwybrau arsylwi uwchsain](#) SCG 2018:

- fentrigwlomegali
- coluddyn ecogenig
- ymlediad y pelfis arenol.

Targed 100%

8.3.2 Canfyddiadau Annisgwyl yn Sgan Uwchsain Anomaledd y Ffetws

Safon US 25

Lle mae anomaledd yn cael ei nodi neu ei amau, rhaid i'r sonograffydd drefnu cyfle i fydwraig neu obstetregydd sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas drafod y canfyddiadau gyda'r fenyw o fewn 24 awr.

Targed 100%

- (1) Lle nodir neu amheuir anomaledd y ffetws, rhaid i sonograffydd ddarparu gwybodaeth lafar i'r fenyw i ddechrau. Rhaid i'r sonograffydd roi adroddiad yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw yn ystod yr apwyntiad hwn.
- (2) Mae SCG wedi darparu [canllawiau ar adrodd biometreg arferol sy'n plotio o dan y Sed ganradd](#) ar adeg sgan uwchsain anomaledd y ffetws.
- (3) Yna rhaid i'r fydwraig neu'r obstetregydd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol roi gwybodaeth lafar i'r fenyw, a dylid cofnodi'r ffaith bod y drafodaeth wedi digwydd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.
- (4) Mae cyngor ar wneud archwiliadau serolegol perthnasol ar serwm y fam i'w gael yn y ddogfen [heintiau yn ystod beichiogrwydd](#).
- (5) Pan nad oes gwasanaethau priodol ar gael yn lleol, rhaid cynnig apwyntiad i'r fenyw mewn uned meddygaeth y ffetws o fewn pum diwrnod gwaith i'r sgan uwchsain anomaledd y ffetws.
- (6) Mewn achosion lle mae amheuaeth o anomaledd cynhenid, rhaid defnyddio'r modiwl adroddiadau RadIS2 i anfon adroddiad i'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS). Cyfrifoldeb y sonograffydd yw sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon i CARIS. Os nad yw'r modiwl adroddiadau RadIS2 ar gael, gellir hysbysu CARIS drwy'r [porth ar y we](#) neu lenwi 'cerdyn hysbysu CARIS', ac anfon y cerdyn at gydlynnydd/swyddfa CARIS.¹¹
- (7) Nid oes angen gofyn am gydsyniad penodol y fenyw cyn anfon adroddiad i CARIS. Mae gwybodaeth am ddiben CARIS ac am hawl y fenyw i wrthod hawl i CARIS ddefnyddio gwybodaeth amdani yn [llenyddiaeth Prawf Sgrinio Cyn Geni SCG](#).

Safon US 26

Fel ymateb i unrhyw ganfyddiadau annisgwyl, rhaid ysgrifennu cofnod cyfoes yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

Cyfeiriadau

Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH) (2015) UK national guidelines on the management of syphilis 2015. *International Journal of STD & AIDS*. Ar gael o: www.bashhguidelines.org/media/1148/uk-syphilis-guidelines-2015.pdf (fel ar 21/02/2023).

Y Pwyllgor Prydeinig dros Safonau mewn Haematoleg (BCSH) (2014) BCSH guideline for the use of anti-D immunoglobulin for the prevention of haemolytic disease of the fetus and newborn. *Transfusion Medicine*. Ar gael o: onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/tme.12091/pdf (fel ar 30/08/2022).

Cymdeithas HIV Prydain (BHIVA) (2018) *British HIV Association guidelines for the management of HIV in pregnancy and postpartum*. Ar gael o: onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/hiv.12720 (fel ar 21/02/2023).

Cymdeithas Haematoleg Prydain (BSH) (2016) Guideline for blood grouping and red cell antibody testing in pregnancy. *Transfusion Medicine*. Ar gael o: onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1111/tme.12299 (fel ar 18/12/2022).

Yr Adran Iechyd (DoH) (2022) Immunisation against infectious diseases – Hepatitis B, *Y Llyfr Gwyrdd*, Pennod 18. Ar gael o: www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book#the-green-book (fel ar 21/02/2023).

JPAC (2014) *Transfusion handbook*. Ar gael o: www.transfusionguidelines.org/transfusion-handbook (fel ar 20/12/2022).

Loughna, P (2009) dyfynnwyd yn Chudleigh, T, Loughna, P, et al. (2011) *A practical solution to combining dating and screening for Down's syndrome*. Ar gael o: journals.sagepub.com/doi/abs/10.1258/ult.2011.011028 (fel ar 09/03/19).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Sgrinio cyn geni i leihau trosglwyddo HIV o'r fam i'r babi*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

NHS Sickle Cell and Thalassaemia Screening Programme (2021) *SCT screening: Handbook for antenatal laboratories*. Ar gael o: www.gov.uk/government/publications/sct-screening-handbook-for-antenatal-laboratories (fel ar 27/05/2022).

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) (2014) *Decontamination of flexible endoscopes. Part C: Operational management*. Ar gael o: <https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-01-06-decontamination-of-flexible-endoscopes-part-c-operational-management-pdf/> (fel ar 09/03/2023).

NICE (2019) *NG116 Ectopic pregnancy and miscarriage: Diagnosis and initial management*. Ar gael o: www.nice.org.uk/guidance/ng126 (fel ar 27/5/2022).

NICE (2021) *NG201 Antenatal care*. Ar gael o: www.nice.org.uk/guidance/ng201 (fel ar 21/03/2023).

ISOSS (2023) [National Surveillance of HIV in Pregnancy and Childbirth](#) NSHPC 2018 England (Bellach wedi'i gomisiynu gan ISOSS) Fel ar 07/03/2023

Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr (2021) *Amniocentesis and chorionic villus sampling* (Green-top Guideline No. 8). Ar gael o: www.rcog.org.uk/guidance/browse-all-guidance/green-top-guidelines/amniocentesis-and-chorionic-villus-sampling-green-top-guideline-no-8/ (fel ar 21/02/2023).

Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr (2022) *Best practice in abortion care*. Ar gael o: www.rcog.org.uk/media/geify5bx/abortion-care-best-practice-paper-april-2022.pdf (fel ar 21/02/2023).

Serious Hazards of Transfusion (SHOT) (2022) Definitions of current SHOT reporting categories & what to report. Ar gael o: <https://www.shotuk.org/wp-content/uploads/myimages/SHOT-Definitions-active-January-2022.pdf> (fel ar 20/12/2022).

UKAS (2023) ISO 15189 Medical laboratory accreditation. Ar gael o: www.ukas.com/accreditation/standards/medical-laboratory-accreditation/?msclid=15448eea936710d0a04eedd8238978d5 (fel ar 20/02/2023).

Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) (2016) *The UK NSC recommendation on fetal anomaly screening in pregnancy*. Llundain: UK NSC. Ar gael o: legacyscreening.phe.org.uk/fetal-anomalies (fel ar 09/03/2023).

Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (y UK NSC) (2017) *Sickle cell and thalassaemia*. Ar gael o: view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/sickle-cell-and-thalassaemia/ (fel ar 12/12/2022)

Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) (2019) *Update on NIPT implementation – microarray testing technology and twins*. Ar gael o: phescreening.blog.gov.uk/2019/06/17/update-on-nipt-implementation-microarray-testing-technology-and-twins/ (fel ar 21/02/2023).

Cylchlythyr Iechyd Cymru (1998) Rhif 36. *Screening of pregnant women for hepatitis B and immunisation of babies at risk*. Caerdydd: Swyddfa Gymreig.

Cylchlythyr Iechyd Cymru (2003) Rhif 127. *Annual priorities and planning guidance for the service and financial framework 2004-05*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cylchlythyr Iechyd Cymru (2017) 022. *Newid brechlyn fel rhan o'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd gychwynnol i fabanod*. Caerdydd: Lywodraeth Cymru. Ar gael o: www.llyw.cymru/newid-brechlyn-ar-gyfer-y-rhaglen-imiwneiddio-rheolaidd-gychwynnol-i-fabanod-whc2017022 (fel ar 21/03/2023).

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 Safon 38 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ôl-nodiadau

¹ Cyn gynted â phosibl ar ôl y geni ac ar ôl gofyn am gydsyniad rhieni, argymhellir brechu babanod cyfnod llawn yn unol â statws hepatitis B y fam a'r argymhellion yn y Llyfr Gwyrdd (DoH 2022).

² Dylid rhoi brechlyn hepatitis B i fabanod cyfnod llawn sy'n pwyso dros 1500g pan mae'r fam yn HBsAG positif a gwrth-HBe positif a lle mae lefel feirws hepatitis B DNA y fam yn $<1 \times 10^6$ iu/ml mewn sampl cyn geni. Bydd angen brechlyn hepatitis B a HBIG ar bob babi arall (DOH 2022).

³ Bydd angen dosau pellach o frechlyn hepatitis B arno pan fydd yn fis, deufis, tri mis, pedwar mis a 12 mis oed. Dylid gwneud prawf gwaed pan fydd y babi'n 12 mis oed i wirio lefel ei imiwnedd (DOH 2022).

⁴ Digwyddiadau a allai sensiteiddio yn ystod beichiogrwydd (BCSH 2014):

- amniosentesis, biopsi o'r filysau corionig a cordocentesis
- gwaedlif antepartwm/gwaedu o'r groth (PV) yn ystod beichiogrwydd
- troad ceffalig ar y tu allan
- trawma i abdomen (rhywbeth miniog/heb fin, agored/caeedig)
- beichiogrwydd ectopig
- gwagio beichiogrwydd molar
- marwolaeth babi yn y groth a marw-enedigaeth
- ymyriadau therapiwtig *in-utero* (trallwysiad, llawdriniaeth, mewnosod siyntiau, laser)
- camesgoriad neu fygythiad o gamesgoriad
- terfynu beichiogrwydd am resymau therapiwtig
- genedigaeth – normal, gydag offer neu doriad cesaraidd
- adfer celloedd yn ystod llawdriniaeth.

⁵ Dylid mynd ati cyn gynted â phosibl yn y beichiogrwydd i gynnig prawf sgrinio am glefyd y crymangeloedd a thalasaemia i'r fenyw er mwyn i CVS fod yn un o'r dewisiadau sydd ar gael iddi os bydd profion mewnwithiol yn cael eu cynnig. Er bod modd cynnal prawf CVS pan fydd dros 13 wythnos o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio ([RCOG 2021](#)), mae CVS yn cael ei gynnal fel arfer rhwng 11⁺⁰ ac 13⁺⁶ wythnos.

⁶ Ar hyn o bryd, nid oes rheolaeth reoleiddiol ar wneud sganiau uwchsain obstetrig ond rhaid i sonograffydd sy'n gwneud sgrinio obstetrig yng Nghymru feddu ar gymhwyster priodol, er enghraifft:

- Tystysgrif neu Ddiploma mewn Uwchsain Meddygol ym maes Obstetreg, neu
- Dystysgrif neu Ddiploma Ôl-raddedig mewn uwchsain meddygol wedi'i achredu gan y Consortiwm Achredu Addysg Sonograffig (CASE), sy'n cynnwys modiwl obstetreg priodol.

*Os oes gan sonograffydd gymhwyster arall nad yw wedi'i achredu gan CASE, dylai Byrddau Iechyd ystyried argymhellion gan gyrff proffesiynol perthnasol i gytuno pa ymarferwyr sydd â lefel gyfatebol o gymhwyster a'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol sydd eu hangen i ddarparu sgrinio obstetrig yng Nghymru.

⁷ Yn sgil cyflwyno'r rhaglenni uwchsain mynediad uniongyrchol mewn addysg uwch yn ddiweddar, bydd rhai sonograffwyr yn ennill cymhwyster achrededig ond ni fydd modd iddynt gofrestru gyda chorff rheoleiddio e.e. HCPC. Gan ystyried argymhellion cyrff proffesiynol perthnasol, dylai byrddau iechyd gytuno pa weithwyr iechyd proffesiynol

sydd â'r sgiliau a'r cymwyseddau i gynnal sganiau dyddio beichiogrwydd cynnar a sganiau uwchsain anomaledd y ffetws.

⁸ Delweddau i'w storio yn y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar:

Cytunodd y sonograffwyr arweiniol obstetrig ac NT ar y gyfres ganlynol o ddelweddau fel isafswm gofynnol ar gyfer storio, ac i ddarparu asesiad ansawdd o'r archwiliad. Toriad saethol llinell ganol i ddangos beichiogrwydd yn y groth, y mesuriad CRL a ddogfennwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd a'r mesuriad NT a ddogfennwyd os yw menyw wedi cydsynio i sgrinio cyfun. Dylai unrhyw annormaledd neu fesuriadau eraill a gynhwysir yn yr adroddiad gynnwys delwedd i ategu'r canfyddiad.

Delweddau i'w storio ar gyfer sgan uwchsain anomaledd y ffetws:

Cytunodd y sonograffwyr arweiniol obstetrig ar y gyfres ganlynol o ddelweddau fel isafswm gofynnol ar gyfer storio, ac i ddarparu asesiad ansawdd o'r archwiliad. Mesur cylch y pen, trwyn, gwefusau a gên, hyd asgwrn y forddwyd, delwedd o bedair siambr y galon, rhan ardraws yr arennau yn yr abdomen, delwedd tracea tair pibell gyda lliw, rhan hydredol canol i gynnwys yr os mewnol, yr asgwrn cefn saethol. Dylai unrhyw annormaledd neu fesuriadau eraill a gynhwysir yn yr adroddiad gynnwys delwedd i ategu'r canfyddiad.

⁹ Mae Adran 60 yn ategu gwaith CARIS. Mae Adran 60 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 yn darparu'r pŵer i sicrhau y gellir defnyddio gwybodaeth sy'n gallu datgelu hunaniaeth claf i gefnogi gweithgaredd hanfodol y GIG heb gydsyniad cleifion. Dim ond er mwyn hwyluso gwaith meddygol sydd er budd y claf unigol neu'r cyhoedd yn gyffredinol y gall y pŵer gael ei ddefnyddio, pan nad yw'n ymarferol i ofyn am ganiatâd y claf a lle na fyddai data dienw'n ddigon i'r pwrpas dan sylw.

¹⁰ Oherwydd cyfyngiadau'r prawf, dim ond cyfran o annormaleddau yn natblygiad corff y babi y gall sganiau uwchsain anomaledd y ffetws eu canfod. Mae'n bwysig nodi nad yw 'sgan uwchsain anomaledd y ffetws cyflawn' yn golygu o anghenraid bod pob rhan o gorff y babi wedi datblygu'n normal ac nad oes unrhyw annormaleddau yno. Unig ystyr y term yw bod y sgan wedi cael ei gwblhau i'r safon sy'n ofynnol.

¹¹ Mae Adran 60 yn ategu gwaith CARIS. Mae Adran 60 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 yn darparu'r pŵer i sicrhau y gellir defnyddio gwybodaeth sy'n gallu datgelu hunaniaeth claf i gefnogi gweithgaredd hanfodol y GIG heb gydsyniad cleifion. Dim ond er mwyn hwyluso gwaith meddygol sydd er budd y claf unigol neu'r cyhoedd yn gyffredinol y gall y pŵer gael ei ddefnyddio, pan nad yw'n ymarferol i ofyn am ganiatâd y claf a lle na fyddai data dienw'n ddigon i'r pwrpas dan sylw.